CDLl

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol
## 2007 - 2022

## Canllawiau Cynllunio Atodol

## Cadwraeth Natur










**Mabwysiedig Ionawr 2015**

Cyngor Sir
CEREDIGION
CEREDIGION
County Council

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn un o gyfres o nodiadau cyfarwyddyd sy'n ategu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Er y bydd penderfyniadau cynllunio yn seiliedig ar bolisïau'r CDLl (fel y nodir yn rhan 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004), mae cynnwys y CCA a'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Nid yw'r Canllawiau yn amlinellu polisi yn annibynnol ar y CDLl ac mae'n darparu canllawiau atodol yn unig. Felly, yn unol â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, barnwyd na ddylai fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ar wahân. Gellir gweld canlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r polisïau sy'n berthnasol i'r CCA hyn:

- DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15: Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM20: Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- DM22: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol (rhannau)

yn Atodiad 3 o Adroddiad Terfynol Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (Ebrill 2013).

# Cynnwys

**Cynnwys** ........ **iii**
**1. Cyflwyniad** ........ **1**
Y prif negeseuon ........ 1
**2. Bioamrywiaeth a Chadwraeth** ........ **4**
Y Dull Ecosystem ........ 4
**3. Bioamrywiaeth a'r Gyfraith** ........ **6**
Rhywogaethau ........ 6
Tabl 1. Crynodeb o'r rhywogaethau amrywiol a warchodir a'u statws ........ 7
Tabl 2. Safleoedd y gallai datblygu effeithio arnynt yng Ngheredigion ........ 9
Cynefinoedd/Geoamrywiaeth ........ 9
Rhwymedigaethau cyfreithiol yr Awdurdod Lleol ........ 10
Gofynion deddfwriaethol eraill ........ 11
**4. Polisïau Perthnasol** ........ **15**
Polisi Cynllunio Cenedlaethol ........ 15
Polisïau CDLl Ceredigion ........ 15
DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol ........ 16
DM15: Cadw Bioamrywiaeth Leol ........ 17
Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur (SoBGN) ........ 18
DM16: Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol ........ 19
Polisïau CDLl perthnasol eraill ........ 19
Canllawiau a phrosesau perthnasol eraill ........ 20
**5. Bioamrywiaeth a'r broses ymgeisio** ........ **23**
Ffigur 1: Proses Arfer Da ........ 25
**6 Arolwg ac asesiad o fioamrywiaeth** ........ **26**
Tabl 3. Y gofyniad lleol ar gyfer rhywogaethau a warchodir ac â blaenoriaeth pan fydd arolwg ac asesiad yn ofynnol ........ 32
Tabl 4. Y gofynion lleol ar gyfer cynefinoedd â blaenoriaeth y mae arolwg ac asesiad yn ofynnol ar eu cyfer ........ 35
Tabl 5. Y gofynion lleol ar gyfer nodweddion geoamrywiaeth y mae arolwg ac asesiad yn ofynnol ar eu cyfer ........ 36
Tabl 6. Crynodeb byr o'r hyn y mae pob arolwg yn ei olygu ........ 38
Tabl 7. Tymhorau'r arolygon ecolegol ........ 39
Tabl 8. Cwmpas, manylion a gwybodaeth y dylid eu cynnwys ym mhob adroddiad arolwg ac asesiad ecolegol ........ 43
Tabl 9. Cwmpas, manylion a gwybodaeth ychwanegol y dylid eu cynnwys mewn adroddiadau sy'n cwmpasu arolygon Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop posibl ........ 44
Tabl 10. Cwmpas, manylion a gwybodaeth ychwanegol y dylid eu cynnwys mewn adroddiadau sy'n cwmpasu arolygon ystlumod ........ 45
Tabl 11. Cwmpas, manylion a gwybodaeth ychwanegol y dylid eu cynnwys mewn adroddiadau sy'n cwmpasu arolygon dyfrgwn ........ 45
Tabl 12. Cwmpas, manylion a gwybodaeth ychwanegol y dylid eu cynnwys mewn adroddiadau sy'n cwmpasu arolygon ymlusgiaid ........ 46
**7 Cyflwyno'r dull cam wrth gam** ........ **47**
Osgoi ........ 48
Lliniaru ........ 48
Tabl 13. Amserlen lliniaru. Wedi'i addasu o Ecological Survey and Calendars Briefing Note (Willmott Dixon, 2010) ........ 49

Digolledu ..... 50
Gwelliannau ..... 51
Tabl 14. Amlinelliad o ofynion y Cynllun Rheoli ..... 52
**8 Trwyddedau Rhywogaethau ..... 53**
Pwy sydd angen trwydded? ..... 53
Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop ..... 53
Rhywogaethau a Warchodir gan y DU ..... 54
**9 Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) ..... 55**
Barn Sgrinio ..... 55
Barn Gwmpasu ..... 55
**10 . Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ..... 57**
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ..... 57
Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) ..... 57
Ramsar ..... 57
ACA/AGA/Ramsar Ceredigion ..... 58
Sut ydw i'n gwybod a fydd fy nghynnig yn effeithio ar AGA/ACA/Ramsar? ..... 58
Ffigur 2: Lleoliad Safleoedd Ewropeaidd a aseswyd gan Sgrinio ARhC y CDLl ..... 58
Cynigion a allai effeithio ar AGA/ACA/Ramsar ..... 59
Asesiad Priodol ..... 59
Beth sy'n digwydd os na ellir penderfynu na fydd fy nghynnig yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd yr AGA a/neu'r ACA yn dilyn Asesiad Priodol? ..... 60
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) - Cynghorion ..... 60
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd CDLl Ceredigion ..... 60
Tabl 15: Safleoedd a neilltuwyd o fewn y CDLl lle y gall fod angen asesiad pellach. Mae'r gofynion a restrir yma yn rhai y gwyddys y bydd eu hangen er mwyn i Brawf o'r Effaith Arwyddocaol Debygol ARhC gael ei gynnal gan yr ALl. Gall fod angen cyflwyno rhagor o wybodaeth ar gyfer yr asesiad hwn a bydd angen gwybodaeth arall ar gyfer agweddau eraill ar asesu'r effaith ecolegol. ..... 61
**11 Datblygu a Ganiateir ac Adeiladau Rhestredig ..... 67**
Gorchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ac ACA/AGA/Ramsar ..... 67
Gorchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ac AEA ..... 67
Gorchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir a Rhywogaethau a warchodir ac â Blaenoriaeth ..... 67
Hysbysiad ymlaen llaw ar gyfer dymchwel ..... 67
**12 . Mathau o Ddatblygiadau ac Astudiaethau Achos ..... 69**
**Cyfeiriadau ..... 81**
**Atodiad A: Rhestr gyfeirio ar gyfer ceisiadau cynllunio ac Ecoleg ..... 84**

# 1. Cyflwyniad

1.1 **Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn darparu cyfeiriad penodol ar sut y dylid cadw a gwella bioamrywiaeth drwy'r broses cynllunio gwlad a thref. Bydd yn dangos sut i fodloni polisi cynllunio cenedlaethol ar lefel leol yn ogystal â pholisïau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion a rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae'n rhaid i fioamrywiaeth fod yn brif ystyriaeth ym mhob cynnig datblygu oherwydd mae gan gadwraeth a gwella bioamrywiaeth ran hollbwysig i'w chwarae wrth gynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy[1] (Nodyn Cyngor Technegol (TAN) i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) 5 para 1.6.1 Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) 2009).**

1.2 Mae'r canllawiau yn fodd i ddatblygwyr, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth eraill y Cyngor, gydymffurfio â dull rhagweithiol y Cyngor tuag at sicrhau amgylchedd naturiol o ansawdd uchel a rhoi sylw i ddyletswyddau statudol a chyfrifoldebau cymdeithasol. Bydd y canllawiau yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio.

1.3 Mae'r canllawiau yn ceisio:
- sicrhau bod prif egwyddorion canllawiau cynllunio cenedlaethol ar fioamrywiaeth a chadwraeth natur yn cael eu bodloni ar lefel leol;
- sicrhau bod penderfyniadau cynllunio lleol yn cynnal, adfer a gwella bioamrywiaeth yng Ngheredigion;
- sicrhau bod arferion gorau yn cael eu dilyn yn gyson ac yn agored;
- cadw costau datblygu i'r lleiaf posibl a symleiddio'r broses cais cynllunio drwy sicrhau bod goblygiadau cadwraeth natur yn cael eu cynnwys mor gynnar â phosibl a'u bod mor rhagweladwy â phosibl; ac
- integreiddio Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion i'r broses gynllunio ac adnabod llwybrau gweithredu.

## Y prif negeseuon

1.4 Dyma rai o brif negeseuon y canllawiau hyn a thrafodir pob un ohonynt yn fwy manwl yn ddiweddarach yn y canllawiau:

- Mae nifer o geisiadau cynllunio yn debygol o orfod cynnwys rhyw fath o arolwg, yn enwedig os yw'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys adeiladu newydd, dymchwel, addasu neu newid **(gweler Adran 6).**

- Rhaid i **bob** cais sy'n cynnwys 0.1 hectar neu ragor[2] o safle tir glas (tir heb ei ddatblygu o'r blaen) gael Arfarniad Ecolegol Cychwynnol (AEC), ac arolygon penodol o rywogaethau/cynefinoedd i ddilyn lle bo'n briodol (oni bai bod trafodaethau â'r Ecolegydd Cynllunio yn dangos nad oes eu hangen). Gall fod angen i geisiadau ar gyfer rhai safleoedd sy'n is na'r trothwy hwn gael AEC hefyd (neu arolygon ecolegol eraill

[1] Dylai datblygu cynaliadwy ateb anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion nhw
[2] h.y. unrhyw safle dros y trothwy 'safle bach' ar gyfer ffioedd cynllunio

fel bo’n briodol). Efallai y bydd angen AEC ar rai safleoedd tir llwyd hefyd gan ddibynnu ar natur y safle a'r cais (e.e. efallai y bydd angen arolygon ystlumod ac adar bridio ar gyfer estyniadau) (**gweler Adran 6**).

- Mae cyngor cyn cyflwyno cais gan yr Awdurdod Lleol (ALl), gan gynnwys Ecolegydd Cynllunio'r ALl, ar gael (ffi yn daladwy (ar wahân i'r broses cyn cais cynllunio i drafod arolygon angenrheidiol ac a yw’r mesurau lliniaru a’r cynlluniau awgrymedig yn addas.

- Dylai arolygon o'r safle, gan gynnwys yr ardaloedd a effeithir gan y gwaith draenio, mynediad ac ati, gael eu cwblhau ar ddechrau'r broses (hynny yw, pan fyddwch yn dechrau meddwl am gynllun y safle, cynnwys ac ati) er mwyn iddynt allu llywio'r dyluniad yn hytrach na cheisio cynnwys y canlyniadau o fewn dyluniad sydd eisoes wedi'i baratoi. Gall ystyried bioamrywiaeth ar y dechrau arbed amser ac arian nes ymlaen, gwella'r dyluniad a darparu datblygiad mwy cynaliadwy.

- Ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig y gellir cynnal rhai arolygon a gwneud mesurau lliniaru, ac felly mae angen ystyried hyn yn amseriad y cais cynllunio ac adeiladu'r datblygiad. Mae’n rhaid i ecolegwyr cymwys a phriodol gynnal yr arolygon (**gweler Adran 6 a 7**).

- Dylai’r adroddiadau a gyflwynir fel rhan o gais cynllunio gynnwys canlyniadau unrhyw arolwg a wnaed **AC** asesiad o effaith ddisgwyliedig y datblygiad arfaethedig ar y rhywogaethau/cynefinoedd/safleoedd, argymhellion ar gyfer lliniaru, gwneud iawn a gwelliannau (**gweler Adran 6**).

- Rhaid i'r camau gweithredu a'r mesurau lliniaru a argymhellir yn yr adroddiadau a'r cyngor gael eu cynnwys yng nghynlluniau arfaethedig y cais cynllunio os ydynt yn ymwneud â dyluniad y datblygiad, y cynllun ac ati, oni bai y cytunwyd a’r All nad oes angen gwneud hyn. Bydd argymhellion eraill (megis trwydded ar gyfer rhywogaeth a warchodir, trefniadau rheoli ac ati) yn cael sylw gan yr All pan fydd hysbysiad o benderfyniad yn cael ei gyhoeddi gydag amodau/gwybodaeth yn dibynnu ar y cyd-destun. Mewn rhai achosion, gall fod angen cytundebau Adran 106 os nad yw'r amodau yn addas. Yn dibynnu ar y safle a'i nodweddion, gall lliniaru/digolledu/rheoli olygu bod rhaid i'r datblygwr wneud cyfraniad ariannol (**gweler Adran 6 a 7**).

- Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r datblygiadau arfaethedig wneud cyfraniad cadarnhaol at wella cadwraeth natur (**gweler Adran 7**).

- Rhaid cwblhau arolygon, asesiadau ac adroddiadau yn unol a’r Safonau Prydeinig ar gyfer Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio a Datblygu (BS42020:2013)

1.5 **Sylwer: Er bod yr wybodaeth sydd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn gywir adeg eu cyhoeddi, bydd mwy o ddealltwriaeth o'r**

**amgylchedd naturiol yn arwain at gyhoeddi deddfwriaeth a chanllawiau pellach.**



# 2. Bioamrywiaeth a Chadwraeth

2.1 Mae bioamrywiaeth yn derm sy'n disgrifio’r nifer a'r amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid ac organebau eraill o fewn cynefin, a hefyd yr amrywiaeth o gynefinoedd o fewn ecosystem. Mae cadwraeth a gwella bioamrywiaeth yn elfen allweddol o ddatblygu cynaliadwy.

2.2 Yn ôl Llywodraeth Cymru (LlC) Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy (2009), mae datblygu cynaliadwy yng Nghymru:

> Yng nghyd-destun Cymru, mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i’n cenhedlaeth ni a chenedlaethau’r dyfodol:
>
> - mewn ffyrdd sy’n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
> - mewn ffyrdd sy’n gwella’r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau - gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau’r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol;
> - datblygu cynaliadwy yw’r broses a ddefnyddiwn i gyflawni nod cynaliadwyedd.

2.3 Mae LlC wedi dewis statws cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth fel prif ddangosydd[3], gan ddarparu mesur o gynnydd cenedlaethol tuag at ddatblygu cynaliadwy. Bydd datblygiadau yn y dyfodol yng Ngheredigion yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod statws cynefinoedd a rhywogaethau yn gwella.

2.4 Mae'r ddogfen hon yn rhoi sylw i nifer o nodweddion bioamrywiaeth. Mae nodweddion bioamrywiaeth yn cynnwys:-

- safleoedd wedi'u dynodi ar sail eu diddordeb cadwraeth;
- cynefinoedd â blaenoriaeth;
- rhywogaethau a'r amgylchedd a ddefnyddiant; a
- chynefinoedd sy'n darparu coridorau neu gerrig llamu ar draws y tirlun, megis gwrychoedd neu rwydweithiau o byllau. Mae cysylltedd ecolegol yn cynnig modd i rywogaethau fforio, mudo, cytrefu ardaloedd newydd ac ymateb i newid cynefin a newid hinsawdd.

2.5 Mae elfennau eraill o'r amgylchedd ehangach hefyd wedi'u cynnwys mewn mannau oherwydd y berthynas agos rhyngddynt. Fodd bynnag, fel rheol nid yw'r CCA yn bwriadu ymdrin â phob agwedd ar ofynion amgylcheddol o fewn y maes cynllunio.

## Y Dull Ecosystem

2.6 Mae'r dull ecosystem yn cynnwys rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn ffordd integredig gan hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy mewn ffordd

[3] Y brif set o ddata sy'n disgrifio'r ffactorau sydd i'w newid

deg. Y nod yw hyrwyddo meddwl am yr amgylchedd a sut i'w reoli mewn ffordd integredig. Mae'n annog ystyried yn llawnach amrywiaeth llawer ehangach o wasanaethau a ddarperir gan natur wrth wneud penderfyniadau.



# 3. Bioamrywiaeth a'r Gyfraith

3.1 Mae nifer o blanhigion, anifeiliaid a safleoedd yng Nghymru wedi'u gwarchod rhag niwed gan y gyfraith. Gall y broses adeiladu a hefyd y defnydd a wneir o ddatblygiad gael effaith negyddol arnynt. Gall hyn arwain at aflonyddu, ynysu, anafu neu farwolaeth anifail/rhywogaeth neu ddiraddio neu ddinistrio cynefin, a all fod yn drosedd hefyd. Mae'r amrywiaeth hon o ddeddfwriaeth yn gymwys i ddatblygwyr, tirfeddianwyr a'r ALl mewn rhai achosion. Mae gan yr ALl ei rwymedigaethau ei hun hefyd. Felly bydd hyn yn ffurfio rhan o'r ystyriaethau wrth benderfynu pob cais cynllunio.

3.2 Yn y DU y prif ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chadwraeth natur yw:

- **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd)** - mae'n cadarnhau cyfarwyddeb yr UE ar Gadwraeth Ffawna a Fflora Gwyllt (92/43/EEC). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwarchod safleoedd Ewropeaidd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig), Safleoedd Morol Ewropeaidd ac mae hefyd yn gwarchod rhai planhigion ac anifeiliaid gwyllt (Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop).
- **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** - mae'n gwarchod rhai rhywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid.
- **Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (fel y'i diwygiwyd)** - mae'n cryfhau gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn diwygio'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yng nghyd-destun rhai rhywogaethau a warchodir.
- **Deddf Gwarchod Moch Daear 1992** - mae'n gwarchod moch daear a'u setiau.
- **Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006** - mae'n rhoi dyletswydd statudol ar bob corff cyhoeddus i roi sylw i gadwraeth bioamrywiaeth ac mae'n rhoi rhestr o'r rhywogaethau sydd o'r pwysigrwydd mwyaf at ddiben gwarchod amrywiaeth fiolegol.

3.3 Y ceisydd/datblygwr/tirfeddiannwr sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth bywyd gwyllt neu gadwraeth natur. Yn aml bydd torri'r ddeddfwriaeth hon yn arwain at oedi, costau ychwanegol a'r posibilrwydd o gael eich erlyn. Bydd dilyn y canllawiau yn y ddogfen hon, canllawiau arfer gorau a dilyn cyngor ecolegydd ymgynghorol cymwys yn helpu i osgoi'r meini tramgwydd hyn wrth geisio caniatâd cynllunio. Dylai datblygwyr/tirfeddianwyr nodi bod y ddeddfwriaeth hon yn annibynnol ar y system gynllunio a'u bod nhw (ac unrhyw gontractwyr) yn dal i fod yn gyfrifol am sicrhau nad ydynt yn torri'r ddeddfwriaeth y tu allan i'r system gynllunio ac ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi.

## Rhywogaethau

3.4 Mae Tabl 1 isod yn rhoi crynodeb o'r rhywogaethau amrywiol a warchodir a'u statws, ac mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn Atodiad 7 ac 8 o TAN 5 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009). Dylid defnyddio'r tabl hwn fel canllaw ac felly i gael gwybodaeth benodol a'r wybodaeth ddiweddaraf cysylltwch â



Chyfoeth Naturiol Cymru neu ewch i **wefan Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur**[4]. Mae rhestr o'r rhywogaethau a restrir o dan Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (rhywogaethau Adran 42) i'w gweld ar **wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**[5].

**Tabl 1. Crynodeb o'r rhywogaethau amrywiol a warchodir a'u statws**

| Grŵp/ rhywogaeth | Enghreifftiau ar gyfer Ceredigion | Wedi'u gwarchod gan/wedi'u rhestru o dan | Wedi'u gwarchod yn erbyn |
|---|---|---|---|
| **Rhywogaethau a warchodir gan Ewrop** | Ystlumod, pathewod, madfallod y twyni, brith y gors, dyfrgwn, crwbanod y môr, dolffiniaid, llamhidyddion a morfilod | Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) | • Dal/cymryd, anafu neu ladd<br>• Aflonyddu, gan gynnwys pan fyddant yn defnyddio adeiledd ar gyfer cysgod neu ddiogelwch<br>• Difrodi, dinistrio neu rwystro adeiledd a ddefnyddir ar gyfer cysgod neu ddiogelwch |
| **Llyswennod** | Llyswennod Ewropeaidd | Rheoliadau Llyswennod yr UE 2007 a Rheoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr) 2009 | • Diogelu symudiad llyswennod trwy ein hafonydd |
| **Pob aderyn gwyllt** | Adar y to, adar duon ac ati | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) | • Lladd, anafu neu gymryd[6]<br>• Cymryd, difrodi neu ddinistrio'r nyth tra bo'r nyth yn cael ei defnyddio neu ei hadeiladu<br>• Cymryd neu ddinistrio wy |
| **Rhai adar gwyllt** | Tylluanod gwynion, barcud coch ac ati | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) | Yn ogystal â'r uchod:<br>• Aflonyddu tra bo'r aderyn yn adeiladu nyth neu tra bo'r aderyn yn, ar neu wrth ymyl nyth sy'n cynnwys wyau neu |

[4] http://jncc.defra.gov.uk/

[5] http://www.biodiversitywales.org.uk/

[6] Mae rhai adar wedi'u rhestru fel eithriadau (gweler Adran 2 o Ddeddf Bywyd Gwallt a Chefn Gwlad 1981)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | rai ifanc<br>• Aflonyddu adar bach dibynnol |
| **Rhai anifeiliaid eraill** | Llygod y dŵr, bele'r coed, nadroedd y gwair | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) | Cyfuniadau amrywiol o:<br>• Ladd, anafu neu gymryd<br>• Aflonyddu tra eu bod yn defnyddio adeiledd ar gyfer cysgod neu ddiogelwch<br>• Difrodi, dinistrio neu rwystro adeiledd a ddefnyddir ar gyfer cysgod neu ddiogelwch |
| **Anifeiliaid eraill** | Moch daear | Deddf Gwarchod Moch Daear 1992 | • Lladd, anafu neu gymryd<br>• Ceisio lladd, anafu neu gymryd mochyn daear<br>• Ymyrryd neu geisio ymyrryd â set mochyn daear gan gynnwys dinistrio, rhwystro, aflonyddu ac anfon cŵn i lawr |
| **Pob planhigyn gwyllt** | Tegeirian porffor y gwanwyn, gludlys coch ac ati | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) | • Dadwreiddio'n fwriadol |
| **Rhai planhigion gwyllt** | Tegeirian rhithiol, penigan y porfeydd ac ati | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) | • Pigo, dadwreiddio neu ddinistrio'n fwriadol |
| **Rhai adar, anifeiliaid a phlanhigion gwyllt** | Ehedydd, llyffant du, gwenynog ac ati | Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 | • Hefyd wedi'u rhestru fel rhywogaethau pwysig iawn at ddiben gwarchod amrywiaeth fiolegol |

## Safleoedd




3.5 Mae gwahanol safleoedd cadwraeth natur ar draws y sir gan gynnwys rhai rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Mae crynodeb o'r rhain i'w weld yn **Nhabl 2**. Mae rhagor o wybodaeth am warchod, dynodi/hysbysu a lleoliad y safleoedd hyn i'w gweld yn Atodiad 2 o TAN 5 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009) a

gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru[7].

**Tabl 2. Safleoedd y gallai datblygu effeithio arnynt yng Ngheredigion**

| Statws gwarchod | Math o safle | Y rhai y mae datblygu yng Ngheredigion yn debygol o effeithio arnynt |
|---|---|---|
| **Rhyngwladol** | Ardaloedd o Gadwraeth Arbennig (ACA) | 12 yng Ngheredigion a 4 yn ardal Ceredigion, e.e. ACA Bae Ceredigion, ACA Afon Teifi ac ati |
| | Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) | 2 yng Ngheredigion (AGA Elenydd a Dyfi) |
| | Ramsar | 2 yng Ngheredigion (Ramsar Cors Caron a Ramsar Cors Fochno a Dyfi) |
| **Cenedlaethol** | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) | Dros 100 yng Ngheredigion ac eraill ar y ffin â siroedd eraill, e.e. SoDdGA Aberarth-Carreg Wylan |
| | Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) | 8 o fewn/ar y ffin â Cheredigion, e.e. GNG Coed Rheidol |
| | Gwarchodfa Natur Forol (GNF) | Dim eto yng Ngheredigion |
| **Lleol** | Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl) | 3 yng Ngheredigion, eraill ar y ffin â siroedd eraill e.e. Gwarchodfa Natur Leol Parc Natur Penglais |
| | Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur | Dim eto yng Ngheredigion, wrthi'n cael eu dynodi drwy'r broses CDLl |
| | Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol (SDPRh) | 50 yng Ngheredigion, eraill ar y ffin â siroedd eraill e.e. SDPRh Chwareli Allt-goch a'r Bryn |
| | Coetiroedd Ymddiriedolaeth y Cotiroedd | 8 yng Ngheredigion e.e. Coed y Mwldan |
| | Gwarchodfeydd yr RSPB | 2 yng Ngheredigion neu'n union am y ffin (Ynys-hir a Gwenffrwd-Dinas) |



3.6 Mae rhan o Warchodfa Biosffer Dyfi UNESCO yng Ngheredigion hefyd

## Cynefinoedd/Geoamrywiaeth

3.7 Mae rhai cynefinoedd wedi'u rhestru'n bwysig iawn at ddiben gwarchod amrywiaeth fiolegol o dan Adran 42 o

[7] www.naturalresourceswales.gov.uk

Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Mae'n cynnwys cynefinoedd megis coetiroedd, dolydd ar yr iseldir, gorgors ac ati. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[8]. Mae'r cynefinoedd hyn, pan fyddant yn berthnasol i Geredigion, hefyd wedi'u cynnwys o fewn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion.

## Rhwymedigaethau cyfreithiol yr Awdurdod Lleol

3.8 Yn ogystal a'r ddeddfwriaeth uchod, mae rhwymedigaethau cyfreithiol ychwanegol gan yr ALl o ran bywyd gwyllt, a bydd y rheiny'n ystyriaeth hefyd o ran ymatebion wrth ymgynghori ynghylch ceisiadau cynllunio.

3.9 Mae Rheoliad 9(5) Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn rhoi dyletswydd ar yr ALl i ystyried gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol yw Erthygl 12(1) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Rheoliad 41(1) o'r Rheoliadau) - gwarchod anifeiliaid gwyllt: troseddau. Mae hynny hefyd yn cynnwys ystyriaeth o ddal/lladd rhywogaeth a restrir yn Anecs IV o dan Reoliad 51 yn ddamweiniol.

3.10 Hefyd, mae Rheoliad 9A(3) yn gosod amcan o ran cadw, cynnal ac ailsefydlu amrywiaeth ac ardaloedd digonol o gynefinoedd ar gyfer adar gwyllt yn y Deyrnas Unedig. Fel awdurdod cymwys, mae'n rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyflawni amcanion rheoliad 9A(3) i'r graddau y mae o fewn eu pwerau.

3.11 Mae dyletswyddau pellach o dan y Rheoliadau i'r Awdurdod Lleol warchod rhag llygru nac achosi dirywiad i gynefinoedd adar gwyllt wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau.

3.12 Yn ogystal, mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn rhoi'r dyletswyddau canlynol ar yr ALl:

- dod â darpariaethau'r Ddeddf yn ymwneud â rhywogaethau a warchodir at sylw'r cyhoedd (Adran 25)
- cymryd camau rhesymol i gadw a gwella ymhellach nodweddion Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Adran 28G)
- hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru a rhoi sylw i unrhyw gyngor a geir ganddynt cyn caniatáu unrhyw waith sy'n debygol o niweidio nodweddion Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, boed y gwaith o fewn y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ai peidio (Adran 28I)

3.13 Mae gofynion pellach yn bodoli o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 o ran Safleoedd Ewropeaidd. Trafodir hyn ymhellach o dan Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn Adran 10.

### *Dyletswydd yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig*

3.14 Mae dyletswydd gan yr ALl o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 i ystyried dibenion cadwraeth bioamrywiaeth, wrth ymarfer ei swyddogaeth, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â'r ymarfer

[8] http://www.biodiversitywales.org.uk/

priodol o'r swyddogaethau hynny. Mae hyn yn cynnwys cadwraeth a gwella bioamrywiaeth.



## Gofynion deddfwriaethol eraill

3.15 Ceir gofynion eraill hefyd yn ôl y deddfau amgylcheddol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth. Rhestrir y rhai mwyaf perthnasol isod.

***Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2011***

3.16 Gellir gofyn i ymgeiswyr lunio Adroddiad Amgylcheddol o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2011. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn cwmpasu'r gofynion mewn perthynas ag agweddau ecolegol mewn termau lleol yn Adran 9. Mae rhagor o ganllawiau manwl wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru[9].

3.17 Yn ogystal â'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2011, mae Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol eraill nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r system gynllunio ond y dylai tirfeddianwyr fod yn ymwybodol ohonynt, sef:

- **Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007.** Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i brosiectau sy'n cynyddu cynhyrchedd amaethyddol tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol a hefyd i brosiectau ailstrwythuro ar raddfa fawr. Gallai torri'r Rheoliadau hyn arwain at ddirwy a/neu'r gofyniad i adfer y tir ar eich cost eich hun. Mae rhagor o fanylion i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru[9].
- **Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru) 1999.** Mae'r rheoliadau hyn yn cwmpasu coedwigaeth, datgoedwigo, ffyrdd coedwigoedd a chwareli coedwigoedd. Os ydych yn bwriadu gwneud gwaith a allai gael ei ddosbarthu o fewn un o'r pedwar prosiect coedwigaeth, dylech gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru.

***Rheoliadau Perthi***

3.18 O dan Reoliadau Perthi 1997 mae'n anghyfreithlon i symud y rhan fwyaf o berthi cefn gwald heb ganiatâd; gallai wneud hynny arwain at ddirwy ddiderfyn a rhwymedigaeth i roi perth arall yn ei le. Os yw'r datblygiad arfaethedig yn cynnig symud perthi, mae'r Rheoliadau Perthi yn cael eu hystyried yn y broses cais cynllunio. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan yr ALl[10] neu gallwch



[9] www.cymru.gov.uk
[10] www.ceredigion.gov.uk

weld y Rheoliadau llawn yn http://www.legislation.gov.uk/uksi/1997/1160/contents/made.

***Rheoliadau Gorchymyn Cadw Coed***

3.19 Mae'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 yn darparu'r ddeddfwriaeth ar gyfer gwneud, amrywio, dirymu ac ati Gorchymyn Cadw Coed. Mae nifer o goed, grwpiau o goed a choetiroedd ar draws y sir wedi'u cwmpasu gan Orchymyn Cadw Coed. Gorchmynion yw'r rhain sy'n cael eu gwneud gan yr ALl i warchod coed drwy reoli cwympo coed a gwaith arall i goed. Gweler Adran 4 am ragor o wybodaeth. Mae coed mewn Ardaloedd Cadwraeth hefyd yn cael eu gwarchod i ryw raddau.



***Rhywogaethau goresgynnol estron***

3.20 Mae dros 100 o rywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru. Mae rheoli a gwaredu'r rhain wedi'u cwmpasu gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Dylai datblygwyr a'r tirfeddiannwr fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y darnau hyn o ddeddfwriaeth ac, yn ogystal, gymryd gofal rhesymol i atal cyflwyniad a lledaeniad rhywogaethau goresgynnol estron eraill.

***Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd a Chaniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin (caniatâd draenio tir gynt)***



3.21 Mae unrhyw ddatblygiad o fewn, dros, o dan neu'n gyfagos i gwrs dŵr yn gofyn am ganiatâd i sicrhau nad yw'r gwaith yn cynyddu'r risg o lifogydd, difrodi amddiffynfeydd rhag llifogydd neu'n niweidio'r amgylchedd, pysgodfeydd, neu fywyd gwyllt yn ychwanegol at y system gynllunio.

3.22 O dan y Ddeddf Draenio Tir 1991 a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, rhaid cael caniatâd Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag unrhyw gwrs dŵr cyffredin (fel ar 6 Ebrill 2012).

3.23 Mae'r Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 ac is-ddeddfau cysylltiedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i chi wneud cais am ganiatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r prif afonydd a'r arfordir.

***Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010***

3.24 O dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 mae gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) yn ofyniad i bob datblygiad newydd, boed yn

ddefnydd neu'n uned sengl neu luosog. Yn ogystal, mae'r CDLl Polisi DM13: Systemau Draenio Cynaliadwy yn ceisio gwella'r gofyniad cenedlaethol presennol ar gyfer SDCau drwy sicrhau bod unrhyw SDC a gynigir fel rhan o ddatblygiad yn gallu tyfu/ehangu wrth i'r datblygiad dyfu/ehangu, ac ar gyfer cynlluniau 'unigryw' mwy o faint, er enghraifft, ysbytai newydd, archfarchnadoedd, eu bod o safon y gellir ei mabwysiadu. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn CDLl Ceredigion Canllawiau Cynllunio Atodol: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio (Cyngor Sir Ceredigion, 2014b).

***Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr***

3.25 Mabwysiadwyd Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd yn 2000. Diben y Gyfarwyddeb yw sefydlu fframwaith ar gyfer diogelu dyfroedd wyneb mewndirol (afonydd a llynnoedd), dyfroedd trosiannol (aberoedd), dyfroedd arfordirol (hyd at un filltir forol) a dŵr daear.

3.26 Er mwyn bodloni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, mae aelod-wladwriaethau wedi sefydlu Ardaloedd Basn Afon ac wedi datblygu Cynlluniau a Rhaglenni o Fesurau sy'n rhoi manylion am y camau y mae angen eu cymryd o fewn pob ardal. Y nod cyffredinol yw i'r 'cyrff dŵr' ac 'ardaloedd gwarchodedig' ym mhob Ardal Basn Afon gyrraedd 'statws ecolegol da' erbyn 2015.

3.27 Dylai pob datblygiad gyfrannu at amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Gellir cyflawni hyn drwy fodloni polisïau cenedlaethol megis y rhai yn TAN 15 yn ogystal â CDLl Polisïau DM22 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol a DM23 Rheoli'r Arfordir. At hynny, bydd bodloni CDLl polisïau DM14 a DM15 hefyd yn helpu i fodloni'r amcanion mewn amgylchedd cysylltiedig â dŵr.

3.28 Mae gofyniad ar yr ALl i "ystyried y Cynllun Rheoli Basn Afon ac unrhyw ganllawiau atodol wrth arfer eu swyddogaethau" (Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003.) Mae hyn yn golygu, er enghraifft, bod rhaid i'r ALl adlewyrchu gwybodaeth y Cynllun Rheoli Basn Afon ar flaenoriaethau gwella cyrff dŵr mewn polisïau cynllunio lleol, Cynlluniau Cyflenwi Seilwaith ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio unigol. Mae'n rhaid iddynt ystyried pa gamau neu fesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheoli Basn Afon sy'n berthnasol iddyn nhw, a gweithredu'r camau angenrheidiol yn unol â hynny.



***Trwyddedau tynnu dŵr a thrwyddedau amgylcheddol***

3.29 Yn ogystal â chaniatâd cynllunio, os oes angen i chi dynnu dŵr o gorff dŵr neu ryddhau i gorff dŵr bydd angen trwydded tynnu dŵr a/neu drwydded

amgylcheddol arnoch gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003), Deddf yr Amgylchedd 1995, Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu Dŵr a'i Gronni) 2006, Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012 a Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010.

# 4. Polisïau Perthnasol

4.1 Yn ogystal â deddfwriaeth mae polisïau cenedlaethol a lleol yn cwmpasu bioamrywiaeth a geoamrywiaeth (cyfeirir atynt fel cadwraeth natur mewn polisi cenedlaethol).

## Polisi Cynllunio Cenedlaethol

4.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 7, 2014) yn amlinellu polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Fe'i ategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) a Chylchlythyron. Mae Polisi Cynllunio Cymru, y TANs a Chylchlythyrau gyda'i gilydd yn creu'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol y dylai awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru ei ystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu ac asesu ceisiadau cynllunio. Mae canllawiau ar gadwraeth natur ar gael ym Mholisi Cynllunio Cymru pennod 5 Cadwraeth a Gwella Treftadaeth Naturiol a'r Arfordir a Nodyn Cyngor Technegol 5.

4.3 Cyfrifoldeb y datblygwr yw sicrhau bod ei gynnig yn bodloni polisi a chanllawiau cyfredol. Sylwch, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei ddiweddaru'n achlysurol ac yn 2014, y rhifyn cyfredol yw Rhifyn 6.

4.4 O ran polisi, disgwylir i'r ALI hyrwyddo ymagweddau at ddatblygu sy'n creu cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth, atal colledion a gwneud iawn am y colledion hynny nad oes modd eu hosgoi. Mae'n ofynnol i'r ALI ystyried hefyd sut y gallai ddarparu ar gyfer ymateb i newid hinsawdd fel rhan o'i ymagwedd gyffredinol at fodloni amcanion bioamrywiaeth (Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 6 2014).

4.5 Mae gofynion eraill ar gyfer awdurdodau cynllunio yn cynnwys y gofyniad i geisio gwarchod coed, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetiroedd sydd â gwerth treftadaeth naturiol neu sy'n cyfrannu at gymeriad neu amwynder ardal leol arbennig. Mae'n rhaid iddynt hefyd roi sylw i arwyddocâd perthynol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol wrth ystyried y pwysau sydd i'w rhoi i fuddiannau cadwraeth natur. Mae gofynion amrywiol arnynt hefyd wrth lunio CDLlau (Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 6 2014).

## Polisïau CDLl Ceredigion

4.6 Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (2007-2022) (CDLl) yn darparu polisïau lleol ar gyfer penderfynu ceisiadau datblygu yng Ngheredigion. Mae holl ethos y CDLl wedi'i seilio ar ddatblygu cynaliadwy sy'n cynnwys dull rhagweithiol yr ALI tuag at gael amgylchedd naturiol o safon uchel. Pwysleisir hyn o fewn gweledigaeth y CDLl:

> *O Fynyddoedd Cambria i Fae Ceredigion, bydd Ceredigion yn parhau'n sir gyfoethog o ran ei golygfeydd a'i bioamrywiaeth, yn sir sy'n ymrwymo i gynnal ac i ategu harddwch ei harfordir, ei hucheldir a dyffrynnoedd ei hafonydd ac i gael budd ohonynt.*
>
> *Bydd yn gartref i rwydwaith bywiog o gymunedau brwd a dwyieithog, yn ei threfi ac yng nghefn gwlad, a bydd ei thrigolion yn mwynhau iechyd a lles da. Bydd y cymunedau hyn yn dathlu eu treftadaeth ddiwylliannol a hefyd yn dylanwadu ar newid ac yn ei goleddu er mwyn ymateb i heriau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd. Drwy gefnogi a gwella canolfannau gwasanaethau trefol a gwledig y Sir, cryfheir y gydberthynas rhyngddynt, bydd llai o angen i bobl deithio a bydd cyfleusterau lleol a chynaliadwy'n fwy hwylus ac yn fwy cadarn.*
>
> *Drwy ddatblygu a gwarchod ei hadnoddau mewn ffordd gynaliadwy, bydd Ceredigion hefyd yn cael ei chydnabod am ragoriaeth ei hamgylchedd a bydd yn darparu ac yn sicrhau tai da a phriodol ac economi cryf, amrywiol a blaengar.*

4.7 Pwysleisir hyn ymhellach ym mharagraff agoriadol Strategaeth y CDLl:

> "Y Strategaeth yw gwella cynaliadwyedd y Sir gan gynnwys diogelu a gwella amgylchedd ac adnoddau'r Sir a sicrhau drwy newid fod y Sir yn fwy gwydn yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol...."

4.8 Mae sawl polisi yn gwneud cyfraniad at ddiogelu'r amgylchedd ond y prif bolisïau ar gyfer cadwraeth natur yw:

- DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15: Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM16: Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol

## DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol

> **Polisi DM14:**
> **Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol**
>
> Caniateir datblygiad os yw'n gwarchod ac, os oes modd, yn gwella bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a chysylltedd ecolegol ar draws Ceredigion, gan gynnwys safleoedd lleol a rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth lleol.
>
> Lle y bo'n briodol i raddfa a lleoliad y datblygiad, ac os oes cyfleoedd, dylai'r datblygiad gynnwys addysg a mynediad cadwraeth natur, ar yr amod bod modd diogelu cyfanrwydd ecolegol neu ddaearegol y safle.

4.9 Nod Polisi DM14 yw helpu i gyflawni Amcanion 12, 14 a 15 y Cynllun Datblygu Lleol[11] a Chanllawiau Cenedlaethol drwy sicrhau bod safleoedd cadwraeth natur (statudol ac anstatudol) a rhywogaethau a chynefinoedd y tu allan i'r safleoedd hyn wedi'u diogelu rhag niwed ond hefyd yn cael eu gwella. Mae bioamrywiaeth yn ffurfio'r sail ar gyfer datblygu cynaliadwy a gall cynnwys bywyd gwyllt yn nyluniad a lleoliad datblygiad a hyrwyddo hyn drwy fynediad ac addysg arwain at fanteision bioamrywiaeth net, a gall helpu gyda nifer o amcanion amgylcheddol eraill yn ogystal â chreu nifer o fanteision cymdeithasol ac economaidd.

## DM15: Cadw Bioamrywiaeth Leol

**Polisi DM15:**
**Cadw Bioamrywiaeth Leol**

Bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu:

1. Pan fydd dull cam wrth gam yn cael ei fabwysiadu i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol i fioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol ar y safle ac oddi ar y safle;

2. Mae gwelliannau coridor/cerrig llamu rhywogaethau, cynefinoedd a bywyd gwyllt wedi cael eu cynnwys yn y datblygiad drwy dirlunio a dyluniad adeilad da, neu os yw'n gymwys, bydd yn digwydd oddi ar y safle;

3. Yn achos datblygiadau sy'n effeithio ar Warchodfeydd Natur Lleol, safleoedd sy'n bodloni meini prawf SoBGN a rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth, lle mae angen tra phwysig cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol am y datblygiad sy'n llawer mwy na'r colledion i fioamrywiaeth (ar ôl lliniaru), nid oedd yn rhesymol i'r datblygiad gael ei leoli mewn man arall a gellir digolledu'n rhwydd ac yn llawn am y colledion hyn o fewn yr ardal leol;

4. Os oes angen, lle mae cynlluniau rheoli yn cael eu cynhyrchu a'u cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac mae datblygiadau'n digwydd yn raddol er mwyn ystyried mesurau lliniaru a digolledu.

4.10 Nod Polisi DM15 yw bodloni Amcan 12 y CDLl a Chanllawiau Cenedlaethol drwy sicrhau bod safleoedd lleol a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth, yn ogystal â bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol cyffredinol, wedi'u gwarchod a'u gwella. Mae'r polisi hwn yn egluro sut y caiff datblygiad sy'n effeithio ar gadwraeth bioamrywiaeth leol ei drin.

[11] Dyma'r amcanion a osodwyd yng nghamau cynnar y CDLl, a'r hyn roedd Polisïau'r CDLL yn ceisio eu cyflawni.

4.11 Mae'r ymagwedd cam wrth gam hwn, gwelliannau a chynlluniau rheoli yn cael eu disgrifio ymhellach ym mharagraff 8.127, 8.130, 8.133 ac 8.135 o Gyfrol 1 o'r CDLl ac yn Adran 8 isod.

## Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur (SoBGN)

4.12 Mae Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur yn ddynodiadau lleol sy'n helpu i gadw cynefinoedd a rhywogaethau pwysig ac unigryw ar safleoedd sydd heb eu cynnwys yn nynodiadau cadwraeth Ewropeaidd neu genedlaethol megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

4.13 Gall Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur amrywio o ran maint o bwll bach neu goetir i ddarn agored o laswelltir neu weundir. Gall safleoedd fod yn llinellol hefyd megis ymylon ffyrdd neu nentydd. Maent yn cynnwys ardaloedd sy'n eiddo preifat a thir sy'n eiddo awdurdodau lleol, cynghorau plwyf, elusennau neu sefydliadau megis Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

4.14 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw safleoedd wedi'u dynodi fel Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur yng Ngheredigion. Mae'r ALl wrthi'n ystyried y broses ddynodi ar gyfer y safleoedd hyn. Mae Polisi DM15 yn cyfeirio at safleoedd sy'n bodloni meini prawf Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur. Ar hyn o bryd y meini prawf a fabwysiedir gan yr ALl yw Cyfarwyddyd Cymru Gyfan - Cyfarwyddyd Safleoedd Bywyd Gwyllt Cymru (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru) 2008). Fodd bynnag, disgwylir i feini prawf penodol i Geredigion gael eu rhyddhau gan yr ALl a phan gânt eu rhyddhau byddant yn disodli'r Cyfarwyddyd Cymru Gyfan.

4.15 Mae copi o 'Gyfarwyddyd Safleoedd Bywyd Gwyllt Cymru' ar gael ar wefan PBC. Pan fyddant wedi'u cwblhau, bydd meini prawf penodol Ceredigion ar gael ar wefan yr ALl[12]. Sylwch, bydd maen prawf 3 Polisi DM15 yn gymwys i unrhyw safleoedd sy'n bodloni meini prawf Cyfarwyddyd Cymru Gyfan ac wedi hynny meini prawf penodol Ceredigion pan fyddant ar gael.

4.16 Wrth gomisiynu/cwblhau arolygon, dylai gallu'r safle datblygu i fodloni'r meini prawf ffurfio rhan o'r asesiad ac felly'r argymhellion.

[12] www.ceredigion.gov.uk

## DM16: Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol

**Polisi DM16:**
**Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol**

Bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu pan fydd dull cam wrth gam yn cael ei fabwysiadu i gadw i'r lleiaf posibl effeithiau negyddol i brif nodweddion Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol a mynediad i safleoedd. Os yw effeithiau negyddol arwyddocaol yn parhau, ni chaiff y datblygiad ei ganiatáu os oes anghenion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol ar gyfer datblygiad sy'n fwy na'r colledion, ac ni fyddai'n rhesymol i'r datblygiad gael ei leoli mewn unrhyw le arall. Os yw'n briodol, dylid manteisio ar gyfleoedd i wella.

4.17 Nod Polisi DM16 yw bodloni Amcanion 14 a 15 y CDLl ynghyd â'r Canllawiau Cenedlaethol, drwy helpu i warchod a gwella, os oes modd, safleoedd lleol wedi'u dynodi ar sail eu geoamrywiaeth a geomorffoleg.

## Polisïau CDLl perthnasol eraill

4.18 Mae polisïau CDLl perthnasol eraill yn cynnwys:

- S01: Twf Cynaliadwy
- DM06: Dylunio a Gwneud Lleoedd o Safon Uchel
- DM10: Dylunio a Thirlunio
- DM20: Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- DM22: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol

**S01: Twf Cynaliadwy**

4.19 Mae'r polisi hwn yn pennu lefel y twf a ddisgwylir yn y sir a ble y dylid ei leoli. Mae'r polisi yn datgan 'wrth wireddu'r twf hwn, mae amgylchedd ac adnoddau'r sir yn cael eu diogelu a'u gwella'.

**DM06: Dylunio a Gwneud Lleoedd o Safon Uchel**

4.20 Mae'r polisi hwn yn gofyn i ddatblygwyr gadw nodweddion naturiol pwysig ynghyd â sicrhau'r defnydd o dirlunio caled a meddal o ansawdd da a manteisio ar gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol.

**DM10: Dylunio a Thirlunio**

4.21 Mae'r polisi hwn yn cynnwys y meini prawf canlynol:

- o Parchu, cadw ac ategu unrhyw nodweddion naturiol, tirluniau, neu nodweddion eraill cadarnhaol sydd ar y safle,
- o Adnabod y coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffigol sydd i'w cadw;
- o Darparu cyfiawnhad ar gyfer amgylchiadau lle nad oes modd osgoi symud/colli coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffigol sy'n bod, a rhoi manylion am yr hyn gaiff ei roi yn eu lle;
- o Darparu manylion am unrhyw dirlunio newydd arfaethedig ynghyd â rhaglen raddol o blannu;

- o Dangos bod unrhyw blannu newydd arfaethedig yn cynnwys planhigion a choed o rywogaethau brodorol yn bennaf o stoc leol ac nid yw'n cynnwys unrhyw rywogaethau goresgynnol estron yn y tirlunio;
- o Sicrhau bod dewis rhywogaethau a safleoedd plannu unrhyw goed yn rhoi cyfle iddynt dyfu i'w huchder aeddfed heb niwed i adeiladau, gwasanaethau a phlannu arall gerllaw.

**DM20: Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd**

4.22 Mae'r polisi hwn yn ceisio diogelu coed, gwrychoedd a choetiroedd a sicrhau bod manteision bioamrywiaeth net. Mae hefyd yn sicrhau bod rhywogaethau brodorol yn bennaf o stoc leol yn cael eu defnyddio.

**DM22: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol**

4.23 Mae'r polisi hwn yn mynnu bod datblygiad yn gwarchod a gwella lle y bo'n bosibl aer, pridd a'r amgylchedd dŵr ac yn diogelu adnoddau dŵr, ar y safle ac oddi ar y safle, yn ogystal â sicrhau nad yw'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar brosesau naturiol a gwasanaethau ecosystem, ar y safle ac oddi ar y safle, ac os oes modd mae'n ceisio adfer, sicrhau amodau ffafriol neu'n gwella nodweddion cysylltiedig.

## Canllawiau a phrosesau perthnasol eraill

**BS42020:2013 Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio a Datblygu (BSI, 2013)**

4.24 Rhaid cwblhau arolygon, asesiadau ac adroddiadau yn unol â'r Safonau Prydeinig ar gyfer Bioamrywiaeth. Mae rhai croesgyfeiriadau penodol i bwyntiau allweddol yn y Safonau yn cael eu gwneud trwy'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae hefyd yn cynnwys gofynion ar gyfer yr ALI.

**BS5837:2012 Coed mewn perthynas â Dylunio, Dymchwel ac Adeiladu (BSI, 2012)**



4.25 Yn unol â gofynion cenedlaethol, os oes unrhyw goed ar safle sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion (e.e. symud, difrodi neu gywasgu man diogelu gwreiddiau, tocio, trimio, symud yn ddiweddarach oherwydd safle mynediad/adeiladau, symud oherwydd difrod ac ati), bydd angen i dyfwr coed gynnal Arolwg Coed a rhaid darparu unrhyw ddogfennau perthnasol gyda'r cais (gweler Adran 12.5 am ragor o wybodaeth.)

**Gorchymyn Cadw Coed**

4.26 Mae nifer o goed a grwpiau o goed yn y sir wedi'u cwmpasu gan Orchymyn Cadw Coed. Gorchmynion yw'r rhain sy'n cael eu gwneud gan yr ALI i ddiogelu'r coed rhag cael eu cwympo a rhag unrhyw ddifrod a allai godi gan waith awdurdodedig drwy'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999. Fe welwch ragor o wybodaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor

Technegol (TAN) 10: Gorchmynion Cadw Coed a chewch wybod a oes coeden ar neu gyferbyn â safle'ch cais sydd wedi'i diogelu gan Orchymyn Cadw Coed gan Swyddog Cefn Gwlad yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am Orchmynion Cadw Coed a Gwrychoedd yn conservation@ceredigion.gov.uk.

4.27 Gall rhai coed mewn Ardaloedd Cadwraeth hefyd gael eu diogelu gan Orchymyn Cadw Coed a bod yn ddarostyngedig i reolaethau Gorchymyn Cadw Coed arferol. Mae deddfwriaeth gynllunio yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn Ardaloedd Cadwraeth. Mae Ardal Gadwraeth ym mhob tref a rhai o'r pentrefi mwyaf yn sir a chewch fanylion am y rhain ar wefan yr ALI[13]. Rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r ALI ar gyfer cwympo coed neu waith i goed o'r fath. Drwy wneud hyn gall yr ALI ystyried rhinweddau gwneud Gorchymyn Cadw Coed.

**Trwydded cwympo coed**



4.28 Mae'n bosib y bydd angen trwydded cwympo coed ar gyfer coed sy'n cael eu symud y tu allan i'r system gynllunio gan Gyfoeth Naturiol Cymru o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967. Mewn unrhyw gyfnod o dri mis[14] gallwch gwympo hyd at 5 metr ciwbig ar eich eiddo heb drwydded ar yr amod nad yw mwy na dau fetr ciwbig yn cael eu gwerthu. Yn fwy na hyn rhaid cael trwydded cwympo coed. Mae pob coeden 80mm neu uwch o'i mesur 150cm o'r gwaelod yn gymwys. Gweler gwefan CNC[15] i gael rhagor o wybodaeth.

**BREEAM/Cod Asesiadau Cartrefi Cynaliadwy**

4.29 Mae asesiadau BREEAM yn mynnu bod ecolegydd â chymwysterau addas yn llunio adroddiad ecoleg fel tystiolaeth ar gyfer sawl un o'r credydau o fewn y bennod 'Defnydd Tir ac Ecoleg'. Mae'r bennod 'Defnydd Tir ac Ecoleg' yn cwmpasu materion megis gwerth ecolegol y safle a gwarchod nodweddion ecolegol (LE3), lliniaru effaith ecolegol (LE4), gwella ecoleg safle (LE5) a'r effaith hirdymor ar fioamrywiaeth (LE6). Dylid cyfeirio at y llawlyfr aseswr BREEAM perthnasol (ar gael yn www.breeam.org) i gael manylion llawn am ofynion cydymffurfiaeth credyd BREEAM unigol.


4.30 Er mwyn cael asesiadau Cod Cartrefi Cynaliadwy ar gyfer Ecoleg (Pennod 9), mae'n rhaid i ddatblygwyr fodloni codau Eco 1 (gwerth ecolegol y safle), Eco 2 (gwelliant ecolegol), Eco 3 (gwarchod nodweddion ecolegol), Eco 4 (newid yng ngwerth ecolegol y safle) a/neu Eco 5 (ôl troed adeilad). Mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau hyn yn mynnu bod ecolegydd â chymwysterau addas yn ymgymryd â'r asesiad (y mae modd ei gynnal ar y cyd ag arolygon eraill).

[13] www.ceredigion.gov.uk
[14] 1 Ionawr - 31 Mawrth, 1 Ebrill - 30 Mehefin, 1 Gorffennaf - 30 Medi ac 1 Hydref - 31 Rhagfyr
[15] www.naturalresourceswales.gov.uk

4.31 Gan y bydd nifer o ddatblygiadau yn galw am ryw fath o arolwg ac asesiad ecolegol mae'n werth ystyried a all yr arolwg a'r asesiad helpu i fodloni BREEAM/Cod Cartrefi Cynaliadwy hefyd. I gael rhagor o gymorth, trafodwch â'r ALI.

**Llywodraeth Cymru - Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio**

4.32 Mae'r cynllun gweithredu yn ceisio lleihau a gwrthdroi'r dirywiad yn y boblogaeth o bryfed peillio gwyllt ac wedi'u rheoli. Mae pryfed peillio yn cynnwys gwenyn, rhai cacwn, pili palod, gloÿnnod byw a phryfed hofran, rhai chwilod a chlêr. Dylai datblygwyr a'r ALI geisio cyfrannu at y meysydd gweithredu canlynol:



- 2.1: Hyrwyddo, creu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws tir ffermio
- 2.2: Hyrwyddo, creu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws ardaloedd gwarchodedig a chefn gwlad yn gyffredinol
- 2.3: Hyrwyddo, creu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig yn ein trefi, ein dinasoedd a'n hardaloedd datblygedig

**Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion**

4.33 Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion yn nodi'r pryderon



cadwraeth lleol ar gyfer y rhywogaethau a restrir fel rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, y rhai sydd yn bwysig iawn at ddibenion cadw amrywiaeth fiolegol o dan Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, a rhywogaethau a chynefinoedd lleol o bryder i gadwraeth, e.e. Gwarchodfeydd Ymylon Ffyrdd. Dylai datblygu geisio cadw a gwella cynefinoedd a rhywogaethau o fewn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion. I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan yr ALI (www.ceredigion.gov.uk).

# 5. Bioamrywiaeth a'r broses ymgeisio

5.1 Mae Ffigur 1 yn amlinellu sut y dylid ymgorffori agweddau ecolegol yn y broses cais cynllunio. Mae cyngor pellach i'w weld yng Nghymal 2 y Safonau Prydeinig ar gyfer Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio a Datblygu (BS42020:2013) (BSI, 2013).

5.2 Gan fod arolwg ac asesiad bioamrywiaeth yn ofyniad cenedlaethol o dan y broses 1APP, bydd ceisiadau heb arolwg ac asesiad bioamrywiaeth priodol (boed yn arfarniad ecolegol cychwynnol, arolwg ystlumod ac ati) sy'n gofyn am un, neu os yw'r adroddiad a gyflwynir yn argymell arolwg pellach ac nid yw wedi'i gwblhau, **yn cael eu hannilysu yn y cam ymgeisio.** Gall y cais gael ei annilysu hefyd yn dilyn y broses o ymgynghori ag Ecolegydd Cynllunio yr ALI os oes angen gwneud gwaith arolwg pellach neu os yw'r adroddiadau a gyflwynir yn annigonol. Gweler Adran 6 **Arolwg ac Asesiad Bioamrywiaeth** am ragor o wybodaeth.

5.3 Gorau po gynted y bydd datblygwyr/tirfeddianwyr yn cysylltu â'r ALI am gyngor oherwydd rhaid integreiddio ecoleg yn y datblygiad arfaethedig o'r cychwyn cyntaf er mwyn sicrhau'r effaith leiaf a bod y cyfleoedd mwyaf wedi cael eu cymryd i wella bywyd gwyllt. Bydd hyn hefyd yn lleihau'r oedi ar gyfer ceisiadau yn ystod y broses ymgeisio.

5.4 Mae'n bwysig hefyd bod ymgeiswyr yn ceisio cyngor cyn cyflwyno cais gan gyrff perthnasol eraill (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru) i hwyluso proses y cais cynllunio. Gweler Tabl 4.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 (neu unrhyw ddiwygiad dilynol ohono) i gael rhagor o wybodaeth.

5.5 Rhaid i **bob** cais sy'n cynnwys 0.1 hectar neu ragor[16] o dir glas (tir heb ei ddatblygu o'r blaen) gael Arfarniad Ecolegol Cychwynnol (AEC) (oni bai bod trafodaethau â'r Ecolegydd Cynllunio yn dangos nad oes ei angen). Gall fod angen i geisiadau ar gyfer rhai safleoedd sy'n is na'r trothwy hwn hefyd gael AEC. Gall fod rhaid i rai safleoedd tir llwyd gael AEC yn dibynnu ar natur y safle a'r cais (gweler Adran 6).



5.6 Ar gyfer Safleoedd a Neilltuwyd, y man cyswllt cyntaf fydd gwirio Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd y CDLl o fewn y Datganiadau Grŵp Aneddiadau (Cyngor Sir Ceredigion, 2013b). Mae'r rhain yn amlinellu beth yw'r cyfyngiadau **y gwyddys amdanynt** a pha arolygon y mae'n **debygol** y bydd eu hangen. Sylwch, oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r ALl gynnal Arolygon Cynefin Cam 1 o'r Safleoedd a Neilltuwyd, bydd Arfarniad Ecolegol Cychwynnol yn ofynnol ar gyfer y safleoedd hyn, er na nodir hynny

[16] h.y. unrhyw safle dros y trothwy 'safle bach' ar gyfer ffioedd cynllunio

yn yr Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd. Gweler adran 6 Arolwg ac Asesiad Bioamrywiaeth am ragor o wybodaeth.


5.7 Yn achos Safleoedd Heb eu Neilltuo (weithiau y cyfeirir atynt fel hap-safleoedd), bydd y rhestr wirio (Tabl 3) yn yr adran 6 **Arolwg ac Asesiad Bioamrywiaeth** isod yn dangos pa arolygon y mae'n debygol o fod eu hangen.

5.8 I gael rhagor o gyngor neu os nad ydych yn siŵr pa arolygon sy'n ofynnol, cysylltwch ag Ecolegydd Cynllunio yr ALl am ymholiad cyn cais (gall ffi ychwanegol gael ei chodi yn ychwanegol at y ffi cyn cais cynllunio) a chyfarfod lle y bo angen (fel yr argymhellir gan Bolisi Cynllunio Cymru paragraff 5.5.1 a TAN 5, Adran 4.2). Gweler y Safonau Prydeinig ar gyfer Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer BS42020:2013 (Adran 6) (BSI, 2013) i gael rhagor o wybodaeth am ofynion cais.

5.9 Os oes angen arolygon pellach, naill ai wedi'u nodi drwy ddefnyddio'r Atodlen Safleoedd a Neilltuwyd, gan ddefnyddio Tabl 3 yn Arolwg ac Asesiad Bioamrywiaeth neu o argymhellion yr AEC, bydd rhaid cynnal y rhain **cyn** cyflwyno'r cais. Yn dibynnu ar y rhywogaeth/cynefin, gall amseriad arolygon gael ei gyfyngu i gyfnod penodol; gweler Adran 6 'Pryd gall arolygon gael eu cynnal?' i gael rhagor o wybodaeth. Mae rhestr o ganllawiau arfer gorau i'w gweld o fewn Ffynonellau Dulliau Arolygu (Saesneg yn unig) ar wefan CIEEM[17]. Dylai adroddiadau ddilyn egwyddorion CIEEM EcIA (Asesiad o'r Effaith Ecolegol) http://www.cieem.net/data/files/Resource_Library/Technical_Guidance_Series/EcIA_Guidelines/TGSEcIA-EcIA_Guidelines-Terestrial_Freshwater_Coastal.pdf

5.10 Mae'r ffurflen yn Atodiad A yn grynodeb o'r agweddau i'w hystyried mewn perthynas â bioamrywiaeth (a rhai amcanion amgylcheddol mwy cyffredinol) wrth gyflwyno cais cynllunio. Trafodir y rhain yn fwy manwl yn yr adrannau dilynol. Gall fod angen trafod y rhain â'ch ymgynghorydd ecolegol neu'r ALl os ydych yn ansicr. Fe'ch cynghorir i gyflwyno'r ffurflen hon gydag unrhyw gais cynllunio i ddangos os a sut y mae agweddau ecolegol wedi cael eu hystyried.

[17] www.cieem.net




**Ffigur 1: Proses Arfer Da**

# 6 Arolwg ac asesiad o fioamrywiaeth

## 6.1 Pryd mae angen arolwg ac asesiad a pha fath sydd ei angen?

6.1.1 Bydd penderfynu a oes angen arolwg a pha fath o arolwg sydd ei angen i gyd-fynd â chais cynllunio (yn ychwanegol i'r Asesiad Ecolegol Cychwynnol (AEC)) yn dibynnu ar nodweddion y safle a nodweddion y tir/ardal o gwmpas safle'r cais. Sylwch, gall fod angen arolwg mwy manwl ar gyfer rhai ceisiadau sydd heb fod yn Asesiad Ecolegol Cychwynnol eto (e.e. estyniad deiliaid tŷ a all fod angen arolwg ystlumod). Nid yw'r meini prawf yn Nhabl 3 yn disodli'r wybodaeth ecolegol arbenigol, ac felly mewn rhai achosion mae'n bosib na fydd safle yn bodloni'r meini prawf ond mae'n rhaid cael arolwg penodol o hyd. Ar y llaw arall, efallai y bydd eich safle yn bodloni'r meini prawf ond efallai na fydd angen arolwg fel y nodir.

6.1.2 I gael rhagor o gyngor neu os nad ydych yn siŵr pa arolygon sy'n ofynnol, cysylltwch â'r ALl am ymholiad cyn cais (gall ffi ychwanegol gael ei chodi yn ychwanegol at y ffi cyn cais cynllunio) a chyfarfod lle y bo angen (fel yr argymhellir gan Bolisi Cynllunio Cymru paragraff 5.5.1 a TAN 5, adran 4.2).

6.1.3 Weithiau gellir osgoi'r angen am arolygon drwy ddefnyddio arferion gorau ar gyfer dylunio a datblygu (gweler Adran 7 a 12 i gael cyngor). Mae Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) yn darparu rhestr, Ffynonellau Dulliau Arolygu (Saesneg yn unig), sy'n cynnwys rhai arferion gorau.



6.1.4 Bydd adroddiadau a gyflwynir i'r ALl yn cael eu hasesu i weld a yw'r arolwg wedi cael ei gynnal yn gymwys gan ddefnyddio methodolegau priodol, a bod yr adroddiad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys asesiad o effeithiau'r datblygiad arfaethedig a'r argymhellion, os oes angen. Hefyd, asesir a yw'r arolwg a'r adroddiad yn unol â'r Safonau Prydeinig ar gyfer Bioamrywiaeth (BS42020:2013).

6.1.5 Oni fydd yr adroddiadau'n cynnwys yr wybodaeth briodol neu oni fydd yr arolygon y maent yn ymwneud â nhw wedi eu cyflawni i'r safonau gofynnol, byddant yn cael eu dychwelyd. Gellir pennu bod ceisiadau'n annilys hyd nes daw'r wybodaeth honno i law neu o dan rai amgylchiadau cânt eu gwrthod oherwydd bod diffyg gwybodaeth (e.e. os oes angen cynal mwy o arolygon na fyddai'n bosibl eu cynnal yn syth).

6.1.6 Mae rhagor o wybodaeth ar ba gwmpas, manylion a gwybodaeth y mae angen eu cynnwys yn yr arolwg a'r asesiad i'w weld ar **Adran Error! Reference source not found.** ac mae rhagor o wybodaeth am amseriad arolygon i'w gweld yn **Adran 6.** Mae gwybodaeth fanwl ar gyfer rhywogaethau/cynefinoedd arbennig i'w gweld yn Ffynonellau Dulliau Arolygu

(Saesneg yn unig) gan CIEEM. Dylid defnyddi'r rhain oni bai y cytunir fel arall neu yr argymhellir gan Ecolegydd Cynllunio'r ALl[18].

6.1.7 Ni ddylai adroddiadau arolwg fod yn fwy na 2 thymor yn ôl ar gyfer ystlumod, bydd rhywogaethau eraill yn dibynnu ar argymhellion mewn canllawiau cyfredol ar gyfer y rhywogaeth honno (gweler 6.1.5 uchod) a'r hyn sydd wedi newid ers i'r arolwg gael ei gynnal. Gall fod angen cynnal arolygon cyn-adeiladu, hyd yn oed os yw'r arolwg wedi cael ei gwblhau yn y cam cynllunio, lle y gall rhywogaethau symud i mewn yn gyflym neu nid yw'n hawdd eu canfod, e.e. moch daear, ymlusgiaid, neu os yw cyfnod sylweddol o amser wedi mynd heibio ers cynnal yr arolwg e.e. 2 dymor i ystlumod).

6.1.8 Mae'n rhaid i ecolegwyr cymwys a phriodol gynnal yr arolygon. Mae rhestr o'r ymgynghorwyr yng Ngheredigion a'r arolygon perthnasol y nodir eu bod yn gallu eu cwblhau i'w gweld ar wefan yr ALl. Nid yw'r rhestr yn gyflawn ac nid yw'n rhestr a ffefrir. Mae nifer o ymgynghorwyr eraill cymwys, cymwysedig a thrwyddedig yn gweithio yng Ngheredigion sydd hefyd yn arolygwyr ac yn aseswyr derbyniol sydd heb roi eu manylion. Mae rhestrau gan Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) a NATUR o ecolegwyr â chymwysterau addas. Mae gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ecolegydd â chymwysterau addas ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau i'w gweld ar wefan CIEEM. Cysylltwch ag Ecolegydd Cynllunio'r ALl os nad ydych yn siŵr a yw'r ecolegydd/daearegydd/tyfwr coed yr hoffech ei ddefnyddio â chymwysterau addas.

**Arfarniad Ecolegol Cychwynnol**

6.1.9 Yn dibynnu ar natur y safle a'r math o gais, dylai Arfarniad Ecolegol Cychwynnol (AEC) gael ei gynnal sy'n cynnwys Arolwg Cynefin Cam 1 estynedig. **Bydd angen Arfarniad Ecolegol Cychwynnol ar bob cais sy'n cynnwys 0.1 hectar neu ragor[19] o safle tir glas**, oni bai bod arolwg diweddar (o fewn 2 flynedd) wedi cael ei gynnal neu mae Ecolegydd Cynllunio'r ALl wedi cytuno nad oes angen arolwg. Gall Ecolegydd Cynllunio'r ALl ofyn i safleoedd sy'n llai na hyn neu safleoedd tir llwyd ddarparu Arfarniad Ecolegol Cychwynnol ar sail profiad lleol a barn broffesiynol.



6.1.10 Bydd yr Arfarniad Ecolegol Cychwynnol yn penderfynu pa gynefin sy'n bresennol, pa nodweddion y dylid eu hosgoi, pa gamau lliniaru sydd eu hangen a phryd y mae angen digolledu. Bydd hefyd yn helpu i benderfynu a oes angen arolygon ac asesiadau ychwanegol, a pha rai sy'n ofynnol e.e. arolygon ac asesiadau rhywogaeth mwy penodol megis moch daear, dyfrgwn, ymlusgiaid ac ati, asesiadau cynefin mwy manwl, e.e.

[18] Gweler Cymal 6.3.7 o'r Safonau Prydeinig ar gyfer Bioamrywiaeth: Cod Ymarfer ar gyfer Cynllunio a Datblygu
[19] h.y. unrhyw safle dros y trothwy 'safle bach' ar gyfer ffioedd cynllunio

arolygon glaswelltir Cam 2, ac ati. Dylai hefyd amlinellu pa gyfleoedd sydd ar gyfer gwella. Sylwch, gall fod angen mwy nag un arbenigwr oherwydd meysydd arbenigol penodol. Mae rhestr o ecolegwyr y gwyddys eu bod yn gweithio yn yr ardal hon a'u meysydd arbenigol i'w gweld ar wefan yr ALI[20]

6.1.11 Mae'n rhaid i'r AEC gynnwys chwiliad bwrdd gwaith i benderfynu'r hyn y gwyddys sydd yno eisoes, ac unrhyw gofnodion hanesyddol ar y safle a'r ardal gyfagos.

6.1.12 Dylai'r data bwrdd gwaith gael ei geisio gan y Ganolfan Cofnodion Lleol (Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru) a dylai gynnwys ardal chwilio sy'n berthnasol i'r cais hwnnw. Yn achos ceisiadau deiliad tŷ a datblygiadau llai, ni fydd hyn yn debygol o fod yn fwy na 250m o ffin y safle (gan gynnwys llwybrau mynediad, ceblo ac ati). Fodd bynnag, yn achos ceisiadau mwy neu geisiadau a allai gael effaith ar rywogaeth ymhell y tu hwnt i ardal y safle (e.e. tyrbinau gwynt, treulwyr anaerobig, chwareli ac ati), bydd ardal chwilio safle mwy yn ofynnol. Dylai chwiliadau safleoedd gwarchodedig fod yn 2km (ond unwaith eto gall hyn amrywio yn ôl y cais). Rhoddir ychydig o gyngor ar hyn yn Adran 12: Mathau o Ddatblygiadau ac Astudiaethau Achos. Os ydych yn ansicr, cysylltwch ag Ecolegydd Cynllunio'r ALl i drafod.

6.1.13 Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y dylid ei gynnwys mewn Arfarniad Ecolegol Cychwynnol Cyffredinol i'w gweld ar wefan CIEEM.

**Gwaith arolwg mwy manwl**

**Rhywogaethau**

6.1.14 Os credir bod rhywogaethau a wachodir o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau



Gwledig 2006, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig a Deddf Gwarchod Moch Daear 1992 yn defnyddio safle ac y gallai datblygu effeithio arnynt, yna mae'n debygol iawn y bydd angen eu hystyried, gan gynnwys cynnal rhagor o arolygon. Mae rhai o'r llefydd sydd fwyaf perthnasol o ran datblygu yng Ngheredigion wedi eu rhestru yn Nhabl 3 gydag amrywiol gynigion i ddatblygu. Os yw'r cais yn cynnwys unrhyw un o'r cynigion datblygu a ddangosir yn **Tabl 3** (Colofn 1), neu os yw'r Arfarniad Ecolegol Cychwynnol wedi nodi ar sail yr wybodaeth o'r safle a manylion y datblygiad bod arolygon rhywogaeth pellach yn ofynnol, dylai arolwg rhywogaeth gael ei gynnal ar gyfer pob un o'r rhywogaethau a restrir yn unol â chanllawiau cyfredol (gweler 6.1.5 uchod).

[20] www.ceredigion.gov.uk

6.1.15 Nid yw rhai rhywogaethau a warchodir/â blaenoriaeth wedi'u rhestru yma oherwydd nid ydynt i'w gweld fel arfer yn ystod datblygiadau yng Ngheredigion, e.e. y wiwer goch, bele'r coed, bryoffytau. Fodd bynnag, gellir gofyn am arolwg ar gyfer y rhywogaethau hyn yn achos rhai ceisiadau mewn rhai ardaloedd.

6.1.16 Mae'r eithriadau pan na fydd angen gwneud arolwg ac asesiad rhywogaeth llawn efallai yn cynnwys:

- Yn dilyn ymgynghoriad y ceisydd yn y cam cyn cais, mae'r ALI wedi datgan yn ysgrifenedig nad oes angen unrhyw arolygon ac asesiadau rhywogaeth a warchodir/â blaenoriaeth (sylwch gall hyn newid os yw gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg neu os yw'r cynllun/dyluniad yn newid).
- Os yw'n glir nad yw unrhyw rywogaeth a warchodir/â blaenoriaeth yn bresennol, er gwaetha'r canllawiau yn y tabl uchod sy'n nodi eu bod yn debygol o fod yn bresennol, dylai'r ceisydd ddarparu tystiolaeth gyda'r cais cynllunio i ddangos bod rhywogaethau o'r fath yn absennol (e.e. gallai hyn fod ar ffurf llythyr neu adroddiad byr gan unigolyn cymwysedig a phrofiadol, neu gan sefydliad cadwraeth natur lleol perthnasol).
- Os yw'n amlwg na fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw rywogaeth a warchodir/â blaenoriaeth sy'n bresennol, mae angen cyflwyno gwybodaeth gyfyngedig yn unig. Fodd bynnag, dylai'r wybodaeth hon (i) ddangos na fydd unrhyw effaith arwyddocaol ar unrhyw rywogaeth a warchodir/â blaenoriaeth sy'n bresennol a (ii) cynnwys datganiad sy'n cydnabod bod y ceisydd yn ymwybodol ei fod yn drosedd aflonyddu neu niweidio rhywogaethau a warchodir pe baent yn cael eu canfod neu aflonyddu arnynt yn ddiweddarach.
- Gellir dangos yn glir na fydd yn andwyol i statws cadwraeth ffafriol y rhywogaethau a warchodir o dan ddeddfwriaeth Ewrop (bydd angen cytundeb ysgrifenedig gyda Chyfoeth Naturiol Cymru).

**6.1.17** Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol i geisydd ddarparu arolwg ac adroddiad rhywogaeth a warchodir ar gyfer <u>dim ond un neu ychydig</u> o'r rhywogaethau a ddangosir yn y tabl uchod, e.e. y rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio gan weithgaredd arbennig. Dylai ceiswyr egluro pa rywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a pha rai sydd heb eu cynnwys oherwydd mae eithriadau yn gymwys.

**6.1.18 Os oes angen mwy o gyngor arnoch neu os nad ydych yn siŵr beth sydd ei angen, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r ALI i wneud ymholiadau cyn cyflwyno'r cais.**

**Safleoedd**

6.1.19 Hyd yn oed os nad yw Arfarniad Ecolegol Cychwynnol wedi cael ei nodi ar gyfer y safle, os yw'r cais yn debygol o effeithio ar unrhyw un o'r safleoedd dynodedig a restrir yn **Nhabl 2**. Crynodeb o'r dynodiadau safle rhyngwladol, cenedlaethol a lleol., rhaid cynnwys asesiad sy'n dangos a fydd y safle datblygu yn effeithio ar y safle/safleoedd dynodedig mewn adroddiad Arolwg ac Asesiad Bioamrywiaeth sy'n rhaid ei gyflwyno gyda'r cais. Os yw

Arfarniad Ecolegol Cychwynnol yn cael ei gwblhau yna gellid cynnal yr asesiad hwn o fewn yr adroddiad hwn. Er mwyn cynnal yr asesiad hwn, mae'n bosib y bydd angen cynnal arolygon amrywiol neu gyflwyno gwybodaeth bellach, e.e. Datganiad Atal Llygredd.

6.1.20 Yna mae'n bosib y bydd rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal Prawf o'r Effaith Arwyddocaol Debygol i weld a yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar Safle Rhyngwladol. Gall hyn ysgogi Asesiad Priodol o dan Reoliad 61 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, a all ei gwneud hi'n ofynnol i'r ceisydd ddarparu rhagor o wybodaeth. Am rhagor o wybodaeth gweler Adran 10.



6.1.21 Mae'r eithriadau pan na fydd angen arolwg ac asesiad llawn yn cynnwys:

- Safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol: Ni fydd arolwg ac adroddiad yn ofynnol os yw'r ceisydd yn gallu darparu copïau o ohebiaeth cyn cais gyda CNC, ac mae CNC yn cadarnhau yn ysgrifenedig ei fod yn fodlon na fydd y datganiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw safleoedd statudol wedi'u dynodi ar sail eu pwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol.
- Safleoedd lleol: Ni fydd arolwg ac adroddiad yn ofynnol os yw'r ceisydd yn gallu darparu copïau o ohebiaeth cyn cais gydag Ecolegydd Cynllunio'r ALl (os yw wedi'i gyflogi), neu'r ymgynghorydd ecolegol a/neu'r grŵp RIGS lleol, eu bod yn fodlon na fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw safleoedd lleol wedi'u dynodi ar sail eu pwysigrwydd cadwraeth natur lleol.

**Cynefinoedd a geoamrywiaeth**

6.1.22 Hyd yn oed os nad oes Arfarniad Ecolegol Cychwynnol wedi ei sbarduno ar gyfer y safle, os yw'r cais yn debygol o effeithio (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) ar unrhyw gynefinoedd sydd â blaenoriaeth neu gynefinoedd â nodweddion sy’n ymwneud â bioamrywiaeth a restrir o dan Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig, neu nodweddion daearegol a restrir yn Tabl 5, bydd angen cyflwyno arolwg ac asesiad ar gyfer y nodwedd berthnasol gyda'r cais (**Arolwg ac Asesiad Cynefin/Daearegol**). Os yw Arfarniad Ecolegol Cychwynnol yn cael ei gwblhau yna gellid gwneud yr asesiad hwn o fewn yr adroddiad hwn. Er mwyn cynnal yr asesiad hwn, mae'n bosib y bydd angen cynnal arolygon amrywiol e.e. Arolygon Cynefin Cam 2 neu gyflwyno gwybodaeth bellach. Os nad yw’r datblygiad yn debygol o effeithio ar gynefin/nodwedd ddaearegol yn uniongyrchol, dylid ystyried a allai’r datblygiad effeithio ar y nodweddion hynny’n anuniongyrchol trwy beri newidiadau i lefelau trwythiad, llwch, llygredd ac ati.

6.1.23 Lle bo’n gymwys, os yw’r datblygiad yn mynd i arwain at golli/andwyo neu lygru cynefin sy’n cynnal rhywogaethau o adar gwyllt ac y gallai hynny effeithio ar yr amcan sydd i gadw, cynnal ac ailsefydlu amrywiaeth ddigonol a lle ar gyfer cynefinoedd adar gwyllt, efallai y bydd angen cynnal rhagor o arolygon yn unol â Rheoliad 9(A) Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y’i diwygiwyd).

**Rhywogaethau goresgynnol estron**

6.1.24 Dylai pob Arfarniad Ecolegol Cychwynnol nodi unrhyw glystyrau[21] neu dystiolaeth o rywogaethau goresgynnol estron ynghyd ag argymhellion i’w rheoli/eu symud a’u gwaredu.

6.1.25 Dylai pob gwaith adeiladu gynnwys asesiad o’r risg i fioamrywiaeth sy’n ystyried;

- y risg y gallai unrhyw rywogaethau neu afiechydon goresgynnol estron ymsefydlu ar safle, nail ai’n ddamweiniol trwy eu gwasgaru’n ddarnau mân ar beiriannau, planhigion ac ati neu’n fwriadol wrth wneud gwaith tirweddu; and
- y risg o ledaenu rhywogaethau goresgynnol estron ar safle.

**Prosesau Naturiol a Phrosesau Eraill a Gwasanaethau Ecosystem**

6.1.26 Dylid nodi a oes prosesau, rhai naturiol neu fel arall, yn dylanwadu ar fioamrywiaeth yn y parth dylanwad, a lle mae unrhyw gynefin/rywogaeth arbennig yn debygol o fod â rôl gwasanaeth[22] ecosystem ehangach. Os yw'n bosibl, yn enwedig lle mae mapiau o’r gwasanaeth ecosystem ar gael, dylid asesu effaith colli'r cynefin/rhywogaeth ar y gwasanaeth ecosystem lleol ac ehangach.



[21] Twf planhigyn mewn ardal arbennig

[22] Gwasanaethau ecosystem yw'r rolau gwahanol a chwaraeir gan grŵp o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n rhoi budd i'n hamgylchedd ehangach o bersbectif dynolryw, e.e. *darparu*, megis cynhyrchu bwyd a dŵr; *rheoleiddio*, megis rheoli hinsawdd a chlefydau; *cefnogi*, megis cylchau maeth a pheillio cnydau; a *diwylliannol*, megis manteision ysbrydol ac adloniadol

## Tabl 3. Y gofyniad lleol ar gyfer rhywogaethau a warchodir ac â blaenoriaeth pan fydd arolwg ac asesiad yn ofynnol

| **Cynigion ar gyfer datblygu a fydd angen arolwg rhywogaeth a warchodir** | **Rhywogaethau sy'n debygol o gael eu heffeithio ac y bydd angen arolwg ar eu cyfer** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ystlumod** | **Tylluanod Gwynion** | **Dyfrgwn** | **Pathewod** | **Llygod y dŵr** | **Moch daear** | **Ymlusgiaid** | **Amffibiaid** | **Planhigion** | **Adar Bridio** | **Anifeiliaid di-asgwrn-cefn** |
| Datblygiad arfaethedig sy'n cynnwys newid, addasu, dymchwel neu symud adeiladau ac adeileddau (yn enwedig gwagle mewn toeon) yn cynnwys y canlynol: | ● | | | | | | | | | ● | |
| unrhyw adeiladau gyda tho llechi, talcen, cladin gwlyb, planhigion dringo trwchus, teils hongian a chroglofftydd, soffitiau heb eu selio, yn enwedig dymchweliadau a newidiadau sy'n effeithio ar y to (e.e. estyniadau tai, addasu'r atig, ail-doi, estyniadau hyd at/yn agos at y soffitiau ac ati); | ● | | | | | | | | | ● | |
| adeiladau traddodiadol megis eglwysi, capeli ac ati; | ● | | | | | | | | | ● | |
| pob adeilad amaethyddol (e.e. ffermdai ac ysguboriau) yn enwedig rhai bric neu gerrig traddodiadol a/neu gyda thrawstiau pren agored sy'n fwy na 20cm o drwch; | ● | ● | | | | | | | | ● | |
| adeiladau cyn-1914 gyda 400m o goetir a/neu ddŵr; | ● | | | | | | | | | ● | |
| pob twnnel, mwynglawdd, odyn, cwt rhew, ceuffordd, amddiffynfa filwrol, lloches cyrch awyr, selar a dwythell ac adeiledd dan ddaear tebyg; neu | ● | | | | | | | | | ● | |
| pob adeiledd pont, traphont ddŵr a thraffont ffordd (yn enwedig dros dŵr a thir gwlyb) | ● | | ● | | ● | | | | | ● | |
| Rhai cynigion o fewn 200m o goetir (yn dibynnu ar y cynnig) | ● | | | | | | | | | ● | |
| Cynigion sy'n cynnwys goleuo eglwysi ac adeiladau rhestredig neu lifoleuo mannau gwyrdd o fewn 50m o goetir, dŵr, gwrychoedd caeau neu linellau o goed gyda chysylltedd amlwg â choetir neu ddŵr neu bosibilrwydd canolig i uchel o fod yn fan clwydo. | ● | ● | ● | | | | | | | ● | |

| **Cynigion ar gyfer datblygu a fydd angen arolwg rhywogaeth a warchodir** | **Rhywogaethau sy'n debygol o gael eu heffeithio ac y bydd angen arolwg ar eu cyfer** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ystlumod** | **Tylluanod Gwynion** | **Dyfrgwn** | **Pathewod** | **Llygod y dŵr** | **Moch daear** | **Ymlusgiaid** | **Amffibiaid** | **Planhigion** | **Adar Bridio** | **Anifeiliaid di-asgwrn-cefn** |
| Cynigion sy'n effeithio ar goetir, neu wrychoedd caeau/cloddiau, neu waliau cerrig ac ati a/neu linellau o goed, yn enwedig y rhai â chysylltedd amlwg â choetir neu gyrff dŵr a'r rhai sy'n wynebu'r de (yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin). | ● | | | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | |
| Gwaith coed arfaethedig (cwympo neu docio) a/neu ddatblygiad sy'n effeithio ar | | | | | | | | | | | |
| ▪ hen goed a choed hynafol sy'n hŷn na 100 oed; | ● | | | | | | | | ● | ● | |
| ▪ coed gyda thyllau, craciau neu geudodau amlwg, rhisgl sy'n fflawio, rhwygiadau a/neu holltau agored | ● | | | | | | | | ● | ● | |
| ▪ coed â chwmpas sy'n fwy na 1m ar uchder brest; | ● | | | | | | | | ● | ● | |
| **Bydd rhaid i unrhyw waith/ddatblygiad sy'n effeithio ar goed neu a allai effeithio ar eu gwreiddiau gael arolwg coedyddiaeth hyd at safonau BS5837:2012** | | | | | | | | | | | |
| Cynigion ar gyfer tyrbinau gwynt, sengl a lluosog, araeau ffotofoltäig a chynlluniau dŵr (gweler canllawiau ar wahân sydd ar gael ar wefan yr ALI) | | | | | | | | | | | |
| Cynigion sy'n effeithio ar byllau gro neu chwareli a wynebau clogwyn naturiol a brigiadau creigiau gyda holltau, ogofâu neu lyndyllau | ● | | | | | | ● | ● | | ● | |
| Rhai cynigion sy'n effeithio ar neu sydd o fewn 200m o afonydd, nentydd, camlesi, llynnoedd, pyllau, glaswelltir corsiog neu gynefinoedd dyfrol eraill (yn dibynnu ar y cynnig) | ● | | ● | | ● | | ● | ● | ● | ● | ● |
| Cynigion sy'n effeithio ar dir 'diffaith' (safleoedd tir llwyd), rhandiroedd a thir rheilffyrdd. | | | | | | ● | ● | ● | ● | ● | |

| **Cynigion ar gyfer datblygu a fydd angen arolwg rhywogaeth a warchodir** | **Rhywogaethau sy'n debygol o gael eu heffeithio ac y bydd angen arolwg ar eu cyfer** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ystlumod** | **Tylluanod Gwynion** | **Dyfrgwn** | **Pathewod** | **Llygod y dŵr** | **Moch daear** | **Ymlusgiaid** | **Amffibiaid** | **Planhigion** | **Adar Bridio** | **Anifeiliaid di-asgwrn-cefn** |
| Cynigion sy'n effeithio ar laswelltir neu brysgdir sydd wedi gordyfu neu rywogaeth-gyfoethog | ● | | | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Datblygiad arfaethedig sy'n effeithio ar unrhyw adeiladau, adeileddau, nodweddion neu leoliadau lle y gwyddys bod rhywogaeth a warchodir/â blaenoriaeth yn bresennol* | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| * Cadarnhawyd ei bod yn bresennol gan naill ai chwiliad data drwy'r Ganolfan Cofnodion Lleol neu drwy'r datblygwr yn cael ei hysbysu gan yr ALI, a/neu gan CNC neu sefydliad cadwraeth natur arall. | **Ystlumod** | **Tylluanod Gwyn** | **Dyfrgwn** | **Pathew** | **Llygoden y dŵr** | **Mochyn daear** | **Ymlusgiaid** | **Amffibiaid** | **Planhigion** | **Adar Bridio** | **Anifeiliaid di-asgwrn-cefn** |

**Tabl 4. Y gofynion lleol ar gyfer cynefinoedd â blaenoriaeth y mae arolwg ac asesiad yn ofynnol ar eu cyfer**

| CYNEFIN |
|---|
| **CYNEFINOEDD Â BLAENORIAETH (Cynefinoedd sy'n Bwysig Iawn ar gyfer Bioamrywiaeth o dan Adran 42 o'r Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006)** |
| **Daearol**<br>▪ Gwrychoedd hynafol a/neu rywogaeth-gyfoethog<br>▪ Ymylon caeau âr<br>▪ Tir pori corslyd ar forfa arfordirol a gorlifdir<br>▪ Gro arfordirol gyda llystyfiant a thywod ar y glannau<br>▪ Glaswelltir asidaidd sych yr iseldir<br>▪ Ffen yr iseldir<br>▪ Gweundir yr iseldir<br>▪ Gweirgloddiau yr iseldir (e.e. gweirgloddiau blodau rhywogaeth-gyfoethog)<br>▪ Coedwig gollddail gymysg ar dir isel (coetir hynafol)<br>▪ Cyforgors ar dir isel<br>▪ Porfa goediog ar dir isel<br>▪ Clogwyni a llethrau arforol<br>▪ Porfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd<br>▪ Gwelyau cyrs<br>▪ Twyni tywod<br>▪ Dŵr llonydd agored a chamlesi (e.e. llynnoedd, cronfeydd dŵr, pyllau, dyfroedd a gyflenwir gan ddyfrhaen ac sy'n arddangos amrywiadau yn lefel y dŵr)<br>▪ Afonydd a nentydd (e.e. nentydd sialc)<br>▪ Gorgors yr ucheldir<br>▪ Ffen, cors a chors siglennaidd ar dir uchel<br>▪ Gweundir yr ucheldir<br>▪ Coedwig ar dir uchel (e.e. coedwigoedd ynn, derw a bedwen cymysg)<br>▪ Coedwig wlyb<br><br>**Morol**<br>▪ Gwelyau o fisglod glas<br>▪ Morfa heli<br>▪ Cymunedau ar glogfeini yn y gylchfa rhyng-lanw<br>▪ Eangderau llaid ar y gylchfa rhyng-lanw<br>▪ Amlygiadau o fawn a chlai<br>▪ Riffiau *Sabellaria alveolata*<br>▪ Graean a thywod is-lanw<br>▪ Gwaddodion lleidiog cymysg is-lanw |

| |
|---|
| ▪ Sianelau sy'n cael eu 'sgubo gan y llanw |
| **NODWEDDION CYNEFINOEDD ERAILL** |
| ▪ Coedwig Eilaidd a Choed Aeddfed/Hynafol<br>▪ Ogofâu a thwnneli a mwyngloddiau nas defnyddir (e.e. clwydfannau i ystlumod)<br>▪ Coed a phrysgwydd a ddefnyddir gan adar bridio i nythu/anifeiliaid di-asgwrn-cefn<br>▪ Tir wedi'i ddatblygu'n flaenorol o ddiddordeb i fioamrywiaeth<br>▪ Man gwyrdd trefol (e.e. parciau, rhandiroedd, ymylon ffordd blodau-gyfoethog ac argloddiau rheilffordd)<br>▪ Ffosydd (e.e. addas ar gyfer llygod y dŵr)<br>▪ Gwrychoedd sydd heb fod yn gymwys i fod yn rhywogaeth-gyfoethog/hynafol a nodweddion llinellog eraill sy'n ffurfio (naill ai'n rhannol neu'n gyfan) cysylltiadau pwysig â'r cynefinoedd a restrir uchod<br>▪ Cynefinoedd a ddisgrifir o dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion sydd heb eu cynnwys uchod (e.e. gwarchodfeydd ymylon ffordd) |
| ***Eithriadau pan na fydd angen Arolwg ac Asesiad Llawn o bosibl***<br><br>Ni fydd arolwg ac adroddiad yn ofynnol os yw'r ceisydd yn gallu darparu copïau o ohebiaeth cyn cais ag Ecolegydd Cynllunio'r ALI, neu'r ymgynghorydd ecolegol a/neu'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt leol yn dangos eu bod yn fodlon na fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw safleoedd rhanbarthol neu leol wedi'u dynodi ar sail eu pwysigrwydd cadwraeth natur lleol neu unrhyw gynefinoedd â blaenoriaeth neu nodweddion rhestredig eraill. |

**Tabl 5. Y gofynion lleol ar gyfer nodweddion geoamrywiaeth y mae arolwg ac asesiad yn ofynnol ar eu cyfer**

| **NODWEDDION CADWRAETH DAEAREGOL<br>(yn seiliedig ar Ddosbarthiad Cadwraeth Gwyddorau'r Ddaear)** | |
|---|---|
| **Safleoedd Agored neu Helaeth** | Chwareli a phyllau gweithredol<br>Chwareli a phyllau nas defnyddir<br>Clogwyni arfordirol a'r blaendraeth<br>Adrannau o afonydd a nentydd<br>Brigiadau mewndirol<br>Mwyngloddiau a thwnneli dan ddaear agored<br>Nodwedd gladdedig helaeth<br>Toriadau ffyrdd, rheilffyrdd a chamlesi |
| **Cyfanrwydd y Safle** | Statig (ffosil) geomorffolegol<br>Proses weithredol geomorffolegol<br>Ogofâu<br>Carst |

| | |
|---|---|
| **Safle Cyfyngedig** | Mwynau, ffosil neu ddaearegol arall cyfyngedig<br>Tomenni mwyngloddiau<br>Mwyngloddiau a thwnneli dan ddaear cyfyngedig<br>Nodwedd gladdedig gyfyngedig |

***Eithriadau pan na fydd angen Arolwg ac Asesiad Llawn o bosibl***

Ni fydd angen arolwg ac adroddiad os yw'r ceisydd yn gallu darparu copïau o ohebiaeth cyn cais ag arbenigwyr daearegol lleol priodol (megis y Grŵp RIGS Lleol) sy'n dangos eu bod yn fodlon na fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw nodweddion daearegol o bwysigrwydd i gadwraeth natur yn lleol.

## 6.2 Beth mae'r gwahanol arolygon yn ei olygu?

6.2.1 Mae Tabl 6 isod yn crynhoi'r hyn y mae pob un o'r arolygon rhywogaethau a chynefinoedd mwyaf cyffredin yn ei olygu.

### Tabl 6. Crynodeb byr o'r hyn y mae pob arolwg yn ei olygu

| | |
|---|---|
| **Arolygon cynefin** | |
| **Cod Cartrefi Cynaliadwy/Asesiad Ecolegol BREEAM** | Yr asesiad cynefin mwyaf sylfaenol o safle; asesiad o ddiddordeb rhywogaeth a warchodir sylfaenol. |
| **Arolwg Cynefin Cam 1 Estynedig** | Asesiad a mapio cynefin cyffredinol, pennu diddordeb rhywogaeth a warchodir, data astudio desg ecolegol. Dylai gynnwys map chodau lliw gyda Nodiadau Targed ar gyfer nodweddion pwysig ac awgrymu arolygon pellach. |
| **Arfarniad Ecolegol Cychwynnol (AEC)** | Mae'n cynnwys Arolwg Cynefin Cam 1 Estynedig gydag asesiad a gwerthusiad mwy trylwyr[23]. |
| **Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol** | Ymchwiliad botanegol manwl o gyfansoddiad cynefin penodol drwy ddefnyddio cwadratau. |
| **Arolwg Coedyddiaeth** | Asesiad o'r rhywogaeth, uchder, diamedr uchder brest a chyflwr coed ar y safle a sefydlu dewisiadau gwarchod, man gwarchod gwreiddiau, cysgodi ac ati yn unol â BS5837:2012[24] |
| **Arolwg Gwrychoedd** | Arolwg i bennu presenoldeb gwrychoedd rhywogaeth-gyfoethog a hynafol yn unol â Llawlyfr Arolwg Gwrychoedd a Rheoliadau Gwrychoedd 1997. |
| **Rhywogaethau** | |
| **Anifeiliaid di-asgwrn-cefn daearol** | Penderfynu a oes diddordeb anifeiliaid di-asgwrn-cefn daearol pwysig ar y safle drwy ddefnyddio amryw o dechnegau a labordy ID. |
| **Anifeiliaid di-asgwrn-cefn dyfrol** | Penderfynu ansawdd dŵr biolegol os yw'r safle yn gyfagos i gynefinoedd nant neu afon neu'n cynnwys pyllau. |
| **Arolwg moch daear** | Penderfynu a yw setiau moch daear wedi'u lleoli ar y safle neu o fewn 30m o'r safle ac a yw'r safle yn cael ei ddefnyddio ar gyfer fforio, geudai ac ati. |
| **Arolwg dyfrgwn** | Ar gyfer safleoedd sydd naill ai’n ffinio â chyrsiau dŵr, nentydd neu byllau bach neu’n eu hymgorffori. Dylid canfod pa ddefnydd o'r safle a wneir gan ddyfrgwn ar gyfer symud, bridio a gorffwys. |
| **Arolwg llygod y dŵr** | Ar gyfer safleoedd lle mae cwrs dŵr yn bresennol |

[23] Canllawiau ar gyfer Arfarniad Ecolegol Cychwynnol (CIEEM, 2013)
[24] Safonau Prydeinig ar gyfer Coed mewn perthynas â Dylunio, Dymchwel ac Adeiladu BS5837:2012 (BSI, 2012)

| | |
|---|---|
| | neu rwydwaith o byllau a ffosydd gwlyb wrth ymyl sy'n gysylltiedig â'r safle, yn enwedig ger glaswelltir corsiog. Penderfynu a yw llygod y dŵr yn bresennol a'r defnydd presennol o'r safle. |
| **Arolwg ystlumod** | Gall unrhyw goed lled-aeddfed ac aeddfed a'r rhan fwyaf o adeiladau ddarparu nodweddion clwydo a dylid eu hasesu. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau yn ystod y dydd ac yn y rhan fwyaf o achosion bydd hefyd yn cynnwys un neu ragor o arolygon gweithgareddau (arolwg gwawr ac/neu fachlud). Gall symud coridorau allweddol neu ychwanegu nodweddion a allai arwain at wrthdrawiad/baratrawma[25] hefyd arwain at yr angen am arolygon o weithgareddau (croeslwybrau, golygfannau ac ati). |
| **Arolwg pathewod** | Ar gyfer safleoedd sy'n ffinio ar ardaloedd mawr o goetir, prysgdir neu sydd â gwrychoedd hynafol/aeddfed. Penderfynu a yw pathewod yn bresennol. |
| **Arolwg adar** | Penderfynu ynghylch gweithgareddau nythu, a oes rhywogaethau adar Atodlen 1 yn bresennol, a oes heidiau o adar sy'n gaeafu ac/neu lwybrau mudo. Gallai gynnwys croeslwybrau, golygfannau ac/neu chwilio am nythod. |
| **Arolwg ymlusgiaid** | Safleoedd lle mae cynefin a chysylltedd addas e.e. rheilffyrdd, nentydd, rhandiroedd, glaswelltir, cloddiau, prysgdir, pentyrrau o bren, rwbel, tomenni compost a thail. Penderfynu presenoldeb a phoblogaeth. |
| **Arolwg planhigion is** | Arolwg arbenigol ar gyfer mwsoglau, bryoffytau, cennau a ffyngau. |

6.3 Pryd gall arolygon gael eu cynnal?

6.3.1 Mae Tabl 7 isod yn dangos y tymhorau arolwg ecolegol ar gyfer y rhywogaethau a chynefinoedd amrywiol.

### Tabl 7. Tymhorau'r arolygon ecolegol

Allwedd: Amser Arolwg Optimaidd
Ymestyn i

| | ION | CHWE | MAW | EBR | MAI | MEH | GOR | AWST | MEDI | HYD | TACH | RHAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amffibiaid | | | | | | | | | | | | |

25 Gall niwed corfforol i feinweoedd y corff wedi'i achosi gan wahaniaeth mewn pwysau rhwng lle nwy mewnol ddigwydd pan fydd ystlumod yn hedfan yn agos at dyrbinau gwynt.

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Moch daear | | | | | | | | | | | | |
| Ystlumod (Clwydfannau gaeafgysgu) | | | | | | | | | | | | |
| Ystlumod (Clwydfannau haf) | | | | | | | | | | | | |
| Ystlumod (Fforio/Cymudo) | | | | | | | | | | | | |
| Adar (Bridio) | | | | | | | | | | | | |
| Adar (Gaeafu) | | | | | | | | | | | | |
| Pathewod | | | | | | | | | | | | |
| Anifeiliaid di-asgwrn-cefn | | | | | | | | | | | | |
| Dyfrgwn | | | | | | | | | | | | |
| Ymlusgiaid | | | | | | | | | | | | |
| Llygod y Dŵr | | | | | | | | | | | | |
| Cynefinoedd/Llystyfiant | | | | | | | | | | | | |

6.3.2 Ar gyfer rhai rhywogaethau a chynefinoedd gall arolygon gael eu cynnal unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond ar gyfer rhywogaethau eraill, mae angen eu cynnal ar adegau arbennig o'r flwyddyn er mwyn rhoi'r canlyniadau mwyaf dibynadwy, fel y dangosir yn Tabl 7.

6.3.3 Gall fod angen ystyried amserau mwy penodol os yw'r arolwg ar gyfer rhywogaeth benodol, er enghraifft, mae britheg y gors llawndwf ar yr aden o fis Mai i fis Gorffennaf a'r amser gorau i arolygu gweoedd (gweoedd sidan wedi'u gwehyddu gan y larfae/lindys) yw mis Awst i fis Medi pan fyddant yn fwyaf amlwg.



6.3.4 Gall arolygon sy'n cael eu cynnal y tu allan i'r amserau optimaidd (Tabl 7) fod yn annibynadwy. Ar gyfer rhai rhywogaethau nid yw arolygon yn ystod y gaeaf yn debygol o gynhyrchu unrhyw wybodaeth ddefnyddiol. Yn yr un modd ni ddylai canlyniadau negyddol a geir y tu allan i'r cyfnod optimaidd gael eu dehongli fel absenoldeb rhywogaeth a gall fod angen gwneud gwaith arolwg pellach yn ystod y tymor arolwg optimaidd. Mae hyn yn enwedig o bwysig os yw arolygon a chofnodion presennol yn dangos bod y rhywogaeth wedi cael ei chanfod ar y safle o'r blaen neu yn yr ardal gyfagos.  Mae'n bosib na fydd cais yn ddilys nes bod gwybodaeth arolwg wedi'i chasglu o adeg o'r flwyddyn optimaidd.

6.3.5 Yn achos ystlumod, gall fod modd comisiynu arolwg cwmpasu y tu allan i'r amser optimaidd i sefydlu'r defnydd tebygol gan ystlumod. Fe'ch cynghorir i gomisiynu'r math hwn o arolwg dim ond os oes rheswm gan y

ceisydd/Ecolegydd Cynllunio yr ALI/CNC dros gredu bod clwydfan ystlumod yn annhebygol o fod yn bresennol oherwydd adeiledd, defnydd a/neu leoliad yr adeilad dan sylw. Os yw arolwg cwmpasu yn canfod tystiolaeth o ddefnydd gan ystlumod neu'r posibilrwydd ar gyfer defnydd, bydd angen cynnal arolygon pellach yn ystod y tymor pan fydd ystlumod yn actif fel y dangosir yn Nhabl 7.

6.3.6 Mae arolygon rhywogaeth a chynefin hefyd yn dibynnu llawer ar y tywydd felly efallai y bydd angen oedi neu gynnal mwy nag un arolwg os nad yw'r tywydd yn addas, e.e. nid yw glaw trwm yn dda ar gyfer arolygu dyfrgwn oherwydd mae'n golchi eu baw i ffwrdd, a gallai tywydd oerach a/neu sychach oedi'r tymor twf gan effeithio ar adeg cynnal arolygon llystyfiant. Yn yr un modd, mae'n bosib na fydd arolygon ystlumod sy'n cael eu cynnal ar ddiwrnodau gwlyb, oer neu wyntog yn cynhyrchu canlyniadau cywir, ac yn debygol o golli ystlumod yn gyfan gwbl.

6.3.7 Nid yw’r ffaith nad oes tystiolaeth o rywogaeth o reidrwydd yn golygu nad yw'r rhywogaeth yno, neu fod ei chynefin heb ei warchod (e.e. mae clwydfan ystlumod wedi'i gwarchod os yw ystlumod yn bresennol neu beidio).

6.3.8 Efallai y bydd gwybodaeth a chofnodion defnyddiol gan y Ganolfan Cofnodion Lleol ar gyfer y safle a'r ardal gyfagos. Ar gyfer Ceredigion cysylltwch â Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.[26]

6.3.9 Dylai ecolegwyr cymwys gwblhau unrhyw arolygon ac asesiadau. Os yw arolygon yn cynnwys aflonyddu, dal neu drin rhywogaeth a warchodir, dim ond unigolyn trwyddedig sy'n gallu cynnal arolygon o'r fath (trwyddedau wedi'u cyhoeddi gan CNC). Wrth hurio ymgynghorydd, gwnewch yn siŵr eich bod yn cael unrhyw rifau trwydded perthnasol. Dylai arolygon ddilyn methodolegau cenedlaethol neu leol cyhoeddedig. Mae gwybodaeth fanwl ar gyfer rhywogaethau/cynefinoedd arbennig i'w gweld yn Ffynonellau Dulliau Arolygu (Saesneg yn unig) gan CIEEM. Mae Competencies ar gyfer rhai arolygon rhywogaeth penodol hefyd wedi'u darparu gan CIEEM. Cysylltwch ag Ecolegydd Cynllunio'r ALI os nad ydych yn siŵr a yw'r ecolegydd/daearegydd/tyfwr coed yr hoffech ei ddefnyddio yn addas.

6.3.10 Efallai y byddai angen cynnal arolwg cyn dechrau adeiladu pe bai’n debygol bod rhywogaeth dod i’r safle ers yr arolwg gwreiddiol neu er mwyn i waith gael ei wneud ar adeg neilltuol o’r flwyddyn. Er enghraifft, mynd at i chwilio cyn adeiladu am foch daear rhag ofn eu bod wedi creu setiau ers i’r arolwg gael ei gynnal neu arolygon o adar sy’n bridio mewn adeiladau sydd ar fin cael eu dymchwel.

[26] Canolfan Fusnes Landsker, Llwynybrain, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin, SA34 0NG Ffôn/ffacs: 01994 241468 gwefan: www.biodiversitywales.org.uk

## 6.4 Pa gwmpas, manylion a gwybodaeth y dylid eu cynnwys yn yr arolwg a'r asesiad?

6.4.1 Yn unol â BS42020:2013 (Cymal 6), rhaid i bob adroddiad a gyflwynir i'r ALI gynnwys gwybodaeth ddigonol. Felly, bydd adroddiadau a dderbynnir gan yr ALI yn cael eu hasesu i weld a yw'r arolwg wedi cael ei gynnal yn gywir ac a yw'r adroddiad yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen, gan gynnwys asesiad.

6.4.2 Dylai'r holl adroddiadau gynnwys crynodeb o wybodaeth ecolegol o'r Ganolfan Cofnodion Lleol. Gall data'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Lleol gael ei ddefnyddio i ategu data'r Ganolfan Cofnodion Lleol ond nid yw'n ddewis arall. Dylai pob adroddiad sy'n cynnwys data sensitif[27] gael ei farcio fel un cyfrinachol neu dylid darparu'r wybodaeth hon mewn atodiad cyfrinachol.

6.4.3 Dylai pob arolwg gael ei gynnal a'i baratoi gan unigolion cymwys sydd â chymwysterau a phrofiad addas a rhaid iddynt gael eu cynnal ar adeg a mis priodol o'r flwyddyn, mewn tywydd addas a chan ddefnyddio canllawiau/dulliau arolwg cydnabyddedig os ydynt ar gael (gweler Ffynonellau Dulliau Arolygu (Saesneg yn unig), CIEEM). Dylai'r arolwg gael ei seilio ar ganlyniadau chwiliad ar gyfer data ecolegol neu ddaearegol gan Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru [28].

6.4.4 Mae rhagor o wybodaeth am amserau'r arolygon i'w gweld yn **Adran** 6 ac mae rhagor o wybodaeth am amserau mudo i'w weld yn Adran 7.

6.4.5 Dylai'r holl argymhellion y mae angen eu cyflawni cyn y cais cynllunio gael eu cwblhau a dylai'r holl wybodaeth berthnasol gael ei chynnwys yn y cais.

6.4.6 **Dylai'r holl argymhellion sy'n ymwneud â lliniaru yn yr adroddiadau hyn gael eu cynnwys yng nghynlluniau'r cynnig os ydynt yn ymwneud â dyluniad, cynllun ac ati (ac felly fel rheol byddent yn cael eu rhoi ar y cynlluniau) oni bai y cytunir â'r Swyddog Rheoli Datblygu nad oes angen gwneud hyn.**

6.4.7 Bydd argymhellion eraill (megis trwyddedu ar gyfer rhywogaeth a warchodir, cytundebau rheoli ac ati) wedi'u cwmpasu gan amodau gwybodaeth yn dibynnu ar y cyd-destun. Mewn rhai achosion, gall fod angen cytundebau Adran 106 os nad yw'r amodau yn addas. Yn dibynnu ar y safle a'i nodweddion, gall cyfraniadau ariannol fod yn ofynnol.

6.4.8 Os oes gwybodaeth yn ymwneud â nythod/clwydfannau/setiau rhywogaethau cymwys, dylid cynnwys yr wybodaeth honno mewn adroddiadau ar ffurf anecs cyfrinachol neilltuol.

[27] Mae data sensitif yn cynnwys rhywogaethau a warchodir a allai fod yn agored i botsian anghyfreithlon neu a allai gael eu niweidio. Os nad ydych yn siŵr a yw'ch data yn ddata sensitif, cysylltwch â'r Ganolfan Cofnodion Lleol neu CNC.

[28] Gellir gwneud ceisiadau data uniongyrchol drwy gysylltu â WWBIC yn uniongyrchol yn: Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, Canolfan Fusnes Landsker, Llwynybrain, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin, SA34 0NG Ffôn/ffacs: 01994 241468

6.4.9 Dangosir Tabl 8 isod y cwmpas, manylion a gwybodaeth leiaf y dylai pob adroddiad arolwg ac asesiad bioamrywiaeth (gan gynnwys Arfarniadau Ecolegol Cychwynnol, arolygon ac asesiadau rhywogaeth a warchodir/â blaenoriaeth ac arolwg ac asesiad cynefin/daearegol ond heb gynnwys Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol eu cynnwys. Mae rhai gofynion ychwanegol ar gyfer rhywogaethau arbennig ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn **Nhablau 9-12** isod.

6.4.10 Mae gofynion penodol yn ymwneud â cheisiadau tyrbin gwynt sengl, ceisiadau dŵr ac araeau solar ffotofoltäig wedi'u darparu gyda nodiadau ar wahân ar wefan yr ALI.

**Tabl 8. Cwmpas, manylion a gwybodaeth y dylid eu cynnwys ym mhob adroddiad arolwg ac asesiad ecolegol**

| Gofynion | Rhestr gyfeirio |
|---|---|
| Gwnewch yn siŵr bod cwmpas yr arolwg wedi cael ei ystyried a bod yr arolwg cywir yn cael ei gynnal - Rhywogaeth a Warchodir / Cam 1 / Cod Cartrefi Cynaliadwy. | |
| Ymwadiad i'w lofnodi gan yr asiant/pensaer/datblygwr a'r ceisydd yn datgan eu bod nhw wedi darllen ac yn deall adroddiad yr arolwg: **Yr wyf i, [*enw*], yn cydnabod fy mod i wedi derbyn yr arolwg ecolegol dyddiedig [dyddiad] yn ymwneud â [cyfeiriad]]. Yr wyf wedi darllen y cynnwys ac yn deall fy rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw rywogaethau a chynefinoedd a warchodir a allai fod yn bresennol yn y cyfeiriad hwn. [Llofnodwyd]** | |
| Enw, cymwysterau, aelodaeth broffesiynol yr arolygwyr (os yw'n gymwys), profiad a thrwydded Rhywogaeth a warchodir gan Ewrop berthnasol (os yw'n gymwys). | |
| Crynodeb gweithredol yn amlinellu'r prif gasgliadau, argymhellion (gan gynnwys lliniaru), cyfyngiadau ac a oes angen cynnal arolygon pellach (**mewn teip trwm**). | |
| Nodyn i ddweud a oes unrhyw wybodaeth sensitif wedi ei rhoddi mewn anecs neilltuol ar wahân. | |
| Cyflwyniad a chrynodeb o'r safle (enw'r safle, cyfeirnod grid, cynllun lleoliad y safle, dyddiad yr arolwg). | |
| Astudiaeth ddesg (gan gynnwys crynodeb o chwiliad data y Ganolfan Cofnodion Lleol - Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru). | |
| Methodoleg yr arolwg (croesgyfeirio at y canllawiau a ddilynwyd, cyfiawnhad dros y dull, yr offer i'w defnyddio, cyfyngiadau). | |
| Disgrifiad o'r safle (i gynnwys nodweddion arbennig o ddiddordeb (gan gynnwys nodiadau o addasrwydd y safle ar gyfer rhywogaeth) a chynefinoedd cyfagos perthnasol, ac unrhyw fanylion am y | |

| | |
|---|---|
| digwyddiadau ar y safle cyn neu ar ôl i'r arolwg gael ei gwblhau e.e. arferion amaethyddol, clirio'r safle ac ati[29]. | |
| Canlyniadau'r arolwg (i gynnwys enw gwyddonol y rhywogaeth, y nifer a ganfuwyd (os yw'n gymwys), enw'r cofnodwr, y dyddiad cofnodi, y tywydd, dyddiad, amser yr arolwg, hyd). | |
| Map yn crynhoi cofnodion o rywogaethau a chynefinoedd (i gynnwys Cynefin Cam 1 / codau Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, nodiadau targed, adeileddau/nodweddion) gyda lluniau cysylltiedig. | |
| Gwerthusiad cyffredinol o'r safle, cynefin a rhywogaeth yn eu cyd-destun ecolegol a ffisegol ac yn ôl statws mewn deddfwriaeth (Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol). | |
| Asesiad o effaith(effeithiau) posibl datblygiad (gan gynnwys effaith uniongyrchol, anuniongyrchol, adeiladu, defnydd parhaus, effeithiau tymor byr a thymor hir) ar y safle, rhywogaethau a chynefinoedd cyfagos, a sut y gellir osgoi effeithiau, eu lliniaru neu ddigolledu ar eu cyfer (gan ddangos bod dull cam wrth gam wedi'i mabwysiadu[30]). Dylid rhoi manylion unrhyw ddewisiadau eraill a gafodd eu hystyried a dylid asesu a fydd lleihad neu gynnydd tebygol yn nifer/graddfa'r rhywogaeth/cynefin.[31] | |
| Wrth gyfeirio at yr effaith dylid ymgorffori ystyriaeth o’r Polisïau Cenedlaethol a Lleol a’r ddeddfwriaeth berthnasol. | |
| Argymhellion (gan gynnwys manylion mesurau lliniaru, digolledu a gwella arfaethedig a datganiad o ddull e.e. amseru). **Nodi'n eglur** pa argymhellion sy'n orfodol a phennu'r camau gweithredu ar gyfer yr asiant/datblygwr/ceisydd o ran y cais cynllunio (gan sicrhau bod lliniaru a/neu ddigolledu yn cael ei nodi ar y lluniadau pensaernïol). Argymhellion ar gyfer gwaith arolwg pellach i'w gwblhau.[32] | |
| Manylion y cynigion a fydd yn gwella, adfer neu'n ychwanegu at nodweddion neu gynefinoedd neu safleoedd neu'r rhai a ddefnyddir gan rywogaeth a warchodir.[33] | |

**Tabl 9. Cwmpas, manylion a gwybodaeth ychwanegol y dylid eu cynnwys mewn adroddiadau sy'n cwmpasu arolygon Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop posibl**

| Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop | Rhestr gyfeirio |
|---|---|
| Asesiad o’r effeithiau anuniongyrchol gan gyfeirio’n neilltuol at Reoliad 50 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y’u | |

[29] Gweler Cymal 6.4.8 yn BS42020 (BSI,2013) am ragor o wybodaeth.
[30] Gweler Adran 7, paragraff 2.4 o TAN 5 a Chymal 5.2 o BS42020
[31] Gweler 6.5 o BS42020
[32] Gweler 6.6.2 o BS42020
[33] Gofyniad CDLL Ceredigion Polisi DM15 yn ogystal â DM06, Dyletswydd NERC a Chymal 6.3.3 o BS42020

| | |
|---|---|
| diwygiwyd) a'u dal/eu lladd yn ddamweiniol | |
| Os yw Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop yn cael ei chanfod ar y safle, rhaid cynnwys datganiad o ddull yn yr adroddiad yn unol â gofynion trwydded CNC. Argymhellir bod hyn yn dilyn patrwm Rhan C y ffurflen gais am drwydded.[34] | |

### Tabl 10. Cwmpas, manylion a gwybodaeth ychwanegol y dylid eu cynnwys mewn adroddiadau sy'n cwmpasu arolygon ystlumod

| **Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop: Ystlumod** | **Rhestr gyfeirio** |
|---|---|
| Disgrifiad o'r adeilad/adeiledd, coed/gwrychoedd, cynefin/safle cyfagos, coridorau sy'n cysylltu nodweddion cynefin ac asesiad cyffredinol o'r posibilrwydd y gallai'r safle gynnal ystlumod yn allanol ac yn fewnol (dylai gynnwys darluniadau neu ffotograffau). | |
| Cynllun yn dangos lleoliad unrhyw arsyllwyr ystlumod lle mae arolygon gwawr a machlud ystlumod wedi cael eu cynnal a lleoliadau unrhyw drawsluniau symudol neu ganfodyddion statig. | |
| Cynlluniau'n dangos lleoliad tystiolaeth (megis nodweddion addas, clwydfannau a nodwyd, mannau mynediad, llinellau hedfan, samplo goleuni, ardaloedd heidio). | |
| Crynodeb o'r dystiolaeth o ystlumod a ganfuwyd (megis nifer/math o faw, staeniau), canlyniadau arolygon gweithgareddau neu olygfannau, casgliadau (megis mathau o glwydfannau) ac asesiad o effaith y datblygiad gan gynnwys casgliad sy'n ymwneud â chynnal statws cadwraeth ffafriol y boblogaeth a effeithir. | |
| Strategaeth liniaru a/neu ddigolledu fanwl yn benodol i'r datblygiad arfaethedig, wedi'i dargedu ar y rhywogaeth a'r math o glwydfannau a ganfuwyd (gan gynnwys datganiad o ddull gyda manylion amseru, tirlunio/plannu, goleuo, trefn y gwaith). **Rhaid trafod hyn â'r pensaer/asiant a'i gynnwys ar y lluniadau pensaernïol (dimensiynau, lleoliad mannau mynediad, deunyddiau, gwelliannau).** | |
| Asesu a chynghori ynghylch y rheidrwydd am drwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop gan Gyfoeth Naturiol Cymru. | |

### Tabl 11. Cwmpas, manylion a gwybodaeth ychwanegol y dylid eu cynnwys mewn adroddiadau sy'n cwmpasu arolygon dyfrgwn

| **Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop: Dyfrgwn** | **Rhestr gyfeirio** |
|---|---|
| Asesiad o addasrwydd y safle ar gyfer dyfrgwn, crynodeb o dystiolaeth o ddyfrgwn actif a defnydd o'r safle (e.e. lleoliad baw, sleidiau i mewn/allan), adroddiad glaw ar gyfer y ddau ddiwrnod blaenorol a | |

[34] Mae http://naturalresourceswales.gov.uk/apply-buy-report/apply-buy-grid/protected-species-licensing/european-protected-species-licensing/do-i-need-a-licence/?lang=en#.U0exWaL4Z6Y yn darparu'r cais am drwydded a chanllawiau

| | |
|---|---|
| diwrnod(au) yr arolwg ac amserau'r llanw os yw'n gymwys. | |

**Tabl 12. Cwmpas, manylion a gwybodaeth ychwanegol y dylid eu cynnwys mewn adroddiadau sy'n cwmpasu arolygon ymlusgiaid**

| **Rhywogaeth Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad: Ymlusgiaid** | **Rhestr gyfeirio** |
|---|---|
| Asesiad o addasrwydd y safle ar gyfer ymlusgiaid. Canlyniadau i gynnwys gwybodaeth fanwl am y tywydd (ar y pryd a'r ddau ddiwrnod blaenorol), amser gwawr a machlud, cynllun yn dangos lleoliad bras y teils arolwg a chyfiawnhad dros y nifer/lleoliad. | |

6.4.11 Dylai'r wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r gofynion uchod fod yn gyson â'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer cais i CNC am Drwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop.

6.4.12 Os oes effeithiau tebygol ar Safle Rhyngwladol (e.e. ACA, AGA ac ati) (gan gynnwys rhywogaeth symudol) cyfrifoldeb yr ALI yw asesu effeithiau'r cynllun, ac a fydd effaith arwyddocaol yn debygol (Prawf o'r Effaith Arwyddocaol Debygol) ac Asesiad Priodol dilynol lle y bo angen[35]. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r ceisydd gyflenwi'r wybodaeth ddigonol a pherthnasol y mae'n rhesymol i'r ALI ei hangen at ddibenion yr asesiad. Os nad ydych yn siŵr ynghylch lefel yr wybodaeth sydd ei hangen, ceisiwch gyngor gan yr ALI, CNC neu cyfeiriwch at y cynllun rheoli craidd ACA/AGA.

6.4.13 Dylai Datganiadau Dyluniad a Mynediad gynnwys crynodeb o'r effeithiau ar yr ecoleg a sut y cânt eu lliniaru ac ati.

[35] Gweler Pennod 5 ac Atodiad 3 o TAN 5 am ragor o wybodaeth.

# 7 Cyflwyno'r dull cam wrth gam

## 7.1 Dyluniad




**7.1.1** Pan fydd yr arolygon a'r asesiadau wedi'u cwblhau, bydd y rhain yn dangos yr ardaloedd y dylid eu hosgoi, llywio pa fesurau lliniaru a digolledu sydd eu hangen, a dangos ble mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau. Dylai hyn gael ei gynnwys yn y dyluniad yn hytrach nag i'r gwrthwyneb.

**7.1.2** Dylid ystyried hefyd a ellid cyfuno SDCau, bioamrywiaeth a mannau agored i wella'r ardal i drigolion, y gymuned, cyflogwyr ac ati, a hefyd lleihau'r lle sydd ei angen (gan felly lleihau'r costau i'r datblygwr a chynyddu tir datblygu). Mae rhagor o wybodaeth am SDCau a mannau agored i'w gweld yng Nghynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion, Canllawiau Cynllunio Atodol: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio a'r Canllawiau Cynllunio Atodol: Mannau Agored.

**7.1.3** Gall rhai agweddau ar ddylunio leihau'r angen am rai arolygon yn y lle cyntaf, e.e. osgoi coed a darparu clustogfa addas. Gweler Adran 12 am gyngor.

**7.1.4** Hefyd dylid ystyried a oes cyfleoedd ar gyfer unrhyw addysg bioamrywiaeth (e.e. paneli gwybodaeth) neu fynediad (e.e. llwybrau cerdded drwy goedwigoedd, llwybr drwy laswelltir hir ac ati) fel sy'n ofynnol gan Bolisi DM14. Byddai hyn yn arbennig o briodol ar gyfer ystadau tai newydd, cyflogaeth, safleoedd twristiaeth, e.e. gwersylloedd, cynlluniau priffyrdd ac ati. Fel y nodir ym Mholisi DM14, byddai hyn yn dderbyniol mewn mannau priodol yn unig lle gellir diogelu'r elfennau ecolegol a daearegol ac ni fyddai cyflwyno neu gynyddu'r elfen hamdden yn effeithio ar statws cadwraeth rhywogaeth a warchodir/sydd â blaenoriaeth nac yn andwyo cynefin a warchodir/sydd â blaenoriaeth nac yn y tymor byr na'r tymor hir.



**7.1.5** Mae'r CDLl Polisi DM15 yn ei gwneud hi'n ofynnol mabwysiadu dull cam wrth gam at ddatblygu. Disgrifir hyn ymhellach isod. Mae gwybodaeth bellach i'w gweld ym Mharagraff 2.4 o TAN 5 a Chymal 5.2 o'r Safonau Prydeinig ar gyfer Bioamrywiaeth (BSI, 2013).

## Osgoi

**7.1.6** Dylai unrhyw nodweddion ar y safle sy'n gynefinoedd gwerthfawr eu hunain, yn darparu coridor cynefin neu sy'n cynnal rhywogaeth a warchodir neu â blaenoriaeth gael eu cadw cyn belled â phosibl fel rhan o'r datblygiad[36].



**7.1.7** Er enghraifft, nid oes angen symud gwrychoedd o gwmpas perimedr y safle ac os oes modd, dylai'r datblygiad gael ei gynllunio o gwmpas y rhai o fewn y safle (gyda dim ond pwyntiau mynediad yn cael eu trawsleoli (neu eu symud a digolledu amdanynt os oes modd). Dylai'r uchderau disgwyliedig mwyaf a nodwyd gan yr Adran Briffyrdd gael eu hystyried wrth benderfynu ar leoli gwrychoedd wedi'u trawsleoli/ailblannu er mwyn sicrhau y gallant dyfu i uchder addas.

**7.1.8** Mae nodweddion eraill i'w cadw yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, ffosydd, coetiroedd, glaswelltiroedd rhywogaeth-gyfoethog, llinellau coed/coed unigol, pyllau at ati.

## Lliniaru

**7.1.9** Os yw nodweddion yn cael eu cadw, neu os yw effeithiau arwyddocaol ar rywogaethau yn ceisio cael eu hosgoi, bydd angen cymryd mesurau lliniaru i ddiogelu'r nodweddion/rhywogaethau hyn. Gallai hyn olygu unrhyw beth o sicrhau bod clustogfa arwyddocaol o'r nodwedd i'w chadw o ran adeiledd terfynol y datblygiad (e.e. wyneb caled, adeiladau ac ati) i sicrhau bod y gwaith adeiladu yn digwydd ar adeg benodol o'r flwyddyn (e.e. y tu allan i dymor bridio adar, y tu allan i dymor gaeafgysgu ymlusgiaid ac ati).



**7.1.10** Bydd pellter clustogfa addas o nodweddion safle yn ofynnol. Bydd angen clustogfa o 7m o leiaf o wlypdiroedd a dŵr sy'n llifo. Bydd angen clustogfa 1m o leiaf o waelod glannau/ymyl canopïau coed ac ati o nodweddion eraill.

**7.1.11** Mae Tabl 13 isod yn rhoi manylion am yr adegau o'r flwyddyn pan fydd modd lliniaru ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd gwahanol.

[36] Yn unol â Pholisïau DM06: Dylunio a Lleoli o Safon Uchel, DM10: Dylunio a Thirlunio, DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol, DM15: Cadw Bioamrywiaeth Lleol, DM20: Diogelu Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd a DM22: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol y CDLl.

# Tabl 13. Amserlen lliniaru. Wedi'i addasu o Ecological Survey and Calendars Briefing Note (Willmott Dixon, 2010)

Allwedd:
- Cyfnod mudo a argymhellir
- Amser mudo is-optimaidd
- Mudo ddim yn bosibl

| Rhywogaeth | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amffibiaid (gaeaf)** | Creu safle gaeaf (dim dinistrio) | | | Dinistrio safle gaeaf a chreu safle gaeaf | | | | | Creu safle gaeaf (dim dinistrio) | | | |
| **Amffibiaid (pyllau bridio a bwydo)** | Creu pyllau a mannau bwydo newydd (dim dinistrio neu aflonyddo oherwydd bridio) | | | | | | Creu pyllau a mannau bwydo newydd a thrawsleoli (dim dinistrio nes bod trawsleoli wedi'i gwblhau) | | | Dinistrio pyllau a mannau bwydo a chreu pyllau a mannau bwydo newydd | | |
| **Moch daear** | Adeiladu setiau artiffisial yn unig (dim aflonyddu setiau sy'n bod) | | | | | | | Gwahardd o setiau a dinistrio | | | Gwahardd mewn amgylchiadau arbennig | Dim aflonyddu (gweler Ionawr) |
| **Ystlumod** | Gwaith clwydfannau mamolaeth yn unig | | Gwaith gaeafgysgu a chlwydfannau mamolaeth | | Gwaith clwydfannau gaeafgysgu yn unig | | | | | | Gwaith clwydfannau mamolaeth yn unig | |
| **Adar** | Gwaith clirio | | Tymor nythu (osgoi POB gwaith clirio) | | | | | | Gwaith clirio | | | |
| **Pathewod** | Dim gwaith clirio oherwydd gaeafgysgu | | | Clirio, trawsleoli a rhyddhau | | Dim gwaith clirio oherwydd gallai wahanu benywod a rhai ifanc | | | Clirio, trawsleoli a rhyddhau | | Dim gwaith clirio oherwydd gaeafgysgu | |
| **Anifeiliaid di-asgwrn-cefn** | Plannu a chreu cynefinoedd bridio, fforio a lloches. Clirio llystyfiant (ond gall fod larfae gaeafu ac ati) | | | Dim dinistrio llystyfiant oherwydd bridio. Creu cynefinoedd bridio, fforio a lloches | | | | | | Plannu a chreu cynefinoedd bridio, fforio a lloches. Clirio llystyfiant | | |
| **Dyfrgwn** | Dim cyfyngiadau tymhorol ond cyfyngiadau yn debygol yn ystod y tymor bridio | | | | | | | | | | | |
| **Ymlusgiaid (gaeaf)** | Creu safle gaeaf (dim dinistrio oherwydd gaeafgysgu) | | | | Dinistrio safle gaeaf a chreu | | | | Creu safle gaeaf (dim dinistrio oherwydd gaeafgysgu) | | | |
| **Ymlusgiaid (safleoedd bridio a safleoedd torheulo)** | Clirio prysgwydd/llystyfiant hir (gallant fod yn gaeafgysgu yn y llystyfiant) | | Dibynnu ar y tywydd a'r rhywogaeth | Rhaglenni dal a thrawsleoli a chlirio prysgwydd (pan fydd trawsleoli wedi'i gwblhau) | | | Dibynnu ar y tywydd ond yn debygol o fod yn is-optimaidd oherwydd y tymheredd | | Dal a thrawsleoli | Clirio prysgwydd/llystyfiant hir (gallant fod yn gaeafgysgu yn y llystyfiant) | | |
| **Llygod y dŵr** | Osgoi gwaith yn y cynefin | | Trapio a gwahardd | | Osgoi gwaith (tymor bridio) | | | | Trapio a gwahardd | | Osgoi gwaith yn y cynefin | |
| **Cynefin/ llystyfiant** | Planni a thrawsleoli | | Plannu (efallai y bydd dyfrio dilynol yn ofynnol) | | Dim lliniaru ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau o lystyfiant | | | | | Planni a thrawsleoli | | |

## Digolledu

7.1.12 Os nad oes modd gwarchod rhag colli neu ddifrodi nodweddion, ac nid yw lliniaru'n ddigon, mae'n rhaid gwneud iawn am golledion. Yn yr achos hwn mae'r nodwedd/cynefin neu ddewis arall addas yn cael ei ddarparu i wneud iawn am golli'r cynefin ei hun neu fel cynefin arall ar gyfer rhywogaeth. Digolledu yw'r dewis olaf un. Efallai na fyddai'n bosibl gwneud iawn ar y safle ac felly bydd angen gwneud hynny y tu hwnt i safle'r cais trwy gytundeb Adran 106 er mwyn sicrhau eu darpariaeth a'u rheolaeth yn y tymor hir.



7.1.13 Oherwydd ei bod yn gallu cymryd blynyddoedd i gynefinoedd ymsefydlu, bydd yn rhaid ystyried hynny wrth wneud iawn, fel arfer trwy ddarparu ardal/hyd/nifer mwy o'r hyn a gollwyd a/neu ansawdd well. Er enghraifft, os oes angen symud wal gerrig i ddarparu mynediad, byddai'n rhaid ei hail-greu mewn safle addas. Dylid ystyried gofynion eraill hefyd a allai effeithio ar y cynefin/nodwedd y bydd angen gwneud iawn amdano/amdani. Er enghraifft, bydd angen adleoli/plannu perthi **y tu** ôl i sblaeau gwelededdd fel y gallant dyfu'n ddigon uchel a dylid plannu coed lle na fyddent yn amharu ar wasanaethau a goleuni trwy ffenestri.

7.1.14 Yn achos rhai rhywogaethau, megis Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, mae'n bosib na fydd trawsleoli yn bosib pe byddai hynny'n golygu nad yw'r cais yn bodloni'r tri phrawf rhanddirymiad[37]. Yn ogystal, mewn rhai achosion, nid oes modd ail-greu'r cynefin neu'r gofynion cynefin cywir ar gyfer y rhywogaeth a effeithir, ac felly mae cynigion sy'n arwain at golli'r cynefinoedd hynny yn debygol o gael eu gwrthod.

7.1.15 At hynny, bydd trawsleoli yn ddewis derbyniol dim ond os yw cynefin addas ar gael ac nid yw eisoes dros ei gapasiti cario[38] ar gyfer y rhywogaeth honno. Gall datblygu'n raddol gael ei gynnwys fel amod er mwyn i'r cynefin trawsleoli fod yn addas (e.e. er mwyn i brysgwydd a llystyfiant hir ffurfio ar safle



[37] Tri phrawf rhanddirymiad:
- mae budd cyhoeddus tra phwysig;
- nid oes dewis arall boddhaol; ac
- ni fydd y datblygiad yn niweidiol i gynnal y boblogaeth o'r rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn ei gwasgariad naturiol

Gweler Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 i gael rhagor o wybodaeth.

[38] Capasiti cario yng nghyfanswm yr unigolion y gall cynefin eu cynnal er mwyn cael poblogaeth hyfyw

llystyfiant byr blaenorol ar gyfer ymlusgiaid). Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys rheoli'r safle trawsleoli.

7.1.16 Mae amseriad trawsleoli ac ati wedi'i gynnwys yn Nhabl 13 uchod.



7.1.17 Nid yw digolledu yn y cyd-destun hwn yn cynnwys yr hyn a geir yn Rheoliad 66 Safleoedd Ewropeaidd o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd). I gael rhagor o wybodaeth am hyn gweler Pennod 5 ac Atodiad 3 o TAN 5 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).

## Gwelliannau

7.1.18 Mae gwelliannau yn golygu gwella/creu cynefinoedd yn eu rhinwedd eu hunain neu gynefinoedd ar gyfer rhywogaethau sy'n ychwanegol at ddigolledu. Mae Polisi DM15 yn gwneud gwelliannau yn ofynnol fel rhan o bob cais.

7.1.19 Bydd rhaid i welliannau fod yn berthnasol i'r safle a'r hyn sy'n debygol o gael ei ganfod ar y safle/gallai symud i'r safle a dylai gyfeirio at dargedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

7.1.20 Gallai gwelliannau fod yn unrhyw beth o deilsen ystlum ar do i bwll ar safle.

**7.2 Datblygu'n raddol/fesul cam**

7.1.1 Os yw'n ofynnol i ddatblygu'n raddol neu fesul cam, bydd rhaid cynnal arolwg ar gyfer y safle cyfan a rhaid darparu dyluniad sgematig i ddangos y camau osgoi, lliniaru a digolledu ar gyfer colli bioamrywiaeth. Os yw'n gymwys, i osgoi niwed, bydd lliniaru a digolledu yn ofynnol o fewn y cam/cyfnod cyntaf.

**7.3 Rheoli a Monitro**



7.3.13 Bydd nifer o'r cynefinoedd a gedwir neu a grëir fel rhan o'r datblygiad yn gofyn am ryw fath o reolaeth. Gallai hyn olygu gadael y cynefin yn llonydd am y rhan fwyaf o flynyddoedd, neu gall olygu ychydig o waith ddwywaith y flwyddyn; mae'r cyfan yn dibynnu ar y math o gynefin a lleoliad.

7.3.14 Gall y rhan fwyaf o nodweddion gael eu cynnwys fel rhan o'r darpariaethau rheoli mannau agored, ond yn achos rhai cynefinoedd bydd angen rheolaeth benodol.

7.3.15 Bydd angen cynllun rheoli ar gyfer y rhan fwyaf o'r safleoedd a neilltuwyd a rhai o'r safleoedd heb eu neilltuo. Bydd angen cynnwys y canlynol yn Nhabl 14.

## Tabl 14. Amlinelliad o ofynion y Cynllun Rheoli

| Cynllun Rheoli |
|---|
| **Cyflwyniad a chefndir** |
| Cefndir y safle gan gynnwys beth oedd y fioamrywiaeth cyn y datblygiad (maint/poblogaeth y cynefin, os gwyddys, dosbarthiad ar draws y safle, ansawdd ac ati) a beth gafodd ei wneud fel rhan o'r datblygiad i gadw a gwella'r cynefinoedd/rhywogaethau |
| Disgrifiad o'r cynefin a'r nodweddion a gadwyd ac a grëwyd (maint/poblogaeth y cynefin, os gwyddys, dosbarthiad ar draws y safle, ansawdd presennol ac ati) |
| Amcanion ar gyfer pob cynefin/nodwedd |
| Disgrifiad o'r rheolaeth ar gyfer pob cynefin/nodwedd gan gynnwys disgrifiad o'r gwaith, amseriad, amlder, monitro ac ati |
| Cynllun o'r safle yn marcio'r holl gynefinoedd a nodweddion ar gyfer rhywogaethau, gan ddangos pa rai sydd i'w rheoli |
| Dyddiad Adolygu a Gwerthuso |

7.3.16 Nid yw'n bosibl gosod amodau ar gyfer rheoli safleoedd onid yw'r datblygwr/ perchennog y tir yn debygol o fod yn gyfrifol am y safle dros oes y datblygiad e.e. o ran cymdeithasau tai neu ddatblygiadau cyflogaeth, ac felly byddent yn gyfrifol am y mannau agored a'r ardaloedd sydd wedi eu pennu ar gyfer bioamrywiaeth. Fel arall bydd angen gwneud cytundeb o dan Adran 106 er mwyn sicrhau perchnogaeth tir neu gyfrifoldebau amgen (gan gynnwys ffi), neu ddull amgen megis taliadau gwasanaeth mynegrifol (rhent tir).

7.3.17 Os yw Adran 106 yn gymwys, bydd angen y cynllun rheoli cyn rhoi caniatâd cynllunio er mwyn cyflwyno ffi reoli gywir gerbron yr ALI. Mewn achosion eraill, mae'n debygol y bydd y rheidrwydd am gynllun rheoli'n rhan o amod er efallai y bydd angen cynllun dangosol ymlaen llaw.



### 7.4 Tirlunio

7.4.1 Wrth dirlunio safle mae'n well defnyddio rhywogaethau brodorol lleol os yw hynny'n bosibl neu stoc sy'n dod o'r Deyrnas Unedig fel arall, yn enwedig y rhai sy'n denu pryfed peillio ac anifeiliaid eraill. Dylai'r plannu ddarparu amrywiaeth o ran oedran, adeiledd, rhywogaethau ac amseru a'r math o ffynhonnell fwyd er mwyn manteisio i'r eithaf ar fioamrywiaeth ac ychwanegu lliw at ddatblygiadau. Mae rhagor o wybodaeth am dirlunio cyffredinol, gan gynnwys rhestrau plannu posibl, wedi'i darparu o fewn Canllawiau Cynllunio Atodol: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio (Cyngor Sir Ceredigion, 2014b) a'r nodyn cyfarwyddyd ar wahân 'Plannu ar gyfer Bywyd Gwyllt o fewn Datblygiadau' (Cyngor Sir Ceredigion, 2014g).

# 8 Trwyddedau Rhywogaethau

8.1 Mae trwydded bywyd gwyllt yn rhoi caniatâd i rywun ymgymryd â gweithgaredd sy'n effeithio ar anifail neu blanhigyn a fyddai'n anghyfreithlon fel arall. Mae trwyddedau'n cael eu cyhoeddi at ddibenion arbennig yn unig a osodir gan y gyfraith, a dim ond os oes cyfiawnhad dilys.

## Pwy sydd angen trwydded?

8.2 Rhaid i weithgareddau sy'n debygol o achosi niwed neu aflonyddu i rywogaeth a warchodir neu ei chynefin gael eu cynnal o dan drwydded. Gall hyn gynnwys gwaith arolygu, trapio a marcio, ffotograffiaeth a rheoli cynefin. Am y rheswm hwn, dylai ecolegydd proffesiynol gael ei gyflogi bob amser i wneud gwaith arolygu.

8.3 Ar gyfer datblygiad, bydd angen 'trwydded ddatblygu' yn aml os bydd rhywogaeth a warchodir yn cael ei heffeithio'n negyddol. Mae Polisi Cynllunio Cymru (5.5.4) yn annog trafodaethau cyn cais rhwng y ceisydd, yr ALl a CNC ar gyfer datblygiadau lle y gallai rhywogaeth a warchodir gael ei heffeithio.

8.4 Mewn rhai achosion, bydd mesurau osgoi a lliniaru priodol yn atal yr angen am drwydded - gall gwaith gael ei reoli er mwyn iddo beidio ag aflonyddu neu achosi niwed[39]. Mewn achosion eraill, ni fydd mesurau lliniaru yn dileu'r angen am drwydded, ond bydd yn ffurfio rhan o amodau'r drwydded, yn ogystal â chael ei gwmpasu gan amod(au) cynllunio.

8.5 Gall gwaith lliniaru ar gyfer nifer o drwyddedau datblygu gynnwys cyfnod rhagarweiniol sylweddol, er enghraifft, gall cynefin lliniaru ar gyfer pathewod gymryd sawl blwyddyn cyn iddo fod yn addas ar gyfer pathewod.

## Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop

8.6 Os yw Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop yn debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion, bydd rhaid i'r datblygwr wneud cais i CNC am 'drwydded ddatblygu' cyn gallu dechrau unrhyw waith ar y safle. Mae'n rhaid i'r cais am drwydded gael ei wneud gan y datblygwr ar ôl cael caniatâd cynllunio.


"Bat(20070605)" Lylambda (lylambda@gmail.com)

8.7 Mae'n bwysig nodi nad yw caniatâd cynllunio (neu hawl datblygu a ganiateir) yn dileu'r angen am drwydded ddatblygu cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle.

8.8 Gallai gweithio heb drwydded ddatblygu arwain at gyflawni trosedd bywyd gwyllt ac erlyniaeth ddilynol.

[39] Mewn rhai achosion bydd yn golygu gwneud gwaith sy'n galluogi Swyddogaeth Ecolegol Barhaus rhywogaeth y bydd angen ei gytuno â CNC.

8.9 Cyn rhoi caniatâd cynllunio, mae'n rhaid i'r ALl roi sylw'r i'r tri phrawf rhanddirymiad [40] wrth wneud ei benderfyniad ar y cais:

- nid oes 'unrhyw ddewis arall boddhaol'
- nid yw'n 'niweidiol i gynnal y poblogaethau o'r rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn ei gwasgariad naturiol'
- mae 'er lles iechyd a diogelwch cyhoeddus, neu am resymau hanfodol eraill sydd o fudd cyhoeddus tra phwysig, gan gynnwys rhai o natur gymdeithasol neu economaidd a chanlyniadau buddiol o'r pwysigrwydd mwyaf i'r amgylchedd'.

8.10 Er mwyn i'r ALl allu gwneud hyn, rhaid rhoi sylw i'r materion hyn yn yr adroddiad arolwg ac asesiad bioamrywiaeth a gyflwynir gyda'r cais cynllunio, ac os yw'n briodol, gwybodaeth a/neu fesurau lliniaru a ddarperir ar y cynlluniau.

8.11 Pan fydd y cais wedi'i dderbyn gall yr ALl ymgynghori â CNC i sicrhau bod y dull a amlinellir yn yr adroddiad yn ddigonol. Os yw caniatâd cynllunio yn cael ei roi, caiff amodau eu gosod sy'n sicrhau bod yr dull a gytunwyd yn cael ei ddilyn.

## Rhywogaethau a Warchodir gan y DU

8.12 Mae CNC yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer rhywogaethau a warchodir o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, er enghraifft, llygod y dŵr, ond nid yw'r rhain yn cwmpasu datblygu. Felly, er mwyn osgoi cyflawni trosedd, cyn belled ag y bo'n rhesymol, rhaid cymryd camau priodol i ddiogelu'r anifeiliaid a warchodir o dan y ddeddf hon a'r lleoedd a ddefnyddir ganddynt ar gyfer lloches a diogelwch. Yn y pen draw dim ond y llys all benderfynu beth sy'n rhesymol ac i ba raddau y gallai effeithiau niweidiol fod wedi cael eu hosgoi'n rhesymol, fodd bynnag, mae ceisio cyngor gan ecolegydd â chymwysterau addas, cynnal arolygon perthnasol a dilyn arfer gorau ar gyfer osgoi, lliniaru a digolledu yn rhoi amddiffyniad cryf i'r datblygwr.




8.13 Mae CNC hefyd yn gyfrifol am gyhoeddi trwyddedau o dan Ddeddf Diogelu Moch Daear 1992 lle mae angen ymyrryd â moch daear a/neu eu setiau yn ystod datblygiad. Mae ystyried a rhoi trwyddedau o'r fath yn cael sylw ar wahân i'r broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio, ond mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried y ddeddfwriaeth trwy gydol y broses rheoli datblygiad.

8.14 I gael rhagor o wybodaeth am rywogaethau a warchodir a'r system gynllunio, gweler TAN 5 (Adran 6 ac Atodiad 7).

[40] Gweler Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 i gael rhagor o wybodaeth

# 9 Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

9.1 Mae'r term 'Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol' (AEA) yn disgrifio'r drefn y mae'n rhaid ei dilyn ar gyfer rhai mathau o brosiectau cyn y gallant gael 'caniatâd cynllunio'. Mae'r drefn yn ffordd o ddwyn ynghyd, mewn ffordd systematig, asesiad o effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol prosiectau. Gall yr ALl roi cyngor ar AEA yn ystod y cam cyn cais.

9.2 Mae prosiectau wedi'u rhestru ar ddwy atodlen o fewn y ddeddfwriaeth (Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2011) - mae atodlen un yn cynnwys datblygiadau mawr fel meysydd awyr a gwaith diwydiannol. Mae mathau eraill o ddatblygiadau wedi'u rhestru ar atodlen dau ac mae angen AEA ar gyfer y rhain dim ond os yw'r cynnig yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol arwyddocaol. Gelwir y broses o gynnal asesiad o effeithiau amgylcheddol yn 'Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol', ac mae cyflwyno'r wybodaeth honno fel rhan o gais cynllunio yn cael ei alw'n **'Datganiad Amgylcheddol'.** Os oes angen Datganiad Amgylcheddol ar ddatblygiad fe'i gelwir yn 'Ddatblygiad AEA'.

9.3 Mae paratoi datganiad amgylcheddol ochr yn ochr â dyluniad prosiect yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer rhyngweithio rhwng ystyriaethau amgylcheddol a dyluniad y datblygiad. Y datblygwr sy'n gyfrifol am gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a llunio'r Datganiad Amgylcheddol. Gall Datganiadau Amgylcheddol fod â chwmpas tynn os mai dim ond ychydig iawn o feysydd o bryder sy'n lleihau lefel y gwaith sydd ei hangen.

## Barn Sgrinio

9.4 Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu gweithdrefn sy'n galluogi datblygwyr i wneud cais i'r ALl am farn sy'n datgan a fydd rhaid iddynt gynnal AEA - gelwir hyn yn **'farn sgrinio'.**

9.5 Mae'n rhaid i farn sgrinio gynnwys cynllun lle y nodir safle'r datblygiad arfaethedig, a disgrifiad byr o'i natur a'i ddiben a'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd. Gellir gwneud hyn ymhell cyn unrhyw gais cynllunio ffurfiol, ac mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio roi ei farn o fewn tair wythnos, oni bai bod y datblygwr yn cytuno ar gyfnod hwy.

## Barn Gwmpasu

9.6 Mae'r Rheoliadau yn galluogi datblygwr, cyn gwneud cais cynllunio, i ofyn i'r ALl am ei farn ffurfiol am yr wybodaeth i'w chynnwys mewn datganiad amgylcheddol - gelwir hyn yn **'farn gwmpasu'.** Os yw'r ceisydd am wneud hynny, gall cais am farn gwmpasu gael ei wneud yr un pryd â'r farn sgrinio.

9.7 Dylai datblygwyr ac awdurdodau drafod cwmpas datganiad amgylcheddol cyn dechrau ei baratoi. Gellir ymgynghori â sefydliadau statudol megis CNC ar y cam hwn. Mae'r gofynion ffurfiol ynghylch cynnwys datganiadau amgylcheddol i'w gweld yn Atodlen 4 o'r ddeddfwriaeth.

9.8 Nid oes unrhyw ddatganiad amgylcheddol rhagnodedig, ar yr amod bod gofynion y Rheoliadau yn cael eu bodloni.

9.9 Cysylltwch â'r ALI am gyngor i weld a fydd angen AEA ar eich cais neu ewch i wefan yr adran gynllunio yn www.communities.gov.uk. Mae'r Sefydliad Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol wedi cynhyrchu canllawiau manwl ar gyfer Asesiad Effaith Ecolegol (www.ieem.net/ecia).

# 10. Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

10.1 Mae Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn gwarchod rhai rhywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid a allai fod dan fygythiad arbennig. Mae'r Gyfarwyddeb yn ymwneud yn benodol ag Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a safleoedd Ramsar a elwir yn safleoedd Natura 2000. Defnyddir Rheoliadau Cynefinoedd y DU i weithredu Cyfarwyddeb yr UE ac mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) yn ofynnol.

10.2 Mae'r broses ARhC yn cynnwys cam 'Sgrinio' cychwynnol (Prawf o'r Effaith Arwyddocaol Debygol' wedi'i ddilyn gan Asesiad Priodol os rhagwelir y bydd cynigion yn debygol o gael effaith arwyddocaol (niweidiol) ar safle Natura 2000.



10.3 Mae'r angen am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i amlinellu yn Erthygl 6 o Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd 1992, a'i ddehongli yng nghyfraith Prydain gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd).

10.4 Cafodd adroddiad Sgrinio ARhC ei lunio ar gyfer CDLl Ceredigion. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld isod.

10.5 I gael canllawiau manwl am ARhC gweler Pennod 5 ac Atodiad 3 o TAN 5 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).

## Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)

10.6 Mae Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn ardaloedd sydd wedi cael eu nodi fel rhai sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ar sail bridio, bwydo, gaeafu neu fudo rhywogaethau o adar sy'n brin ac o dan fygythiad sydd i'w canfod yng ngwledydd yr UE. Er enghraifft, mae Gŵydd Talcen-wen yr Ynys Las yn aderyn a warchodir ar AGA Dyfi yng ngogledd y sir.

## Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC)

10.7 Mae ACA hefyd yn ardaloedd sydd wedi cael statws gwarchod arbennig. Maent yn rhoi mwy o ddiogelwch i amrywiaeth o anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd gwyllt. Er enghraifft, mae nodweddion gwarchodedig ACA Afon Teifi yn cynnwys dyfrgwn, eog yr Iwerydd a llyswennod.

## Ramsar

10.8 Mae safleoedd Ramsar yn wlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar. Er enghraifft, mae Ramsar Cors Caron yn wlypdir o bwysigrwydd rhyngwladol.


## ACA/AGA/Ramsar Ceredigion

10.9 Mae 12 ACA, 2 AGA a 2 safle Ramsar yng Ngheredigion sydd o fewn neu'n rhannol o fewn y sir. Mae 4 ACA arall hefyd a allai gael eu heffeithio o bosib gan ddatblygiad yng Ngheredigion. Gweler Ffigur 2 am ragor o wybodaeth.

## Sut ydw i'n gwybod a fydd fy nghynnig yn effeithio ar AGA/ACA/Ramsar?

10.10 Yn achos y rhan fwyaf o ddatblygiadau, bydd rhaid i chi wirio a yw eich cynnig yn agos at neu'n gyfagos i AGA/ACA/Ramsar. Gellir gwneud hyn drwy gysylltu â'r Ganolfan Cofnodion Lleol (Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru) neu drwy fynd i [www.magic.gov.uk (Natural England, n.d.)](http://www.magic.gov.uk).

10.11 Fodd bynnag, gall rhai cynigion gael effaith o bell - er enghraifft, os ydynt o fewn dalgylch ACA Afon Teifi a gallant arwain at lygredd neu waddoli'r afon, neu gall cynnig gael effaith drwy lygredd aer cryn bellter o safle sydd â llystyfiant sensitif megis Cors Fochno ACA Dyfi. At hynny, efallai y bydd angen i safleoedd gyda rhywogaethau symudol gael eu hystyried cryn bellter i ffwrdd o'r safle oherwydd y pellter y gallai'r rhywogaethau symudol hynny deithio - e.e. efallai y bydd angen ystyried ACA Coetiroedd Gogledd Sir Benfro hyd at 30km i ffwrdd oherwydd y pellter y mae ystlumod Barbestelle sydd yno yn hedfan.




**Ffigur 2: Lleoliad Safleoedd Ewropeaidd a aseswyd gan Sgrinio ARhC y CDLl**

10.12 Felly, bydd natur, graddfa a phellter oddi wrth/math o nodweddion yr AGA/ACA/Ramsar yn pennu a fydd angen ystyried effaith y datblygiad ar y safle hwnnw yng nghyd-destun ARhC.

## Cynigion a allai effeithio ar AGA/ACA/Ramsar

10.13 Os oes posibilrwydd y bydd AGA/ACA/Ramsar yn cael ei effeithio, bydd angen i'r ALI gynnal Prawf o'r Effaith Arwyddocaol Debygol. Mae'r asesiad hwn yn penderfynu a fydd unrhyw effeithiau arwyddocaol yn debygol ar AGA/ACA/Ramsar, yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Felly, mae'n rhaid i bob datblygiad, hyd yn oed gyda'r hyn a fyddai i'w weld yn effeithiau bach, gael ei ystyried rhag ofn y bydd effaith ar y cyd.

10.14 Er mwyn gwneud yr asesiad hwn, efallai y bydd yr ALI yn gofyn am wybodaeth bellach y mae'n rhaid i'r ceisydd ei darparu. Gallai hyn fod drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys yr Arolwg ac Asesiad Bioamrywiaeth gwaith arolygu pellach, Datganiad Atal Llygredd, cynlluniau, Datganiad Dylunio a Mynediad ac ati. Mae'r ALI yn debygol o ofyn am asesiad o fewn yr Arolwg ac Asesiad Bioamrywiaeth o'r effeithiau ar yr AGA/ACA/Ramsar, eu harwyddocâd, mesurau lliniaru ac ati.

10.15 Yna bydd yr ALI yn cynnal y Prawf o'r Effaith Arwyddocaol Debygol ac yn ymgynghori â CNC i weld a ydynt yn cytuno â'r asesiad.

10.16 Os yw'n casglu na fydd unrhyw effeithiau arwyddocaol, yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach. Fodd bynnag, os yw effaith arwyddocaol yn debygol neu os na wyddys beth fydd yr effeithiau, bydd agen cynnal Asesiad Priodol ac efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth.

## Asesiad Priodol

10.17 Yr Awdurdod Cymwys (yr ALI o bosib a CNC/LlC hefyd yn dibynnu ar y cynnig) sy'n ymgymryd â'r Asesiad Priodol.

10.18 Bydd yr Asesiad Priodol yn ystyried y cynnig ac a fydd yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle. Ni fydd hyn yn anodd neu'n cymryd yn hir bob amser - dylai lefel y manylion adlewyrchu cymhlethdod yr achos neu raddfa'r cynnig.

10.19 Os oes modd, bydd mesurau osgoi a lliniaru priodol, gan gynnwys monitro, wedi'u cynnwys yn y cynllun a fydd yn lleihau unrhyw effeithiau niweidiol.

10.20 Fodd bynnag, os yw'r asesiad yn dod i'r casgliad y bydd effaith niweidiol tebygol ar gyfanrwydd y safle neu os oes unrhyw ansicrwydd, bydd y cynnig yn methu'r Asesiad Priodol.

10.21 Fodd bynnag, os rhagwelir na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle, yn amodol ar gyngor a chytundeb CNC, gellir rhoi caniatâd cynllunio (os nad oes unrhyw faterion cynllunio eraill sydd heb eu datrys).

### Beth sy'n digwydd os na ellir penderfynu na fydd fy nghynnig yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd yr AGA a/neu'r ACA yn dilyn Asesiad Priodol?

10.22 Ar ôl ystyried y mater o dan Reoliad 61 o'r Rheoliadau Cynefinoedd, os na ellir penderfynu na fydd cynnig yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd AGA a/neu ACA, gall y cynnig fynd yn ei flaen (gweler Rheoliad 62) dim ond os:

- nad oes unrhyw atebion eraill, AC
- mae rhesymau hollbwysig o fudd cyhoeddus tra phwysig dros wneud hynny
- mae rhesymau o'r fath wedi'u cyfyngu i'r rhai a nodir yn Rheoliad 62
- mae'n rhaid i'r Awdurdod Cymwys ymgynghori â CNC i weld a ydynt yn cytuno â'r budd cyhoeddus tra phwysig.

10.23 Rhaid cymryd unrhyw fesurau digolledu angenrheidiol i ddiogelu cyfanrwydd rhwydwaith safle Natura 2000.

### Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) - Cynghorion

- **Dechreuwch yn gynnar**
- **Ceisiwch gyngor ac ymgynghorwch â CNC a'r ALl drwy gydol y broses**
- **Dylai rhesymau hollbwysig o fudd cyhoeddus tra phwysig gael eu hystyried ym mhob achos fel y dewis olaf gyda chostau uchel cysylltiedig posibl, ac mewn nifer o achosion nid yw'n debygol o fod yn opsiwn**
- **Byddwch yn ymwybodol nad yw datblygiad preswyl yn pasio prawf o fudd cyhoeddus tra phwysig oherwydd bod modd ei roi mewn man arall bob amser**

10.24 I gael rhagor o fanylion am yr uchod gweler Adran 5 ac Atodiad 3 o TAN 5. I gael rhagor o wybodaeth am nodweddion ACA/AGA a safleoedd Ramsar, ewch i wefan CNC: *www.naturalresourceswales.gov.uk*

### Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd CDLl Ceredigion



10.25 Cafodd adroddiad Sgrinio ARhC ei lunio ar gyfer CDLl Ceredigion (Cyngor Sir Ceredigion, 2013d). Daeth i'r casgliad nad yw CDLl Ceredigion, ar ei lefel strategol, yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safleoedd rhyngwladol yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

10.26 Fodd bynnag, wedi dweud hynny, nid yw'n dileu'r angen am asesiadau lefel prosiect (cais cynllunio) wrth i fwy o fanylion fod ar gael ar y cam hwn.

10.27 Os yw effeithiau posibl wedi codi yn dibynnu ar fanylion y dyblygiad a'i berthynas â safleoedd a neilltuwyd, mae hyn wedi cael ei amlygu o fewn

Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd Cyfrol 2 CDLl Ceredigion. Mae'r safleoedd a'r effeithiau posibl wedi'u nodi yn Nhabl 15 isod.

**Tabl 15: Safleoedd a neilltuwyd o fewn y CDLl lle y gall fod angen asesiad pellach. Mae'r gofynion a restrir yma yn rhai y gwyddys y bydd eu hangen er mwyn i Brawf o'r Effaith Arwyddocaol Debygol ARhC gael ei gynnal gan yr ALl. Gall fod angen cyflwyno rhagor o wybodaeth ar gyfer yr asesiad hwn a bydd angen gwybodaeth arall ar gyfer agweddau eraill ar asesu'r effaith ecolegol.**

| Safle a neilltuwyd | Effeithiau posibl penodol i'r safle | Sylwadau | Safle Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Pob safle a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth | **Colli cynefin** (colli cynefin cymudo ystlumod Barbestelle ac ystlumod pedol lleiaf a rhai safleoedd cyferbyn ag ACA Afon Teifi) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. Sicrhau clustogfa addas rhwng y datblygiad ac adfer y cynefin lle y bo'n briodol. | Pob safle. Yn arbennig, ACA Afon Teifi, ACA Bae Ceredigion, ACA Pen Llyn a'r Sarnau, ACA Coetiroedd Gogledd Sir Benfro ac ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd |
| | **Argaeledd dŵr** (gofynion tynnu dŵr anhysbys) | Trafodaethau a chytuno â CNC yn gynnar yn y broses. Gall fod angen arolygon. | |
| | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod a gofynion gollwng anhysbys) | Cynhyrchu a gweithredu Datganiad Polisi Cynllunio yn ogystal â SDCau. Trafodaethau a chytuno â CNC yn gynnar yn y broses. Gall fod angen arolygon. | |
| | **Aflonyddu** (Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi effeithiau posibl ar ddyfrgwn) | Dim hyrwyddo mynediad cyhoeddus i fannau a ddefnyddir gan ddyfrgwn. Goleuo ystyriol o ddyfrgwn. | |
| | **Gwaddodi atmosfferig** (o lygredd aer) | Asesiad ansawdd aer ac effaith ar asesiad safleoedd gwarchodedig | |
| Safleoedd a neilltuwyd ar gyfer estyn mwynau | **Colli cynefin** (MNA0201 - colli cynefin cymudo ystlumod Barbestelle ) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. | ACA Coetiroedd Gogledd Sir Benfro, |

| Safle a neilltuwyd | Effeithiau posibl penodol i'r safle | Sylwadau | Safle Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | **Ansawdd dŵr** (MNA0701 - llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | Cynhyrchu a gweithredu Datganiad Polisi Cynllunio yn ogystal â SDCau. | ACA Afon Teifi, ACA Bae Ceredigion, ACA Cors Caron, Ramsar Cors Caron |
| | **Gwaddodi atmosfferig** (o lygredd aer) | Asesiad ansawdd aer ac effaith ar asesiad safleoedd gwarchodedig | |
| safleoedd a neilltuwyd ar gyfer trafnidiaeth T2101 and T0301 | **Colli cynefin** (colli cynefin cymudo ystlumod pedol lleiaf a rhai safleoedd cyferbyn ag ACA) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. Sicrhau clustogfa addas rhwng y datblygiad ac adfer y cynefin lle y bo'n briodol. | ACA Pen Llyn a'r Sarnau, ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd ac ACA Cors Fochno a Dyfi Ramsar |
| | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | Cynhyrchu a gweithredu Datganiad Polisi Cynllunio yn ogystal â SDCau. | |
| | **Aflonyddu** (TO301) - effeithiau posibl ar ddyfrgwn) | Dim hyrwyddo mynediad cyhoeddus i fannau a ddefnyddir gan ddyfrgwn. Goleuo ystyriol o ddyfrgwn. | |
| Pob safle a neilltuwyd yn Aberaeron | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | ACA Bae Ceredigion |
| Pob safle a neilltuwyd ar gyfer tai yn Aberteifi | **Colli cynefin** (colli cynefin cymudo ystlumod Barbestelle ) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. | ACA Afon Teifi, ACA Bae Ceredigion ac ACA Coetiroedd Gogledd Sir Benfro |
| | **Argaeledd dŵr** (M0201 - gofynion tynnu dŵr anhysbys) | Trafodaethau â CNC yn gynnar yn y broses. Gall fod angen arolygon. | |
| | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | Cynhyrchu a gweithredu Datganiad Polisi Cynllunio yn ogystal â SDCau. | |
| | **Aflonyddu** (effeithiau posibl ar ddyfrgwn) | Dim hyrwyddo mynediad cyhoeddus i fannau a ddefnyddir gan ddyfrgwn. Goleuo ystyriol o ddyfrgwn. | |

| Safle a neilltuwyd | Effeithiau posibl penodol i'r safle | Sylwadau | Safle Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Pob safle a neilltuwyd at gyfer tai a defnydd cymysg yn Aberystwyth | **Colli cynefin** (colli cynefin cymudo ystlumod pedol lleiaf) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. | ACA Pen Llyn a'r Sarnau ac ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd |
| | **Argaeledd dŵr** (defnydd cymysg - gofynion tynnu dŵr anhysbys) | Trafodaethau â CNC yn gynnar yn y broses. Gall fod angen arolygon. | |
| | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod a materion carthffosiaeth lleol (H0301, H0302 a H0306)) | Cynhyrchu a gweithredu Datganiad Polisi Cynllunio yn ogystal â SDCau. Datrys problemau carthffosiaeth lleol. Gall fod angen arolygon. | |
| | **Aflonyddu** (H0304 ac M0303 - effeithiau posibl ar ddyfrgwn) | Dim hyrwyddo mynediad cyhoeddus i fannau a ddefnyddir gan ddyfrgwn. Goleuo ystyriol o ddyfrgwn. | |
| H0401 (Adpar) | **Colli cynefin** (colli cynefin cymudo ystlumod Barbestelle) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. | ACA Afon Teifi, ACA Coetiroedd Gogledd Sir Benfro |
| | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | |
| Pob safle a neilltuwyd ar gyfer tai yn Llanbedr Pont Steffan | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | Cynhyrchu a gweithredu Datganiad Polisi Cynllunio yn ogystal â SDCau. | ACA Afon Teifi |
| | **Aflonyddu** (effeithiau posibl ar ddyfrgwn) | Dim hyrwyddo mynediad cyhoeddus i fannau a ddefnyddir gan ddyfrgwn. Goleuo ystyriol o ddyfrgwn. | |
| H0601 (Llandysul) | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | ACA Afon Teifi |
| Pob safle a neilltuwyd yn Nhregaron | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | Cynhyrchu a gweithredu Datganiad Polisi Cynllunio yn ogystal â SDCau. | ACA Afon Teifi, ACA Bae Ceredigion, ACA Cors Caron, Ramsar Cors Caron |
| | **Aflonyddu** (H0701 ac M0701 - effeithiau posibl ar ddyfrgwn) | Dim hyrwyddo mynediad cyhoeddus i fannau a ddefnyddir | |

| Safle a neilltuwyd | Effeithiau posibl penodol i'r safle | Sylwadau | Safle Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | gan ddyfrgwn. Goleuo ystyriol o ddyfrgwn. | |
| Pob safle a neilltuwyd ar gyfer tai a defnydd cymysg yn Aberporth | **Colli cynefin** (colli cynefin cymudo ystlumod Barbestelle ) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. | ACA Bae Ceredigion ac ACA Coetiroedd Gogledd Sir Benfro |
| | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod a materion carthffosiaeth lleol (H0801, H0802, H0805 ac M0802)) | Cynhyrchu a gweithredu Datganiad Polisi Cynllunio yn ogystal â SDCau. Datrys problemau carthffosiaeth lleol. Gall fod angen arolygon. | |
| | **Gwaddod atmosfferig** (M0801 - o lygredd aer) | Asesiad ansawdd aer ac effaith ar asesiad safleoedd gwarchodedig | |
| Pob safle a neilltuwyd yn Bow Street | **Colli cynefin** (colli cynefin cymudo ystlumod pedol lleiaf) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. | ACA Pen Llyn a'r Sarnau, ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd |
| | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | |
| H1001 (Ceinewydd) | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | ACA Bae Ceredigion |
| Pob safle a neilltuwyd yng Nghenarth | **Colli cynefin** (colli cynefin cymudo ystlumod Barbestelle ) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. | ACA Bae Ceredigion, ACA Coetiroedd Gogledd Sir Benfro |
| | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | Cynhyrchu a gweithredu Datganiad Polisi Cynllunio yn ogystal â SDCau. | |
| | **Aflonyddu** (H1102 a H1103 - effeithiau posibl ar ddyfrgwn) | Dim hyrwyddo mynediad cyhoeddus i fannau a ddefnyddir gan ddyfrgwn. Goleuo ystyriol o ddyfrgwn. | |
| Pob safle a neilltuwyd yn Felinfach | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | ACA Bae Ceredigion |
| Pob safle a neilltuwyd yn Llanarth | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod a materion | SDCau i'w gweithredu a datrys problemau carthffosiaeth lleol. | ACA Bae Ceredigion |

| Safle a neilltuwyd | Effeithiau posibl penodol i'r safle | Sylwadau | Safle Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | carthffosiaeth lleol (H0301)) | Gall fod angen arolygon. | |
| H1401 (Llanilar) | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | ACA Pen Llyn a'r Sarnau |
| | **Aflonyddu** (effeithiau posibl ar ddyfrgwn) | Dim hyrwyddo mynediad cyhoeddus i fannau a ddefnyddir gan ddyfrgwn. Goleuo ystyriol o ddyfrgwn. | |
| Pob safle a neilltuwyd ar gyfer tai yn Llanon | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | ACA Bae Ceredigion |
| Pob safle a neilltuwyd yn Llanrhystud | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | ACA Bae Ceredigion |
| H1801 (Penrhyncoch) | Colli cynefin (colli cynefin cymudo ystlumod pedol lleiaf) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. | ACA Pen Llyn a'r Sarnau ac ACA Coedydd a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd |
| | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | |
| Pob safle a neilltuwyd ym Mhontrhydfen-digaid | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | Cynhyrchu a gweithredu Datganiad Polisi Cynllunio yn ogystal â SDCau. | ACA Coedydd a Cheunant Rheidol ac ACA Pen Llyn a'r Sarnau |
| | **Aflonyddu** (effeithiau posibl ar ddyfrgwn) | Dim hyrwyddo mynediad cyhoeddus i fannau a ddefnyddir gan ddyfrgwn. Goleuo ystyriol o ddyfrgwn. | |
| Pob safle a neilltuwyd yn Nhalybont | **Colli cynefin** (colli cynefin cymudo ystlumod pedol lleiaf) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. | ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd |
| | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | |
| Pob safle a neilltuwyd yn y Borth | **Colli cynefin** (colli cynefin cymudo ystlum pedol lleiaf) | Cadw coed a gwrychoedd / arolwg ystlumod a goleuo ystyriol o ystlumod. | ACA Pen Llyn a'r Sarnau, ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd |
| | **Ansawdd dŵr** (llygredd/dŵr-ffo gwaddod) | SDCau i'w gweithredu | |

10.28 Bydd rhaid i hap-safleoedd sy'n cael eu datblygu ystyried a all eu cynnig gael effaith ar unrhyw un o'r safleoedd. Gall yr wybodaeth o fewn yr Adroddiad Sgrinio ARhC roi ychydig o arweiniad ar ble y dylai effeithiau gael eu hystyried.

# 11Datblygu a Ganiateir ac Adeiladau Rhestredig

## 11.1 Gorchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir

11.1.1 Nid yw datblygu a ganiateir yn dileu'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth bywyd gwyllt ac felly, er na fydd angen cais cynllunio o bosib, gall fod angen cyngor ecolegol, arolygon a thrwyddedau o hyd.

### Gorchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ac ACA/AGA/Ramsar

11.1.2 Mae Rheoliad 73 o Reoliadau Cynefinoedd yn gosod amod ar bob datblygiad a ganiateir sy'n cael caniatâd cynllunio o dan Orchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir i sicrhau nad yw unrhyw ganiatâd a roddir o dan Orchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn groes i delerau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae rhagor o wybodaeth ar ddatblygu a ganiateir a Safleoedd Gwarchodedig i'w gweld yn TAN 5.

### Gorchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ac AEA

11.1.3 Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2011 Rhan IX Rheoliad 35(3) yn diwygio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 i, ar gyfer datblygiadau Atodlen 1 a 2 (o Reoliadau'r AEA) (Datblygiadau AEA), ddileu hawliau Gorchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir hyd nes bod yr ALl yn rhoi ei farn ar y datblygiad arfaethedig a'i fod yn ddatblygiad AEA, ac felly mae angen Datganiad Amgylcheddol. Os yw'r ALl yn penderfynu bod y datblygiad yn Ddatblygiad AEA yna bydd rhaid i'r datblygiad gael cais cynllunio llawn gan gynnwys Datganiad Amgylcheddol, ac ni fydd yn cael ei ystyried yn ddatblygiad a ganiateir mwyach.

### Gorchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir a Rhywogaethau a warchodir ac â Blaenoriaeth

11.1.4 Gallai rhai mathau o waith o dan Orchmynion Datblygu Cyffredinol a Ganiateir gael effaith ar rywogaethau a warchodir ac â blaenoriaeth. Gallai effaith arbennig fod yn waith sy'n effeithio ar/yn agos at doeon, blocio bondo, clirio prysgwydd, solar ffotofoltäig integredig ac ati. Rhaid i geiswyr gymryd cyfrifoldeb llawn am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bywyd gwyllt a cheisio cyngor a thrwyddedau os oes angen gan CNC. Os yw Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop yn cael ei heffeithio efallai y bydd angen cais llawn.

11.1.5 Mae cyngor pellach ar ystlumod i'w weld yn nhaflenni Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, 'Bats and buildings' (2012), 'Bats and Lighting in the UK'(2009) a 'Bats and trees' (2010).



### Hysbysiad ymlaen llaw ar gyfer dymchwel

11.1.6 Os yw ceisiadau'n cael eu cyflwyno ar gyfer 'Hysbysiad Ymlaen Llawn' ar gyfer dymchwel, gall y dull o ddymchwel yr adeilad

gael effaith ar rywogaeth a warchodir ac â blaenoriaeth. Felly, bydd yr ALl yn gofyn am Arolwg ac Asesiad Bioamrywiaeth ac Arolwg Coed lle y bo'n berthnasol.

## 11.2 Caniatâd Adeilad Rhestredig

11.2.1 Gall fod angen i geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig gyflwyno Arolwg ac Asesiad Bioamrywiaeth gyda'u cais. Dylid ymgynghori â'r ALl i benderfynu pryd fydd angen gwneud hyn.

11.2.2 Gallai effaith gwaith ar adeiladau rhestredig gynnwys cau'r bylchau ar gyfer mynediad ystlumod drwy newidiadau i'r soffitiau, gwaith i ffenestri ac ati, aflonyddu/dinistrio adar nythu, symud llystyfiant a ddefnyddir gan adar/ystlumod/ymlusgiaid ac ati.

## 11.3 Rheolaeth Adeiladu

11.3.1 Gall gwaith lle mae angen Cymeradwyaeth Rheolaeth Adeiladu ofyn am arolwg Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop os oes posibilrwydd o effaith ar Rywogaeth a Warchodir gan Ewrop, e.e. croen anadladwy a chladin allanol ac ystlumod.

# 12. Mathau o Ddatblygiadau ac Astudiaethau Achos

12.1 Bydd gofynion yn amrywio yn dibynnu ar y math o ddatblygiad, maint, lleoliad, cynefin a'r cynefin cyfagos, rhywogaethau hysbys a datblygiadau eraill yn yr ardal, felly mae'n anodd rhoi cyngor cyffredinol ar beth sydd ei angen ar ddatblygiadau o ran arolygon a lliniaru ac ati. Mae Adran 6 a 7 yn rhoi ychydig o wybodaeth gyffredinol. Yn ogystal, mae disgrifiad byr isod o'r materion sy'n debygol o gael eu hwynebu ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiad.

## 12.2 Datblygiadau deiliad tŷ a thir llwyd (gan gynnwys dymchwel)

### Ystlumod

12.2.1 Y pwnc ecolegol mwyaf cyffredin sy'n codi gyda datblygiadau deiliad tŷ a thir llwyd yw'r posibilrwydd o ystlumod yn clwydo yn yr adeiladau a effeithir neu adeilad sydd union wrth ei ochr a allai gael ei flocio gan y datblygiad newydd neu yn ystod ei adeiladu. Mae Cymru yn gartref i 16 rhywogaeth o ystlumod mewn nifer o gynefinoedd, gan gynnwys safleoedd achlysurol, mamolaeth a gaeafgysgu a elwir yn glwydfan. O'r 16 rhywogaeth hyn o ystlum, mae hyd at 10 yn cael eu cofnodi'n gyson yn ardal Ceredigion. Mae ystlumod yn cael eu diogelu o dan Atodlen 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), yn ogystal ag o dan Atodlen 2 o'r Rheoliadau Cadwraeth Rhywogaethau a Chynefinoedd 2010 (fel y'i diwygiwyd), ac felly gall achosi difrod i glwydfan ystlumod neu ladd, anafu neu aflonyddu ar ystlumod fod yn drosedd.

12.2.2 Fodd bynnag ni ddylai deiliaid tŷ boeni am bresenoldeb ystlumod yn eu heiddo. Er eu bod nhw wedi'u diogelu gan y Gyfraith Ewropeaidd, yn y rhan fwyaf o achosion, mae ceisiadau lle mae ystlumod yn bresennol yn cael eu cymeradwyo heb fawr o amharu ar eu cynlluniau a'r gost. Os ydych yn poeni am ystlumod yn eich adeilad, mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod am fyw gydag ystlumod, 'Living with Bats' (BCT, 2013).

12.2.3 Bydd ystlumod yn clwydo neu'n gorffwys o fewn soffitiau, bondo, croglofftydd ac o dan deils a hyd yn oed o fewn eiddo [segur]. Byddant yn defnyddio unrhyw eiddo sy'n addas o ran goleuni, cysgod, tymheredd, aflonyddu, mynediad a chynefin cyfagos, sydd felly yn gallu cynnwys eiddo ac adeiladau modern â thoeon gwrymiog (os oes trawstiau/cynhalwyr pren addas a chysgod). Am ragor o wybodaeth, gweler 'Bats and buildings' (BCT, 2012).



12.2.4 Felly mae arolygon ystlumod (cwmpasu o leiaf) yn debygol o fod yn ofynnol ar gyfer y rhan fwyaf o estyniadau/addasiadau/dymchweliadau (gan gynnwys ceisiadau hysbysiad ymlaen llaw) ac ati. Mewn gwirionedd gallai unrhyw beth sy'n cynnwys dymchwel adeilad neu sy'n effeithio ar y to, soffitiau, bondo, yn blocio mynediad posibl arall, yn effeithio ar oleuo a thymheredd yr adeilad ac ati, gael effaith ar ystlumod, ac felly cânt eu sgrinio. Mae adeileddau megis mynedfeydd mwyngloddiau, adfeilion ac adeileddau cerrig eraill ac ogofâu hefyd yn cael eu defnyddio fel clwydfannau, ond mae'r rhain yn fwy tebygol o fod yn glwydfannau gaeafgysgu. Gweler Tabl 3 Adran 6 am ragor o wybodaeth.

12.2.5 Mae ystlumod hefyd yn clwydo mewn coed ond trafodir hyn isod yn 'Datblygiadau o fewn/yn agos at Goetiroedd, Coed a Gwrychoedd' ond mae'n debygol o fod yn ystyriaeth pan fydd coed yn agos at adeiladau neu gallant gael eu heffeithio gan newidiadau i fynediad/symud ar gyfer adeiladau.



12.2.6 Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn datgan ei bod hi'n hanfodol bod presenoldeb neu fel arall rhywogaeth a warchodir ac i ba raddau y gallai gael ei heffeithio gan ddatblygiad arfaethedig yn cael ei sefydlu cyn rhoi unrhyw ganiatâd cynllunio. Fel arall mae'n bosib na fydd yr holl ystyriaethau perthnasol yn cael sylw wrth wneud penderfyniad.

12.2.7 Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r awdurdod lleol gael digon o wybodaeth i ddiystyru unrhyw effaith y mae'r datblygiad yn ei chael ar rywogaeth a warchodir (ystlumod yn yr achos hwn) cyn y gall wneud ei benderfyniad. Yn yr un modd â gofynion arolygon eraill ar gyfer cynllunio, cyfrifoldeb y ceisydd yw darparu'r wybodaeth hon.

12.2.8 Mae rhagor o wybodaeth am ofynion arolwg ystlumod i'w gweld yn y nodyn cyfarwyddyd ar wahân 'Ystlumod a Datblygu' (Cyngor Sir Ceredigion,, 2014a) sydd ar gael ar wefan yr ALl [www.ceredigion.gov.uk](www.ceredigion.gov.uk).

12.2.9 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhywogaethau sy'n cael eu canfod o fewn datblygiadau deiliad tŷ yn arbennig yn gyffredin i Geredigion a dim ond y gofynion lleiaf sy'n weithredol. Er enghraifft, mae nifer o'r eiddo sy'n dod trwyddo yn glwydfannau dydd (yn cynnal un neu lai o unigolion) a goblygiadau posibl hyn fydd dim ond un neu ddwy deilsen ystlumod (teils sy'n caniatáu mynediad i ystlumod oddi dano ond nid ydynt yn effeithio ar adeiledd y to) neu fynediad wedi'i dorri i mewn i'r soffitiau ac ati, a rhai goblygiadau o ran amseru gwaith.

12.2.10 Yn bur anaml, mae rhywogaethau llai cyffredin yn cael eu canfod neu glwydfannau mamolaeth o rywogaeth arbennig. Gall fod angen cynllun mwy cymhleth sy'n cynnwys mynediad i groglofftydd neu ddatblygu tŷ ystlumod ar wahân. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn y nodyn canllaw ar wahân 'Ystlumod a Datblygu.

12.2.11 Os yw ystlumod yn clwydo ac yn fforio, bydd rhaid i unrhyw oleuo ychwanegol i adeilad neu o gwmpas adeilad, maes parcio ac ati sicrhau ei fod yno dim ond os yw'n angenrheidiol, llai na 3 lux â chwfl ac yn pwyntio i lawr, i ffwrdd o unrhyw fannau mynediad posibl yn enwedig. Dylai'r goleuadau hefyd fod ar amseryddion a dim mwy na 2.5m o'r ddaear ger pwyntiau mynediad. Ni ddylai fod unrhyw lifoleuadau a bydd adeiladu yn y nos yn debygol o gael ei wahardd. Os nad oes unrhyw ystlumod wedi'u cofnodi, ond mae ystlumod yn debygol o fforio, disgwylir y gofynion goleuo hyn hefyd. Gweler taflen yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod 'Bats and lighting yn y DU' (2009) i gael rhagor o wybodaeth.

12.2.12 Ar gyfer yr holl waith sy'n effeithio ar ystlumod bydd angen cael Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop gan CNC, oni bai y gellir profi bod modd gwneud y gwaith o dan yr egwyddor Swyddogaeth Ecolegol Barhaus (wedi'i bennu drwy ymgynghori â CNC). Bydd rhaid i'r holl fesurau lliniaru/digolledu gael eu cynnwys o fewn y cynlluniau a bydd rhaid i'r cynnig gael ei gymeradwyo gan CNC cyn y gellir rhoi caniatâd cynllunio. Mae hyn oherwydd bod dyletswydd ar yr ALl i roi sylw i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd gyda'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd), ac felly mae angen sicrhau bod modd bodloni'r 3 phrawf cyn cymeradwyo cynllun (gweler Adran 8 ar drwyddedau rhywogaethau i gael rhagor o wybodaeth).

12.2.13 Sylwch, os ystyrir nad yw'n rhesymol i ofyn am arolwg, nid yw'n golygu na fydd ystlumod yn bresennol. Os yw ystlumod yn cael eu canfod yn ystod datblygiad, mae'n hollbwysig cofio eu bod nhw dal yn rhywogaeth a warchodir ac mae'n drosedd i aflonyddu arnynt. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn y nodyn cyfarwyddyd ar wahân 'Ystlumod a Datblygu' (Cyngor Sir Ceredigion, 2014a).



12.2.14 Mae ystlumod yn rhywogaeth hawdd i ddarparu gwelliannau ar eu cyfer o fewn datblygiad/ailddatblygiad. Mae amryw o fesurau gwahanol y gellir eu defnyddio o'r teils ystlumod a nodwyd eisoes, briciau ystlumod y gellir eu cynnwys wrth adeiladu, neu greu cynefin fforio. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn y nodyn cyfarwyddyd ar wahân 'Ystlumod a Datblygu' (Cyngor Sir Ceredigion, 2014a).

12.2.15 Mae'r effaith bosibl ar ystlumod o baneli ffotofoltäig solar integredig wedi'i chynnwys o dan 'Cadwraeth Natur ac Araeau Ffotofoltäig Solar' (gweler Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy ar dudalen 74 isod).

**Tylluanod gwynion ac adar bridio eraill**

12.2.16 Mater arall posibl y gallai datblygwyr ddod ar ei draws mewn datblygiad/dymchwel deiliad tŷ yw adar bridio. Mae adar (yn ogystal â'u nythod a'u hwyau) wedi'u diogelu o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae hyn yn ei gwneud hi'n drosedd i ddifrodi neu ddinistrio'n fwriadol neu'n ddi-hid nyth adar actif neu unrhyw ran ohoni. Mae'r adar a restrir yn Atodlen 1 y Ddeddf hon yn cael diogelwch ychwanegol. Cânt eu diogelu ymhellach gan ei gwneud hi'n drosedd i:

- **aflonyddu** ar aderyn o'r fath pan fydd yn adeiladu ei nyth neu tra ei fod yn, ar neu wrth ymyl nyth sy'n cynnwys wyau neu rai ifanc; neu
- **aflonyddu** ar rai ifanc dibynnol aderyn o'r fath, yn fwriadol neu'n ddi-hid.

12.2.17 Bydd adar yn nythu o fewn adeiladau mewn croglofftydd, soffitiau, simneiau ac ati ac o fewn adeiladau neu byrth segur neu lai o ddefnydd ac ati, yn ogystal ag ar ochr adeiladau.



12.2.18 Yn ddelfrydol dylai unrhyw waith sy'n cael ei wneud lle y gallai adar bridio gael eu heffeithio gael ei wneud y tu allan i'r tymor bridio adar. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl ac os yw'r risgiau yn isel, dylid cwblhau'r gwaith ar ôl dangos drwy gyfrwng arolwg nythu adar gan ecolegydd â chymwysterau addas nad oes unrhyw adar nythu ar y safle yn union cyn i'r gwaith ddechrau. Dylai'r arolwg hwn gael ei gyflwyno a'i gytuno gan yr ALl. Os yw adar yn cael eu canfod, bydd rhaid i waith gael ei atal nes bod yr adar wedi gorffen bridio. Mewn rhai achosion, e.e. os oes risg uwch neu os oes nythod y gwyddys amdanynt, gall fod amodau ar y gwaith a rhaid ei gwblhau y tu allan i dymor bridio adar.

12.2.19 Bydd rhaid digolledu ar gyfer colli cynefin o ran mynediad i soffitiau neu flychau adar. Mae'r rhain hefyd yn nodweddion y gellid eu defnyddio fel gwelliannau.



12.2.20 Mewn rhai achosion, gallai rhywogaethau adar prinnach/a warchodir gael eu heffeithio a gall fod angen arolwg bridio adar. O bwysigrwydd arbennig o ran adeiladau yw'r dylluan wen (rhywogaeth Atodlen 1). Mae posibilrwydd ar gyfer y rhain mewn ysguboriau ac adeiladau gwag ac mae arolygon tylluan wen ar gyfer y rhain yn debygol o fod yn ofynnol. Gall arolygon fod yn ofynnol hefyd os yw'n debygol y bydd adar yn nythu ac mae angen gwneud gwaith yn nhymor bridio adar.

12.2.21 Mae mesurau lliniaru a digolledu ar gyfer tylluanod gwynion yn cynnwys darparu safleoedd nythu/clwydo addas eraill (dros dro a pharhaol), osgoi cael effaith uniongyrchol ar y dylluan wen (gan gynnwys rhai ifanc ac wyau) drwy amseru gwaith yn y briodol, cadw/creu adnoddau cynefin hela a chysylltedd rhwng y rhain a safleoedd nythu.

12.2.22 Pan fydd yn addas, gall gwelliannau tylluan wen gael eu darparu drwy ddarparu cyfleoedd nythu addas (mewn lleoedd priodol) a chreu cynefin hela neu gysylltedd rhyngddo a safleoedd nythu.

**Safleoedd tir llwyd eraill**

12.2.23 Gallai datblygiad ar safleoedd sy'n fwy na dim ond adeilad yn cael ei ddymchwel gael goblygiadau i ymlusgiaid, amffibiaid, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, adar bridio, ystlumod a phlanhigion is, e.e. os yw llystyfiant yn cael ei glirio.



12.2.24 Mae ceisiadau yn debygol o fod angen o leiaf chwiliad dinistrio a mesurau trin cynefin er mwyn atal anafu/lladd ymlusgiaid ac amffibiaid ac efallai y bydd angen gwneud gwaith y tu allan i dymor bridio adar. Bydd cynefin digolledu yn ofynnol.

12.2.25 Yn dibynnu ar y safle a'r gwaith a gynigir, gallai fod angen arolygon ymlusgiaid, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, amffibiaid, adar bridio, ystlumod a phlanhigion is. Efallai y bydd angen trawsleoli planhigion is prin neu gynefin ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn-cefn neu osgoi'r ardal.

12.2.26 Mae gwelliannau'n cynnwys waliau cerrig a phentyrrau o gerrig, plannu llystyfiant, pyllau a blychau adar/bygiau.

## 12.3 Datblygiadau arfordirol a morol

12.3.1 Bydd angen i ddatblygiad o fewn yr ardal arfordirol a morol ystyried, ymhlith pethau eraill, y canlynol:



- Yr effaith ar safleoedd gwarchodedig morol, morydol ac arfordirol gan gynnwys ACAau Bae Ceredigion a Phen Llŷn a'r Sarnau
- Effeithiau ar brosesau arfordirol gan gynnwys erydiad arfordirol, gwasgu arfordirol, prosesau twyni ac ati.
- Polisïau, cynlluniau a phrosiectau i reoli'r arfordir

- Effeithiau ar rywogaethau morol a rhywogaethau arfordirol sy'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r isod:
    - Dyfrgwn gan gynnwys colli cynefin, goleuo, aflonyddu ac ati.
    - Morloi gan gynnwys aflonyddu adeg geni morloi bach a safleoedd gorffwys
    - Dolffiniaid a llamhidyddion gan gynnwys sŵn sy'n aflonyddu yn ystod adeiladu
    - Adar bridio a chlwydo gan gynnwys aflonyddu gweledol a sŵn
    - Difrod i gynefinoedd arfordirol sensitif megis rîff Sabellaria a morfa heli

12.3.2 Nid yw hon yn rhestr gyflawn ond mae'n rhoi enghraifft o'r ystyriaethau ar gyfer datblygiadau yn yr ardaloedd hyn.

12.3.3 Mae gwelliannau yn debygol iawn o fod fesul achos ar gyfer datblygiadau o'r fath.

## 12.4 Datblygiadau glan afon a datblygiadau eraill ger nodweddion dŵr

12.4.1 Bydd angen i ddatblygiadau yn agos at afonydd a nodweddion dŵr eraill ystyried, ymhlith pethau eraill, y canlynol:

- Llygredd yn ystod adeiladu a defnydd
- Effeithiau ar
    - ddyfrgwn gan gynnwys colli cynefin, goleuo, aflonyddu ac ati
    - ystlumod gan gynnwys colli llystyfiant, goleuni a tharfu arnynt
    - prosesau afonydd gan gynnwys addasiadau ffisegol i sianeli
    - llygod y dŵr gan gynnwys dinistrio cynefin, anafu/lladd ac ati
    - amffibiaid ac ymlusgiaid gan gynnwys dinistrio cynefin, anafu/lladd ac ati
    - safleoedd gwarchodedig afonol a gwlypdir e.e. ACA a SoDdGA Afon Teifi

12.4.2 Bydd angen clustogfa o 7m o leiaf rhwng y datblygiad a'r holl wlypdiroedd a dŵr sy'n llifo. Nid yw darparu ceuffos yn cael ei ystyried yn gynnig derbyniol. Gallai SDCau gael eu cynnal ar y safle i ddelio â gormod o ddŵr wyneb (gweler CDLL Ceredigion, Canllawiau Cynllunio Atodol: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio i gael rhagor o wybodaeth). Bydd angen cadw goleuo i oleuadau â chwfl sy'n wynebu i lawr a dim llifoleuadau.



12.4.3 Gall fod angen Datganiad Atal Llifogydd[41] ar gyfer datblygiadau sydd o fewn 1km o nodwedd dŵr yn dibynnu ar sensitifrwydd y safle a natur a graddfa'r datblygiad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i safleoedd ger ACA Afon Teifi lle mae'n debyg y bydd angen cynnal Prawf o'r

[41] Gweler www.gov.uk ar gyfer Canllawiau Polisi Cynllunio 5 Atal Llygredd

Effaith Arwyddocaol Debygol ar gyfer ceisiadau, gan gynnwys estyniadau a datblygiadau bach eraill.

12.4.4 Gallai fod yn ofynnol i unrhyw waith a gynigir mewn, o dan, dros neu ar gwrs ddŵr sy'n debygol o effeithio ar y llif o fewn cwrs dŵr gael Cydsyniad Cwrs Dŵr Cyffredin a/neu Gydsyniad Draenio Tir gan yr ALI (Pennaeth Asedau a Gwasanaethau Trafnidiaeth - Llifogydd a'r Arfordir) yn unol â Deddf Draenio Tir 1991.

12.4.5 Dylai unrhyw gynnig gael ei drafod â'r ALI cyn dechrau er mwyn penderfynu a fydd Cydsyniad Cwrs Dŵr Cyffredin a/neu Gydsyniad Draenio Tir yn ofynnol ar gyfer y cynnig. Bydd hefyd yn sicrhau bod y gwaith arfaethedig yn cael ei asesu i sicrhau nad yw'n gwaethygu problem llifogydd sydd eisoes yn bod, ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd, pysgodfeydd a bywyd gwyllt lleol.

12.4.6 Y tirfeddiannwr sydd â'r prif gyfrifoldeb am gadw cyrsiau dŵr yn glir o unrhyw rwystr (naill ai dros dro neu barhaol), a fyddai'n atal y llif arferol o ddŵr, naill ai ar ei dir neu i lawr yr afon. Dylai unrhyw waith gael ei wneud mewn ffordd na fydd yn achosi llygredd, gwyro sy'n effeithio ar hawliau eraill neu a fyddai'n atal llif rhydd pysgod.

12.4.7 Bydd rhaid i unrhyw geisiadau sy'n effeithio ar gyrff dŵr gydymffurfio â'r Polisïau Cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru (rhifyn 6, Llywodraeth Cymru 2014) a Chynllun Datblygu Lleol Polisi DM22: Gwarchod a Gwella'r Amgylcheddol yn Gyffredinol, yn ogystal â Pholisïau perthnasol eraill DM10, DM14 a DM15.




12.4.8 Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau yn cynnwys rheolaeth gadarnhaol o ymylon/gwlypdir afon/dŵr, plannu coed, creu gwâl dyfrgwn, creu pwll a dulliau wedi'u cyfuno mewn SDCau.

**12.5 Datblygiadau o fewn/yn agos at Goed, Gwrychoedd a Choetiroedd**

12.5.1 Bydd angen i ddatblygiadau o fewn neu'n agos at goetiroedd, coed a gwrychoedd ystyried, ymhlith pethau eraill, y canlynol:

- Aflonyddu/dadleoli rhywogaethau o adar coetiroedd ac ymyl coetiroedd, gan gynnwys y barcud coch o fewn 650m
- Effeithiau ar fflora ar y tir gan gynnwys damsgen, dadwreiddio, erydu a llygredd
- Effeithiau ar blanhigion di-fasgwlaidd lle y gallant gael eu lleoli mewn fflora ar y tir, pren marw a choed
- A oes angen symud unrhyw goed neu a fyddant yn cael eu heffeithio ac a oes Gorchymyn Cadw Coed arnynt

- Effeithiau ar ystlumod sy'n clwydo, fforio a chymudo gan gynnwys aflonyddu gan oleuadau, dinistrio clwydfannau, bwyd a choridorau
- Effeithiau ar foch daear, gan gynnwys dinistrio setiau, lladd/anafu ac aflonyddu (dylid chwilio am setiau actif o fewn 30m o'r gwaith)
- Effeithiau ar ddyfrgwn (safleoedd bridio/gorffwys)
- Effeithiau ar bathewod gan gynnwys colli cynefin, coridorau, aflonyddu a lladd/anafu
- Symud 'gwrychoedd pwysig' (yn ôl Rheoliadau Gwrychoedd 1997)

12.5.2 Dylai'r Arolwg Topograffigol ddangos pob coeden, trwch o lwyni, gwrychoedd ac ati.[42] Dylid cynllunio clustogfa o 5m o leiaf o'r coetiroedd yn unrhyw safle ac 1m o fanciau gwrychoedd. Bydd pellter clustogfa coed yn dibynnu ar eu hardal gwarchod gwreiddiau. Pan ddisgwylir i goed gael eu cwympo neu gallant gael eu heffeithio drwy gywasgu pridd, difrod i'r gwreiddiau, trin coed yn ystod datblygiad neu yn nes ymlaen ac ati, naill ai ar y safle neu ran o'r mynediad neu gyferbyn â'r safle, dylai Arolwg Coed gael ei gyflwyno yn unol â gofynion cenedlaethol.

12.5.3 Bydd rhaid i'r Arolwg Coed gael ei gynnal yn unol â'r Safonau Prydeinig ar gyfer Coed mewn perthynas â Dylunio, Dymchwel ac Adeiladu (BS5837:2012) (BSI, 2012) ac yn yr un modd ag arolygon bioamrywiaeth, dylid eu cynnal cyn bod dyluniadau penodol wedi cael eu llunio. Fel rhan o'r Adroddiad Arolwg Coed, dylai Cynllun Cyfyngiadau Coed gael eu cynhyrchu (a'u defnyddio i lywio'r dyluniad). Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw goed[43] gan gynnwys cyflwr y rhywogaeth, uchder, diamedr ac ati, man diogelu gwreiddiau, lledaeniad y goron a chysgodi. Dylai gwybodaeth ar uchafswm uchder tebygol y coed gael ei darparu hefyd. Dylai'r wybodaeth berthnasol gael ei chynnwys ar y cynllun.




12.5.4 Pan fydd y dyluniadau wedi cael eu paratoi, dylai Datganiad Dull Coedyddiaeth a Chynllun Diogelu Coed gael eu paratoi gyda manylion am y coed a allai gael eu heffeithio drwy adeiladu'r datblygiad (gan gynnwys lleoliad yr adeilad, sylfeini, cloddiadau, cywasgu pridd a sgaffaldwaith), sy'n debygol o gael eu heffeithio ar ôl y datblygiad (symud coed oherwydd eu bod yn agos i'r tai ac ati) y bwriedir eu symud. Yn achos y rhai sy'n cael eu cadw dylid rhoi manylion am y dulliau a ddefnyddir i'w diogelu. Bydd angen rhoi manylion am y coed gaiff eu rhoi yn eu lle hefyd gan gynnwys amserlenni plannu.

[42] Cymal 4.1.5 o BS5837 (BSI, 2012)

[43] Gall coed o dan ddiamedr o 75mm (sy'n mesur 150cm o'r sylfaen) gael eu cofnodi o ran lleoliad a rhywogaeth a nodir, dylai pob un arall gael arolwg llawn.

12.5.5 Bydd rhaid cyflwyno'r Arolwg Coed, Cynllun Diogelu Coed a'r Datganiad Dull Coedyddiaeth[44] gyda'r cais (lle y bo'n briodol) ynghyd â chynllun o'r datblygiad sy'n cynnwys yr wybodaeth am y coed sydd i'w cadw, pa rai sydd i'w symud ac unrhyw goed newydd i'w plannu. Gellir gosod amodau ar wybodaeth e.e. y Datganiad Dull Coedyddiaeth a'r Cynllun Diogelu Coed.

12.5.6 Dylai pob coeden gael ei chadw ar y safle os oes modd. Dylai dyluniadau gael eu seilio ar osgoi effaith ar goed (gan gynnwys mannau gwarchod gwreiddiau ac ati) ac effaith yn y dyfodol (e.e. yr angen i symud coed oherwydd yr effaith ar annedd).

12.5.7 Os oes angen symud coed, yn unol â Pholisi DM20: Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd, dylai'r rhywogaethau sy'n cael eu disodli fod yr un fath neu'n gymysgedd gwell (oni bai eu bod yn estron ac felly dylai'r coed sy'n cael eu plannu yn eu lle fod yn goed brodorol) neu eu trawsleoli lle y bo'n bosibl. Disgwylir digolledu'n llawn ar gyfer coed a gollir. Oherwydd yr oedi yn yr amser sydd ei angen i goed dyfu, bydd rhaid i'r coed sy'n cael eu plannu fodloni diamedr uchder brest cyffredinol[45] y coed sydd i'w colli. Er enghraifft, os yw tair coeden sy'n mesur 230mm, 300mm a 170mm i'w symud, mae'n rhoi cyfanswm o 700mm. Felly, bydd angen plannu coed sy'n rhoi cyfanswm o 700mm, e.e. 5 coeden 150mm (talgrynwch bob tro).

12.5.8 Fel yr amlinellir yn y rheswm a'r cyfiawnhad dros Bolisi DM20 y Cynllun Datblygu Lleol, ni fydd yn dderbyniol diddymu rhai coed oherwydd y gwerth sydd iddynt o ran amwynderau, y dirwedd neu gadwraeth natur, ni waeth faint o goed a gâi eu cynnig i wneud iawn amdanynt. Felly gellir gwrthod rhoddi caniatâd cynllunio os nad oes modd cynhyrchu dyluniadau gwahanol.

12.5.9 Bydd rhaid i unrhyw geisiadau sy'n effeithio ar goed gydymffurfio â'r Polisïau Cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru (rhifyn 6, Llywodraeth Cymru 2014) a Chynllun Datblygu Lleol Polisi DM20: Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd, yn ogystal â Pholisïau perthnasol eraill DM10 a DM15 a'r Safonau Prydeinig BS5837:2012 (BSI, 2012).



12.5.10 Yn gyffredinol, dylid cymryd yn ganiataol y bydd adar yn nythu mewn coed, coetiroedd a gwrychoedd yn ystod y cyfnod bridio craidd (Mawrth - Awst) oni bai bod arolwg wedi dangos nad dyma'r achos cyn i'r gwaith ddechrau. Dylid nodi, fodd bynnag, hyd yn oed gydag arolwg, gall adar symud mewn cyn bod gwaith wedi'i gwblhau ac felly, os bydd hyn yn arwain at drosedd[46], bydd yn ofynnol i'r gwaith ddod i ben nes bod yr adar wedi gorffen nythu

[44] Gellir eu darparu nhw i gyd o fewn yr un adroddiad
[45] Mesur 150cm o'r gwaelod. Dylid mesur coed aml-gyff o fflêr y gwreiddiau.
[46] Adran 1 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

ac mae'r rhai ifanc i gyd wedi magu plu ac nid ydynt yn ddibynnol mwyach.

12.5.11 Gall unigolyn awdurdodedig (h.y. rhywun sydd â chydsyniad ysgrifenedig neu'r perchennog neu'r meddiannwr) gwympo neu docio coeden beryglus er mwyn diogelu iechyd a diogelwch cyhoeddus. Pe byddai adar Atodlen 1(3)[47] yn cael eu heffeithio, yna bydd angen cael trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Yn yr un modd mae angen trwydded hefyd ar gyfer gwaith coed y pennir ei fod yn angenrheidiol am resymau heblaw iechyd a diogelwch.

12.5.12 Mae'n bosibl na fydd anafu, lladd neu aflonyddu aderyn gwyllt yn ddamweiniol o ganlyniad i waith coed cyfreithlon yn drosedd, ar yr amod y gellir dangos na fyddai wedi bod yn rhesymol i osgoi'r niwed.

12.5.13 Os yw coed yn debygol o gael eu heffeithio, bydd angen asesiad ecolegol o'r coed er mwyn penderfynu a oes cyfle i ystlumod glwydo yno. Yn dibynnu ar ganlyniadau'r asesiad hwn a manylion y datblygiad, gall fod angen gwneud gwaith arolygu pellach. Gweler y nodyn cyfarwyddyd ar wahân 'Ystlumod a Datblygu' ar wefan yr ALl www.ceredigion.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.

12.5.14 Gallai gwelliannau o fewn coetiroedd olygu rheolaeth gadarnhaol megis coedlannu neu osod blychau ystlumod ac adar.

## 12.6 Datblygiadau ar yr ucheldir

12.6.1 Un o'r prif faterion i'w hystyried yn achos safleoedd ar yr ucheldir yw'r effaith bosibl ar fawn. Mae Polisi DM22 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol yn cynnwys gofyniad i ddiogelu ac os yw'n briodol i wella gwasanaethau ecosystem. Ymhlith y gwasanaethau y mae ecosystemau'n eu cynnig yn ardaloedd mawnog yr ucheldir mae; storio carbon, gweithredu fel dalfa garbon, storio dŵr, tystiolaeth o hanes y llystyfiant a thystiolaeth archeolegol. Gall fod angen tyllu'r pridd i benderfynu a oes mawn dwfn (>0.5m) ynddo ai peidio, a gall fod angen mesurau lliniaru/gwneud iawn addas. Os rhagwelir y byddai effeithiau arwyddocaol ar yr adnoddau mawn naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gellir gwrthod y cais.



12.6.2 Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys safleoedd gwarchodedig ar yr ucheldir, adar sy'n nythu ar y ddaear, rhostiroedd ar yr ucheldir a chynefinoedd pwysig eraill.

12.6.3 Gellir gwneud gwelliannau drwy adfer mawn, adfer rhostir, newid trefniadau pori, blocio ffosydd (mewn lleoedd priodol) ac ati.

[47] O Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

**12.7 Glaswelltir ac amaethyddiaeth**

12.7.1 Mae tir pori a thir âr yn rhai o'r cynefinoedd a gydnabyddir lleiaf o ran eu gwerth yng Ngheredigion oherwydd mae'n ymddangos eu bod nhw i'w gweld ym mhob man. Fodd bynnag, gall safleoedd sydd yn laswelltir wedi'i wella'n rhannol neu heb ei wella fodloni meini prawf Safle o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur (SINC) ar sail y cynefin ei hun a gall fod yn safle fforio hollbwysig i ystlumod, anifeiliaid di-asgwrn-cefn ac ati. Gall glaswelltir sydd wedi ei wella pori fod yn bwysig yn gyffredinol hefyd i ystlumod sy'n chwilio am fwyd (yn enwedig os mai gwartheg sydd wedi bod yn pori arno), planhigion megis ffwng, a chreaduriaid di-asgwrn-cefn megis morgrug yn eu twmpathau ac i foch daear. Gall safleoedd âr fod yn ffynhonnell fwyd arbennig o dda yn y gaeaf i adar neu gallant hyd yn oed gynnwys casgliadau o blanhigion prin.


© Jenny Higgins

12.7.2 Gall glaswelltir gwlyb hefyd fod yn arbennig o fuddiol i amffibiaid a mamaliaid bach a gall safleoedd mwy rhywogaeth-gyfoethog gynnwys anifeiliaid di-asgwrn-cefn amrywiol.

12.7.3 Fel arfer bydd datblygiadau yn arwain at golli glaswelltir ac felly nid oes modd lliniaru hyn. Dylai glaswelltir rhywogaeth-gyfoethog heb ei wella gael ei gadw. Gall fod angen cadw rhan o laswellt llai rhywogaeth-gyfoethog neu wedi'i wella mwy a chyflwyno trefn reoli addas.

12.7.4 Mae gwelliannau'n cynnwys rheoli plannu blodau gwyllt mewn ffordd gadarnhaol mewn ardaloedd mwy trefol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y nodyn cyfarwyddyd ar wahân 'Plannu ar gyfer Bywyd Gwyllt o fewn Datblygiadau' (Cyngor Sir Ceredigion, 2014g).



**12.8 Cynefinoedd eraill**

12.8.1 Mae cynefinoedd eraill y bydd angen eu hystyried yn cynnwys ardaloedd o brysgwydd, yn enwedig ar batrwm mosäig a chynefinoedd eraill. Gall haenau o brysgwydd fod yn gynefin unigol pwysig, neu'n rhan bwysig o gynefin ehangach ar gyfer nifer o rywogaethau gan gynnwys anifeiliaid di-asgwrn-cefn, planhigion is, adar, pathewod, moch daear ac ati, ac felly ni ddylid eu diystyru fel rhai heb lawer o werth (Mortimer et al, 2000).

12.8.2 Os oes modd, dylid cadw rhan o'r prysgwyddsy'n bresennol ar y safle neu eu hail-greu mewn rhan addas o'r safle. Os disgwylir colli clystyrau mawr, gall fod angen cynnal arolygon ar gyfer adar bridio, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, moch daear a rhywogaethau eraill, ac mae'n debyg y bydd angen cadw rhannau ohonynt.



12.8.3 Yn gyffredinol, dylid cymryd yn ganiataol y bydd adar yn nythu mewn prysgwydd, cyrs, coed a llystyfiant trwchus arall yn ystod y cyfnod bridio craidd oni bai bod arolwg wedi dangos nad dyma yw'r achos.

12.8.4 Mae plannu cynefin prysgwydd ar hyd canopi coed a blodau gwyllt yn creu cynefin mosaig pwysig i nifer o rywogaethau.

**12.9 Datblygiadau ynni adnewyddadwy**



12.9.1 Er bod llawer o fanteision cadarnhaol yn deillio o brosiectau ynni adnewyddadwy ac mae gan yr ALl agwedd gadarnhaol yn gyffredinol tuag atynt, fel unrhyw ddatblygiad, mae'n rhaid i brosiectau ynni adnewyddadwy osgoi ardaloedd sensitif a chynnwys mesurau lliniaru, digolledu a gwella priodol. Mae cyfres o nodiadau cyfarwyddyd ar wahân wedi cael eu cynhyrchu i gwmpasu'r prif fathau o ynni adnewyddadwy gan gynnwys:

- Cadwraeth Natur a Thyrbinau Gwynt Sengl (Cyngor Sir Ceredigion, 2014d)
- Cadwraeth Natur a Chynlluniau Micro-Hydro (Cyngor Sir Ceredigion, 2014c)
- Cadwraeth Natur ac Araeau Ffotofoltäig Solar (Cyngor Sir Ceredigion, 2014e)

12.9.2 I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan yr ALl (www.ceredigion.gov.uk).

## Cyfeiriadau


| |
|---|
| Asiantaeth yr Amgylchedd et al (2007). *PPG5 Canllawiau Atal Llygredd* |
| BREEAM. (n.d.) Darn o wefan BREEAM http://www.BREEAM.org.uk |
| Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). (n.d.). Darn o wefan JNCC: http://jncc.defra.gov.uk/ |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). (n.d). O wefan CNC:: http://www.naturalresourceswales.gov.uk |
| Cyngor Sir Ceredigion. (2013a). *Cynllun Datblygu Lleol (2007-2022) Cyfrol 1* |
| Cyngor Sir Ceredigion. (2013b). Cynllun Datblygu Lleol (2007-2022) Cyfrol 2a Datganiadau Grŵp Aneddiadau |
| Cyngor Sir Ceredigion. (2013c). Cynllun Datblygu Lleol Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Terfynol |
| Cyngor Sir Ceredigion. (2013d). *Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer CDLl Ceredigion Adroddiad Sgrinio Terfynol* |
| Cyngor Sir Ceredigion. (2014a). *Nodyn Cyfarwyddyd Ystlumod a Datblygu* |
| Cyngor Sir Ceredigion. (2014b). Canllawiau Cynllunio Atodol yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio |
| Cyngor Sir Ceredigion. (2014c). *Nodyn Cyfarwyddyd Cadwraeth Natur a Chynlluniau Micro-Hydro* |
| Cyngor Sir Ceredigion. (2014d). Nodyn Cyfarwyddyd Cadwraeth Natur a Thyrbinau Gwynt Sengl |
| Cyngor Sir Ceredigion. (2014e). Nodyn Cyfarwyddyd Cadwraeth Natur ac Araeau Ffotofoltaig Solar |
| Cyngor Sir Ceredigion. (2014f). *Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored* |
| Cyngor Sir Ceredigion. (2014g). Nodyn Cyfarwyddyd Plannu ar gyfer Bywyd Gwyllt o fewn Datblygiadau |
| Cyngor Sir Ceredigion. (n.d.). Darn o wefan CSC http://www.ceredigion.gov.uk |
| Deddf Adnoddau Dŵr. (1991). |
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981). (*fel y'i diwygiwyd)* |
| Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000) *(fel y'i diwygiwyd)* |
| Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004). |
| Deddf Diogelu'r Amgylchedd. (1990). |

| |
|---|
| Deddf Draenio Tir. (1991). |
| Deddf Dŵr. (2003). |
| Deddf Gwarchod Moch Daear. (1992). |
| Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. (2010). |
| Deddf yr Amgylchedd (1995). |
| Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig. (2006). |
| Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau): (2012). |
| Llywodraeth Cymru (n.d.). O wefan Llywodraeth Cymru: http://www.cymru.gov.uk |
| Llywodraeth Cymru. (2009). Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu |
| Llywodraeth Cymru. (2013). Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfred Pryfed Peillio |
| Llywodraeth Cymru. (2014). *Polisi Cynllunio Cymru (PCC)* Rhifyn 6 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru. (1997). Polisi Cynllunio Cymru: Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 10: Gorchymyn Cadw Coed |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2009). Polisi Cynllunio Cymru: Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cadwraeth Natur. |
| Mortimer, S.R., Turner, A.J., Brown, V.K., Fuller, R.J., Good, J.E.G., Bell, S.A. Stevens, P.A., Norris, D., Bayfield, N. and Ward, L.K. (2000). *The Nature Conservation Value of Scrub in Britain*. Adroddiad 308 o'r Gyfres Adroddiadau JNCC |
| Natural England (n.d.) O wefan MAGIC www.magic.gov.uk |
| Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. (2008). Canllawiau Safleoedd Bywyd Gwyllt Cymru |
| Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. (n.d.). *Llyfrgell:* Dogfennau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. O wefan PBC: http://www.biodiversitywales.org.uk/ |
| Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu Dŵr a'i Gronni) (2006). |
| Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr). (2003). |
| Rheoliadau Asesiad o Effaith Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru). (2004). |
| Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (2007). |
| Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Coedyddiaeth) (Cymru a Lloegr) (2007). |
| Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010). |
| Rheoliadau Caniatâd Amgylcheddol (Cymru a Lloegr). (2010). |
| Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol). (2011). |

| |
|---|
| Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref. (1999). |
| Rheoliadau Perthi. (1997). |
| Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI). (2013). *British Standards for Biodiversity: Code of Practice for Planning and Development BS42020:2013* |
| Sefydliad Safonau Prydeinig. (BSI) (2012). *British Standards for Trees in Relation to Design, Demolition and Construction BS5837:2012* |
| Sefydliad Siartredig dros yr Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) (2006). *Guidelines for Ecological Impact Assessment In The United Kingdom* |
| Sefydliad Siartredig dros yr Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) (n.d.a). *Sources of survey methods.* Darn o wefan CIEEM www.CIEEM.net |
| Sefydliad Siartredig dros yr Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) (n.d.b). *Professional Directory.* Darn o wefan CIEEM www.CIEEM.net |
| Sefydliad Siartredig dros yr Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) (n.d.c). *Competencies for Species Survey.* Darn o wefan CIEEM www.CIEEM.net |
| Sefydliad Siartredig dros yr Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) (2013). *Guidelines for Preliminary Ecological Appraisal* |
| Willmott Dixon. (2010). *Briefing Note 15: Ecological Surveys & Calandars.* |
| Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. (2000). |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod: (2000). *Bats and Trees* |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod: (2009). *Bats and Lighting in the UK* |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod: (2012). *Bats and Buildings* |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod: (2013). *Living with bats* |

## Atodiad A: Rhestr gyfeirio ar gyfer ceisiadau cynllunio ac Ecoleg

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Ydy eich safle chi/eich cleient yn cynnwys 0.1 hectar neu ragor o dir glas (tir heb ei ddatblygu o'r blaen) a/neu ydych chi, yn eich trafodaethau ag Ecolegydd Cynllunio'r ALI, wedi cael gwybod bod angen Arfarniad Ecolegol cychwynnol ar gyfer eich safle? | **Ie** | ☐ | **Na** | ☐ | |
| 2. Ydy'r math o ddatblygiad ar eich safle chi/eich cleient yn gofyn am arolygon rhywogaeth/cynefin/geoamrywiaeth penodol yn unol â'r Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd (os yw'ch safle yn safle a neilltuwyd), Tablau yn Adran 6.1, canlyniadau eich Arfarniad Ecolegol Cychwynnol (AEC) (os yw'n gymwys) a/neu Ecolegydd Cynllunio'r ALI? (gweler Adran 6) | **Ie** | ☐ | **Na (ewch i gwestiwn 4)** | ☐ | |
| 3. Os ydych wedi ateb Ie i 1 neu 2, ydy AEC neu arolygon ychwanegol wedi cael eu cwblhau? (Gweler Adran 6) | **Ie** | ☐ | **Na (ewch i gwestiwn 4)** | ☐ | Os na, ni fydd cais cynllunio yn cael ei ddilysu oni bai bod Ecolegydd Cynllunio'r ALI wedi cytuno yn ysgrifenedig nad oes angen AEC neu arolygon ychwanegol. |
| 3.1 Ydyn nhw wedi cael eu cwblhau:<br>a) ar yr adeg iawn o'r flwyddyn? (gweler Adran 6.3)<br>b) gan ecolegydd â chymwysterau addas? (gweler Adran 6.1)<br>c) gan ddefnyddio'r dulliau arolwg yn unol â chanllawiau cyfredol? (gweler Adran 6.1) | <br><br>**Ie**<br><br>**Ie**<br><br>**Ie** | <br><br>☐<br><br>☐<br><br>☐ | <br><br>**Na**<br><br>**Na**<br><br>**Na** | <br><br>☐<br><br>☐<br><br>☐ | Os ydych wedi ateb na i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, nid yw'r adroddiad ecolegol yn debygol o gael ei dderbyn pan ymgynghorir ag Ecolegydd Cynllunio'r ALI. |
| 3.2 Ydy'r adroddiad yn cynnwys;<br>a) argymhellion ar gyfer mesurau | **Ie** | ☐ | **Na** | ☐ | Os ydych wedi ateb na i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| osgoi, lliniaru a digolledu? (gweler Adran 7)<br>b) asesiad cyffredinol o'r effaith a'i harwyddocâd? (gweler Adran 6)<br>c) mesurau gwella priodol? (gweler Adran 7)<br>d) mae cynllun rheoli priodol wedi cael ei gynnig (lle y bo'n berthnasol) gan gynnwys dulliau monitro (gweler Adran 7)<br>e) mynediad / addysg bioamrywiaeth, os yw'n briodol? (gweler Adran 7.1)<br>f) yr holl rannau perthnasol a restrir yn nhablau Adran 6.4? | **Ie**<br>**Ie**<br>**Ie**<br>**Ie**<br>**Ie** | ☐<br>☐<br>☐<br>☐<br>☐ | **Na**<br>**Na**<br>**Na**<br>**Na**<br>**Na** | ☐<br>☐<br>☐<br>☐<br>☐ | unrhyw un o'r cwestiynau hyn, nid yw'r adroddiad ecolegol yn debygol o gael ei dderbyn pan ymgynghorir ag Ecolegydd Cynllunio'r ALI. |
| 4. Ydy'r **cynlluniau a'r Datganiad Dylunio a Mynediad** yn cynnwys mesurau osgoi, lliniaru a digolledu a gwelliannau lle y bo'n briodol? e.e. cadw gwrychoedd, clustogfeydd, ardaloedd digolledu, teils ystlumod ac ati? (gweler Adran 7 a 12) | **Ie**<br>**Amh** | ☐<br>☐ | **Na** | ☐ | Os na, mae Ecolegydd Cynllunio'r ALI yn debygol o wrthwynebu'r cais |
| 5. Oes angen cynllun tirlunio ar y safle yn unol â Pholisi DM10 (gweler Adran 7) | **Ie** | ☐ | **Na (ewch i gwestiwn 6)** | ☐ | |
| 5.1 Ydy cynllun tirlunio priodol wedi'i gynnwys gyda rhywogaethau brodorol o stoc leol, amrywiaeth o rywogaethau yn nhermau maint, math (ffrwythau, aeron, paill ac ati) a lliw? | **Ie** | ☐ | **Na** | ☐ | Os na, mae Ecolegydd Cynllunio'r ALI yn debygol o wrthwynebu'r cais |
| 6. Fydd angen goleuadau allanol ar y datblygiad? (gweler Adran 12.2) | **Ie** | ☐ | **Na** | ☐ | |
| 6.1 Ydy cynllun goleuo priodol wedi cael ei gynnig sydd heb gynnwys llifoleuadau, nid yw'n pwyntio tuag at unrhyw fannau mynediad i glwydfan ystlumod posibl, â chwfl ac yn cynnwys goleuadau lux lefel 3 neu lai? (gweler Adran 12.2) | **Ie** | ☐ | **Na** | ☐ | Os na, trafodwch ag Ecolegydd Cynllunio'r ALI |
| 7. Ydy'r math o gynllun wedi'i restru yn Atodlen 1 neu'n bodloni meini prawf a throthwyon Atodlen 2 a 3 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref 2011? (gweler Adran 9) | **Ie** | ☐ | **Na (ewch i gwestiwn 8)** | ☐ | |
| 7.1 Ydy Barn Sgrinio Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a/neu Farn Gwmpasu wedi cael ei cheisio? | **Ie** | ☐ | **Na (ewch i gwestiwn 8)** | ☐ | Os na, gall yr ALI roi gwybod i chi bod y datblygiad yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddatblygiad AEA ac felly mae angen Adroddiad Amgylcheddol |
| 7.2 Ydy Datganiad Amgylcheddol wedi cael ei gyflwyno? | **Ie** | ☐ | **Na** | ☐ | Os na, bydd yr ALI yn annilysu'r cais |
| 8. O'r trafodaethau â CNC, Ecolegydd Cynllunio'r ALI, yr AEC neu arolygon eraill a/neu fapio'r Ganolfan Cofnodion Lleol, oes posibilrwydd y gallai'r datblygiad gael effeithiau negyddol ar ACA/AGA/Ramsar (ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill)? (gweler Adran 10) | **Ie** | ☐ | **Na (ewch i gwestiwn 9)** | ☐ | Gall Ecolegydd Cynllunio'r ALI roi gwybod i chi adeg ymgynghori bod cam posibl ac felly efallai y bydd angen gwybodaeth bellach |
| 8.1 Ydy effaith y datblygiad wedi cael ei hasesu o fewn adroddiad mewn digon o fanylion a/neu gyda gwybodaeth briodol wedi'i darparu er mwyn i'r ALI ymgymryd â Phrawf o'r Effaith Arwyddocaol Debygol? | **Ie** | ☐ | **Na** | ☐ | Gall Ecolegydd Cynllunio'r ALI roi gwybod i chi adeg ymgynghori bod angen gwybodaeth bellach |
| 9. Oes corff o ddŵr o fewn 500m o'r datblygiad y gallai llwch, llygredd (olew ac ati) o'r datblygiad redeg iddo (cyn ystyried unrhyw fesurau lliniaru sydd gennych yn eu lle)? | **Ie** | ☐ | **Na (ewch i gwestiwn 10)** | ☐ | |
| 9.1 Ydy Datganiad Atal Llygredd wedi cael ei gyflwyno? (gweler Adran 10 a 12.4) | **Ie** | ☐ | **Na** | ☐ | Os na, bydd angen cyflwyno un. Os yw'r corff o ddŵr yn safle gwarchodedig neu wrth ymyl safle o'r fath, bydd angen cyflwyno hyn cyn y gellir gwneud penderfyniad ar y cais |
| 10. Oes coed o gwmpas y safle (naill ai o fewn y ffin neu wrth ymyl y | **Ie** | ☐ | **Na (ewch i** | ☐ | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ffin) neu o fewn y safle? | | | **gwestiwn 11)** | | |
| 10.1 Oes posibilrwydd y gallai'r coed yma gael eu heffeithio gan y datblygiad (symud, trimio, cwympo, cywasgu gwreiddiau, difrod i'r gwreiddiau ac ati)? (gweler Adran 12.5) | **Ie** | ☐ | **Na (ewch i gwestiwn 10)** | ☐ | Dylech ystyried ble fydd angen rhoi ffosydd ar gyfer cyfleustodau, torri a llenwi, ffyrdd ac ati ac y gallai gwreiddiau coed mwy o faint estyn ymhellach na'r canopi |
| 10.2 Ydy Arolwg Coed sy'n cynnwys CDC, DDC a CCC wedi cael ei gyflwyno yn unol â'r Safonau Prydeinig ar gyfer Coed mewn perthynas â Dylunio, Dymchwel ac Adeiladu BS5837:2012? (gweler Adran 12.5) | **Ie** | ☐ | **Na (ewch i gwestiwn 10)** | ☐ | Ni chaiff y cais ei ddilysu gan yr ALI hyd nes y caiff ei gyflwyno. Os yw'n cael ei gyflwyno ond nid yw'n cyrraedd y safon, efallai y bydd angen gwybodaeth bellach ar y cam ymgynghori |
| 11. Ydy canlyniadau'r arolwg wedi cael eu cynnwys, lle y bo'n briodol, yn y:<br>a) Dyluniad (gan gadw cynifer o'r coed â phosibl, gan osgoi mannau gwarchod gwreiddiau, cysgodi eiddo yn ormodol a choed sy'n debygol o fod angen eu symud yn ddiweddarach oherwydd bod yr uchder terfynol yn ymyrryd ag adeiladau ac ati?<br>b) Cynlluniau (yn dangos y coed i'w cadw, i'w symud, mannau diogelu gwreiddiau ac ati)<br>c) Cynlluniau tirlunio (manylion am y rhywogaethau i'w plannu, sut a phryd)<br>d) Cynlluniau rheoli (manylion ynghylch sut y cânt eu rheoli ar gyfer oes y datblygiad) | **Ie** | ☐ | **Na** | ☐ | Os na, mae Ecolegydd Cynllunio'r ALI yn debygol o wrthwynebu'r cais |